

# Cynnwys

<b>Diolchiadau</b>	<b>1</b>
<b>Pam pecyn cymorth ar gyfer darparwyr yng Nghymru?</b>	<b>3</b>
<b>1. Diben y Pecyn Cymorth hwn</b>	<b>5</b>
<b>2. Addysg Oedolion yng Nghymru</b>	<b>7</b>
<b>3. Cymwyseddau Diwylliannol</b>	<b>9</b>
• Cymwyseddau Diwylliannol	9
• Damcaniaeth y Mynydd Iâ	9
• Pwy sydd angen Cymwyseddau Diwylliannol?	10
<b>4. Cyfranogiad Pobl o Gymunedau Du a Lleiafrif Ethnig mewn Addysg Oedolion</b>	<b>11</b>
• Data llinell sylfaen a dadansoddiad o dueddiadau cyfranogiad ar gyfer pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig mewn addysg oedolion	11
• Dadansoddiad cymharol – Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam	12
• Prif ganfyddiadaus	14
• Casgliadau	19
<b>5. Sylwadau gan diwtoriaid, athrawon a dysgwyr</b>	<b>21</b>
• Rhesymau dros ddysgu	21
• Pethau sy'n rhwystro cyfranogiad	22
• Pryderon tiwtoriaid	23
• Safbwyntiau dysgwyr	23
• 'Manyleb' dysgwyr ar gyfer darparwyr da	24
<b>6. Cynghorion i sicrhau llwyddiant</b>	<b>25</b>
• Deg pwynt i'r tiwtor eu hystyried	25
• Cynghorion gan ddysgwyr	26

<b>7. Ymwreiddio cydraddoldeb o fewn y cwricwlwm</b>	<b>27</b>
• Cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu, dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm	27
• Ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r cwricwlwm	28
<b>8. Arfer Da</b>	<b>29</b>
<b>9. Ansawdd</b>	<b>41</b>
• Fframwaith arolygu Estyn	41
• Adolygiadau perfformiad darparwyr	42
• Adroddiad hunanasesu	42
• Cydraddoldeb ac amrywiaeth yn arolygon Estyn	43
• Beth mae arolygwyr yn ei ddisgwyl?	44
<b>10. Fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cydraddoldeb hiliol</b>	<b>45</b>
• Cyfrifoldebau dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000	45
• Diffiniadau o wahaniaethu	48
• Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb	49
<b>11. Cynlluniau gwersi, deunyddiau cwricwlwm ac amrywiaeth o fewn yr ystafell ddosbarth</b>	<b>51</b>
<b>Atodiad 1: Crynodeb o Ddeddf Cydraddoldeb Unigol (2006)</b>	<b>61</b>
<b>Atodiad 2: Enghreifftiau o gynllun cydraddoldeb unigol</b>	<b>68</b>
<b>Atodiad 3: Cysylltiadau defnyddiol – adnoddau a deunyddiau pellach</b>	<b>69</b>

# Pam pecyn cymorth ar gyfer darparwyr yng Nghymru?

Bu amrywiaeth ddiwylliannol yng Nghymru am fwy na dau gan mlynedd. Yn wir, nid yw mudo rhyngwladol i Gymru ac o Gymru yn ddim byd newydd. Bu allfudo o Gymru i America, Patagonia a Chanada ers y 17eg ganrif ac yn y 1880au cafodd morwyr o Somalia eu denu i Gaerdydd i weithio yn y dociau ac mae'r ddinas yn awr yn gartref i'r boblogaeth fwyaf yn y Deyrnas Unedig o Somaliaid a anwyd ym Mhrydain.

Dyweddodd Glen Jodon (Down The Bay – 2001) am ardal Butetown, Caerdydd

*"It is often said that in its heyday, from the late 1800s to the mid 1900s, it included people from the four corners of the earth. In the 1940s some forty five to fifty nations, and many more ethnic groups were represented in a population of around 5000...it was a place where a housewife may speak in Arabic with a Welsh accent".*

Yn fwy diweddar, ers 1994, bu mewnlif net o fudwyr rhyngwladol o dramor i Gymru (ac eithrio 2000 a 2004)<sup>1</sup>. Cafodd ceiswyr lloches eu gwasgaru i Gymru ers 2001. Mae'r rhai a gyrhaeddodd hyd yma wedi dod o bron wyth deg o wledydd gwahanol ac yn siarad o leiaf 25 o wahanol ieithoedd. Mae mwy na 16,000 o fudwyr o Ddwyrain Ewrop wedi cofrestru i weithio yng Nghymru ers mis Mai 2004 (1% o'r cyfanswm cyflogaeth) gyda thros hanner y ceisiadau mewn pedair ardal awdurdod lleol (Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam)<sup>2</sup>.

Mae trefi a dinasoedd yng Nghymru yn y 21ain ganrif yn amlwg yn dod yn gynyddol amrywiol yn nhermau iaith, diwylliant a chrefydd. Ond sut mae darparwyr yn diwallu her sicrhau fod pob oedolyn yng Nghymru yn cymryd rhan mewn ystod eang o wasanaethau addysg oedolion? Yn bwysicach, sut maent yn sicrhau fod dysgwyr yn llwyddiannus yn eu hymdrechion a bod tiwtoriaid, athrawon a darlithwyr wedi darparu'n iawn i ddiwallu anghenion dysgwyr o amrediad enfawr o wledydd; dysgwyr sy'n dod â'u crefydd, diwylliant, traddodiadau, ac mewn llawer o achosion, arddulliau dysgu gyda hwy i'w manau dysgu?

Mae darparwyr ledled Cymru'n ymwneud yn gynyddol gydag oedolion o gymunedau newydd ac yn anelu i sicrhau fod unigolion yn integreiddio gyda chymunedau mwy sefydlog a bod mewn sefyllfa i gyrchu amrywiaeth eang o wasanaethau addysgol. Bydd llawer o ddysgwyr yn chwilio am gefnogaeth i ddatblygu'r Saesneg a/neu mewn ennill sgiliau proffesiynol. Mae unigolion o gymunedau lleiafrif ethnig mwy sefydlog yn fwy tebygol o edrych am amrediad o gyrsiau eraill y medrid eu disgrifio fel bod ar gyfer hamdden a phleser neu gynyddu sgiliau ar gyfer cyflogaeth.

## Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Roedd gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiddordeb neilltuol mewn datblygu pecyn cymorth i Gymru sy'n cysylltu'n uniongyrchol gyda'r cyfrifoldebau statudol sydd gan bob sefydliad addysg yn Lloegr a Chymru. Mae gan APADGOS ddiddordeb hefyd mewn cefnogi tiwtoriaid, darlithwyr a rheolwyr cwricwlwm gyda'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

1 Ystadegau Gwladol (2005) *Focus on People and Migration*

2 Ystadegau Cymru (2007) Ystadegau ar Weithwyr Mudol yng Nghymru

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ac arweiniodd ar y rhaglen Datblygiad Proffesiynol Cynnar i gefnogi datblygiad athrawon a gwella ymarfer - mae'n amlwg fod cydraddoldeb hiliol yn rhan o'r broses hon, yn neilltuol yn awr ei bod yn ofynnol i bob athro mewn addysg oedolion fod â chymhwyster ffurfiol mewn addysgu. Mae'r pecyn cymorth mewn safle da i gefnogi'r broses hon.

Mae hefyd angen pecyn cymorth i dynnu sylw at yr arfer da sydd i'w weld mewn llawer o rannau o'r wlad. Mae'r pecyn cymorth yn anelu i rannu arfer da ac enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio wrth ddenu, cadw a sicrhau cynnydd myfyrwyr du a lleiafrif ethnig. Mae hefyd yn doddi amrywiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb hiliol yn gadarn o fewn fframwaith arolygu Estyn, gan arddangos na fedrir ei wahanu oddi wrth ansawdd.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn eistedd o fewn cyd-destun demograffeg newidiol Cymru yng nghyswllt proffiliau dysgwyr a newidiadau mewn deddfwriaeth, a ddangoswyd yn fwyaf diweddar yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, y Ddeddf Cydraddoldeb Unigol (2006) ac ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ehangu cyfranogiad.

Mae'r gwaith hwn yn anelu i ymchwilio ymhellach y dybiaeth, a gadarnhawyd drwy ymchwil dechreuol a phrofiad yn y maes, fod pobl o gymunedau du a lleiafrif ethnig mewn addysg oedolion yn llai tebygol na grwpiau eraill o oedolion i fanteisio ar rai mathau o addysg oedolion yn cynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, dysgu undebau a rhai meysydd o'r cwricwlwm a gynigir drwy sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnig cyngor ymarferol gan diwtoriaid, athrawon a darlithwyr sydd wedi gweithio gyda dysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig ac mae'n cyflwyno nifer o enghreifftiau, drwy astudiaethau achos, o gynlluniau sy'n gweithio. Mae cynnwys lleisiau dysgwyr yn dangos i ddarparwyr ac ymarferwyr y rhyngchwarae cynnil yn aml sydd rhwng ethnigrwydd, crefydd, iaith, dosbarth cymdeithasol a chyfranogiad a llwyddiant mewn addysg oedolion.

# 1. Diben y pecyn cymorth hwn

## Nod

Mae'r pecyn cymorth hwn yn anelu i gefnogi darparwyr addysg oedolion, yn cynnwys rheolwyr cwricwlwm, darlithwyr a thiworiaid wrth ystyried y ffordd fwyaf effeithiol iddynt weithio gyda dysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig.

Wrth ddatblygu'r pecyn cymorth rydym wedi defnyddio profiad darparwyr addysg oedolion mewn awdurdodau lleol, colegau, prifysgolion a'r sector gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio gyda dysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig.

Bu'n bwysig cofnodi rhai o'r heriau y maent yn eu hwynebu, yn ogystal â'u llwyddiannau, i benderfynu beth sy'n ffurfio arfer da, ac i ymchwilio'r ffyrdd gorau i ddarparwyr ddiwallu eu gofynion statudol a nodir yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a'r Ddeddf Cydraddoldeb Unigol (2006). Diben pennaf y canllawiau yw cefnogi darparwyr wrth feithrin perthynas dda rhwng dysgwyr o wahanol ddiwylliannau ac edrych ar ffyrdd o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yn barhaus i ateb anghenion addysgol dysgwyr sy'n gynyddol amrywiol yn ddiwylliannol yng Nghymru.

Roedd ymchwilio i ba raddau y mae oedolion o gymunedau du a lleiafrif ethnig yn cymryd rhan mewn addysg oedolion yn fan cychwyn ar gyfer y pecyn cymorth. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod dysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig yn tueddu i fanteisio ar gwricwlwm cyfyngedig yn unig, sy'n canoli ar bynciau seiliedig ar gelfyddydau megis Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Yn ein hymchwil ar gyfer y pecyn cymorth hwn, gwnaethom edrych ar yr ystadegau ar gyfranogiad yn genedlaethol a hefyd o bedair tref a dinas yng Nghymru sydd â phoblogaeth uchel o gymunedau du a lleiafrif ethnig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o batrymau dysgu ymysg oedolion yn y grwpiau hyn.

Cyflwynodd nifer o ddarparwyr astudiaethau achos i gefnogi'r pecyn cymorth. Eu prif ddiben yw dangos arfer effeithiol wrth weithio gyda dysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig ar draws y cwricwlwm addysg oedolion.

Drwy ddefnyddio'r ymarfer hwn, gobeithiwn y caiff darparwyr (a staff addysgu a chymorth rheng flaen) eu cynorthwyo i fod yn fwy ymatebol ac effeithiol wrth weithio gydag oedolion o gymunedau du a lleiafrif ethnig.

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth?

Nod y pecyn cymorth yw sicrhau fod darparwyr yn gwybod sut i wneud eu darpariaeth yn ddeniadol i amrediad eang o ddysgwyr o wahanol grwpiau cymdeithasol. Felly bydd y pecyn cymorth yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau addysg oedolion awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, prifysgolion ac yn y sector gwirfoddol a chymunedol. Fodd bynnag, bydd agweddau o'r canllawiau, yn neilltuol felly'r bennod ar gymwyseddau diwylliannol, yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio, neu'n anelu i weithio, gyda dysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig.

## **Sut y dylid defnyddio'r pecyn cymorth?**

Dylai'r pecyn cymorth gael ei ddefnyddio gan y rhai sy'n newydd i weithio gydag oedolion o gymunedau du a lleiafrif ethnig a'r rhai sy'n dymuno gwella eu hymarfer yn y maes. Bydd hefyd rai sy'n dymuno cyfeirio at y pecyn cymorth i gael gwybodaeth benodol, er enghraifft ystadegau ar gyfranogiad mewn addysg oedolion yn genedlaethol.

## **Dolenni gwe ac adnoddau pellach**

Mae nifer o ddolenni gwe yng nghefn y pecyn cymorth. Bydd y rhain yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n dymuno cynnal ymchwil bellach. Bydd dolenni gwe hefyd yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno::

- Ymweld â gwefannau'r rhai a gyfrannodd at gynhyrchu'r pecyn cymorth;;
- Cyrchu adnoddau pellach, dysgu rhithiol a chanolfannau dysgu; a;
- Dysgu mwy am y drafodaeth ryngwladol a byd-eang ar ymrwymo dysgwyr o blith cymunedau du a lleiafrif ethnig mewn addysg oedolion.

# 2. Addysg Oedolion yng Nghymru

## Y tirlun gwleidyddol yng Nghymru

Dadleuwyd y bu gan Gymru sefydliadau addysgol, strwythurau a threfniadau gwaith ers amser maith a fu'n wahanol i rai gweddill y Deyrnas Unedig, Yn bendant ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, mae tystiolaeth fod gwneuthurwyr polisi yn awyddus i hyrwyddo'r gwahaniaethau hyn. Dangosodd y 'rhaglen addysg a dysgu gydol oes gynhwysfawr' gyntaf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001 hyn yn glir drwy ddweud:

*'Byddwn yn cymryd ein cyfeiriad polisi ein hunain lle bo angen, er mwyn cael y gorau i Gymru' (Y Wlad sy'n Dysgu (2001) Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru)*

Diweddarwyd Y Wlad Sy'n Dysgu ers hynny a chyhoeddwyd 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yn 2006 yn amlinellu cyfeiriad strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a sgiliau hyd 2010. Mae'r ddogfen hon, fel ei rhagflaenydd, yn tanlinellu ehangu cyfranogiad, cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb.

Daeth Deddf Llywodraeth Cymru (2006) i rym yn dilyn yr etholiadau cenedlaethol yng Nghymru ar 3 Mai 2007. Mae'r ddeddf yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru ac yn creu gwahaniad cyfreithiol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwriaeth sy'n cynnwys y 60 Aelod Cynulliad) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediadaeth). Mae'r newid hwn yn golygu mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n llywodraethu a bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu ar bolisiau'r Llywodraeth a'r modd y mae'n defnyddio'r gyllideb. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn defnyddio ei phwerau newydd, er enghraifft y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 arfaethedig sy'n cyfeirio at Lwybrau Dysgu 14-19.

Gall canlyniadau'r etholiadau ym mis Mai 2007 hefyd fod ag argraff sylweddol ar gyfeiriad polisi addysg yng Nghymru yn y dyfodol. Heb unrhyw blaid yn ennill digon o seddi i lywodraethu ar ei phen ei hun ac, yn dilyn trafodaethau maith ac anodd, sefydlwyd clymblaid rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru. Cyhoeddodd y ddwy blaid eu cynllun ar gyfer llywodraethu, 'Cymru'n Un: agenda blaengar ar gyfer llywodraethu Cymru' ar 27 Mehefin 2007. Mae 'Cymru'n Un' yn amlygu ymrwymiad y Llywodraeth i 'gymdeithas deg a chyfiawn':

*'Ein gweledigaeth yw Cymru deg a chyfiawn, lle gall pob dinesydd benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain a llywio'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Ein huchelgais yw Cymru lle mae pawb yn cyflawni ei lawn botensial a lle nad oes unrhyw un yn byw mewn tloidi, lle na wahaniaethir yn eu herbyn, a lle nad oes ofn na cham-drin*

## **Addysg Oedolion yng Nghymru**

Mae addysg oedolion yn digwydd yng Nghymru ar draws sbectrwm eang o ddarparwyr ffurfiol ac anffurfiol; ysgolion; addysg uwch, addysg bellach, y sector gwirfoddol a chymunedol ac fel dysgu seiliedig ar waith. Mae gan bob rhan o'r sector ei gryfderau a'i wendidau, heriau a llwyddiannau ei hun. Fodd bynnag, maent oll yn wynebu heriau cyffredin fel canlyniad newid mewn demograffeg, globaleiddio ac ymfudiad.

Bu ymfudiad, yn neilltuol, yn nodwedd arwyddocaol a dylanwadol o hanes dynol. Trawsnewidwyd deinameg ymfudo rhyngwladol gan broses globaleiddio. Mae cyrhaeddiad gweithwyr mudol o'r gwledydd diweddaraf i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn codi heriau neilltuol ar gyfer darparwyr. Mae wedi creu galw cyflym ar gyfer darpariaeth addysg oedolion (o ESOL a Sgiliau Sylfaenol i gymwysterau lefel uwch), a fydd yn galw am sylw brys gan wneuthurwyr polisi, darparwyr a chyflogwyr.

Mae Cymru yn dal i addasu i newid mawr; bydd y system addysg sy'n dod i'r amlwg yn ganolog wrth ffurfio ac ailffurfio canfyddiadau o gymdeithas fodern, ac o Gymru. Bydd hyn yn gofyn am ddealltwriaeth nid yn unig o rôl addysg wrth gynhyrchu ac atgynhyrchu hunaniaethau, ond yn y cyfuniad cymhleth o gysylltiadau cymdeithasol, profiadau a disgwyliadau pawb yng Nghymru fodern.



# 3. Cymwyseddau Diwylliannol

## Cymwyseddau Diwylliannol

Mae gan amrywiaeth diwylliannol y Deyrnas Unedig oblygiadau sylweddol ar gyfer holl addysgwyr oedolion, nid yn lleiaf oherwydd bod angen iddynt gael lefelau cynyddol uwch o wybodaeth a dealltwriaeth am ddysgwyr a'u hanghenion. Mae hyn yn her neilltuol yng nghyswllt addysg oedolion a hyd yn oed fwy felly mewn dysgu seiliedig yn y gymuned gan mai hwn yw'r maes dysgu sydd â'r nifer uchaf o diwtoriaid rhan-amser. Mae'n debygol y bydd yn cymryd mwy i diwtoriaid o'r fath ddysgu am ddiwylliant, crefydd ac ethnigrwydd eu dysgwyr.

Mae aelodaeth newydd wyth o wledydd Dwyrain Ewrop yn yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004 wedi dod â thon newydd o fewnfudo i'r Deyrnas Unedig o wledydd megis Latvia, Lithuania a Gwlad Pwyl fel y nodwyd uchod. Bydd niferoedd sylweddol yn parhau i ddod o aelod wladwriaethau megis Bwlgaria a Romania, er bod ymfudo o'r gwledydd hyn yn debyg o gael ei 'reoli' yn helaethach.

Mae'r rhan fwyaf o'r newydd-ddyfodiaid yn oedolion ifanc a bydd y mwyafrif angen cefnogaeth i sicrhau sgiliau yn y Saesneg er mwyn medru ymuno'n llwyddiannus â'r farchnad lafur. Yn ychwanegol at hyn, mae wyneb cymdeithas yn parhau i newid wrth i wrthdaro newyn a rhyfel mewn rhannau eraill o'r byd effeithio ar y Deyrnas Unedig. Mae gwahanol rannau o'r wlad wedi gweld cymunedau'n datblygu yn ddiweddar o wledydd yn Nwyrain Affrica na fuom ag unrhyw gysylltiad hanesyddol â hwy ac nad ydym yn gyfarwydd â hwy.

Er mai oedolion o'r gwledydd hyn yw'r rhai tebycaf o geisio cael mynediad i wasanaethau cefnogaeth iaith megis ESOL, nid felly y bydd hi i bawb. Bydd dibynyddion sy'n oedolion eisiau cydnabyddiaeth i'w cymwysterau presennol, manteisio ar raglenni dysgu seiliedig yn y gymuned ac mewn llawer o achosion, eisiau sicrhau fod dysgu o'r fath yn berthnasol i'w diwylliant, traddodiad a hanes.

## Damcaniaeth y Mynydd Iâ

Mae gan bob un ohonom ein hunaniaeth ddiwylliannol ein hunain sy'n cynnwys amrediad eang o ffactorau. Mae rhai'n amlwg ar unwaith, er enghraifft, yn nhermau gwisg neu ystum; mae eraill yn llai amlwg ond serch hynny yn ychwanegu at yr elfennau hanfodol sy'n ein gwneud pwy ydym fel unigolion. Mae ffactorau cymdeithasol, economaidd a geowleidyddol oll yn cael effaith ar y ffordd y cysylltw'n gydag eraill a sut y gwelwn y byd, ac felly hefyd yn debygol o fod ag effaith ar sut y dysgw'n, y dulliau addysgu sydd orau gennym, a'r pynciau y dewiswn eu hastudio. Caiff y mynydd iâ ei ddefnyddio'n eang fel trosiad mewn damcaniaethau am ysgrifennu (Hemingway) a seicoleg (Freud) ac mae hefyd yn ddefnyddiol yng nghyswllt cymwyseddau diwylliannol. Ar unrhyw un amser mae tua wythfed ran mynydd iâ i'w weld uwchben y dŵr, mae'r gweddill wedi'i guddio o dan yr wyneb. Yn yr un modd daw ein hymddygiad, agweddau, gwerthoedd a barn gyffredinol am y byd o sylfaen sydd ynghudd i eraill a adeiladwyd dros oes drwy amrediad o ddylanwadau yn cynnwys teulu, grwpiau cymheiriaid, y cyfryngau a ffydd. Yr her i addysgwyr yw darganfod sut mae'r saith rhan o wyth sydd o dan yr wyneb yn effeithio ar ddysgu.

Nid oes consensws ar yn union yr hyn y dylai pawb wybod, ac nid yw'n rhwydd mesur lefel cymhwysedd tiwtoriaid, athrawon a darlithwyr yn wrthrychol. Fodd bynnag, bydd addysgwyr o leiaf yn ei chael yn ddefnyddiol i wybod am:

- y rhwystrau i ddysgu ar gyfer oedolion o gymunedau du a lleiafrif ethnig;
- ethnigrwydd, diwylliant, crefydd a chefnidir teuluol y grwpiau y gweithiant â hwy neu y maent yn ceisio eu recriwtio; a
- dewisiadau iaith dysgwyr a defnydd mamiaith.

Mae angen i addysgwyr hefyd osgoi anfanteision posibl stereoteipio dysgwyr yn ôl y diwylliant neu'r gymuned y maent yn perthyn iddynt. Nid yw grwpiau lleiafrif ethnig yn homogenaidd – gall ffactorau fel rhyw, oedran, dosbarth cymdeithasol, crefydd, y man y maent yn byw ynddo yn awr neu'r rhan o'r wlad 'gartref' y daethant ohoni oll fod â rhan wrth ffurfio dewisiadau ac arddull dysgu unigolyn. Felly dylai'r holl wybodaeth gyffredinol wrth gwrs gael ei hategu – neu ei disodli – gan asesiad unigol cynhwysfawr o bob dysgwr. Mae gweithio gyda dosbarthiadau yn cynnwys oedolion o amrediad o gymunedau du a lleiafrif ethnig yn cyflwyno cymhlethdodau pellach.

### **Pwy sydd angen cymwyseddau diwylliannol?**

Mae'r ateb yn syml. Pawb sy'n ymwneud â chyflwyno a chefnogi addysg oedolion, nid yn unig diwtoriaid a gweithwyr gwybodaeth ac arweiniad ond hefyd bobl sy'n darparu gwasanaethau rheng-flaen mewn meysydd megis derbynfa, switsfwrdd ac arlwy. Dylai cymwyseddau diwylliannol gael eu hymwreiddio'n gadarn ym mhob polisi a gweithdrefn yn gysylltiedig ag addysgu a dysgu.

Yn nodweddiadol mae sefydliad diwylliannol gymwys yn un sy'n:

- adlewyrchu amrywiaeth o fewn ei gweithlu;
- darparu amrediad eang o wasanaethau perthnasol i ddysgwyr;
- cynnig datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ei staff;
- cyflawni, a rhagori ar, ei dyletswyddau cyffredinol a phenodol yng nghyswllt Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000;
- gweithredu o leoliadau sy'n ddeniadol i ddysgwyr; a
- sicrhau fod aelodau staff yn gwybod am wahanol arddulliau dysgu ac addysgu fel y cyfeiriant at hil, diwylliant ac ethnigrwydd.

# 4.

## Cyfranogiad Pobl o Gymunedau Du a Lleiafrif Ethnig mewn Dysgu

Daw'r data a gyflwynwyd yma o ddata Llywodraeth Cynulliad Cymru yn seiliedig ar gyflwyniadau i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). O'r herwydd, ni fedrir ei gymharu'n uniongyrchol gyda'r Arolwg ar Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu ; 'Cymru: Symud tuag at y Wlad sy'n Dysgu' (2007) a gyhoeddwyd gan NIACE Dysgu Cymru.

Caiff data Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chywain yn unol â chonfensiwn yr Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn golygu y caiff ffigurau eu talgrynnu i'r 5 agosaf ac y defnyddir seren (\*) ar gyfer ystadegau hynny sydd rhwng y rhifau 0 a 5 (cynhwysol). Felly ni fu'n bosibl dod i gasgliadau am yr hollt rhwng ethnigrwydd, oedran a rhyw. Medrir esbonio'r bylchau mewn ychydig dablau yn y bennod hon gan y seren yn y data gwreiddiol.

Mae'r data a gafodd ei chywain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gael ar wefan NIACE Dysgu Cymru fel y gall darllenwyr lunio eu casgliadau eu hunain o'r data gwreiddiol.

*Addysg Bellach 2005/06*

Mae 25 Sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru, yn cynnwys Coleg Cymunedol YMCA Cymru a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) De. Nid yw'r data a gyflwynir yma yn cynnwys darpariaeth Addysg Bellach a gyflwynir drwy Sefydliadau Addysg Uwch – rhoddir gwybodaeth ar hynny yn nes ymlaen yn y bennod hon.

### **Cyfranogiad mewn Addysg Bellach yn ôl ethnigrwydd<sup>4</sup>**

Dysgwyr Gwyn yw'r rhan fwyaf o ddigon o'r rhai sy'n cymryd rhan mewn Addysg Bellach yng Nghymru gyfan, gan ffurfio tua 90% o'r holl ddysgwyr. Mae pob cymuned ddu a lleiafrif ethnig yn cyfrif am lai na 1% o gyfanswm cyfranogiad addysg bellach. Y cymunedau du a lleiafrif ethnig sydd â'r gyfran uchaf o gyfranogiad mewn Addysg Bellach yw Affricanaidd Du ac Asiaidd Arall. Gyda'i gilydd, mae dysgwyr Gwyn a dysgwyr y mae eu hethnigrwydd yn anhysbys yn cyfrif am dros 97% o'r holl ddysgwyr.

3 Cyfwelodd yr arolwg hwn, a gynhaliwyd gan RSGB ar gyfer NIACE, â sampl pwysedig o 4,916 o oedolion 17 oed a throsodd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar sampl pwysedig wedi'i gynyddu o 1000 o oedolion yng Nghymru.

4 Mae'r holl ddata yn y bennod hon sy'n cyfeirio at Addysg Bellach, Dysgu Cymunedol i Oedolion a dysgu seiliedig ar waith ar gael gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a gesglir drwy LLWR.

**Tabl 1: Cyfranogiad mewn Addysg Bellach (05/06) yn ôl cyfanswm ethnigrwydd Cymru**

Ethnigrwydd	Cyfranogiad	Cyfranogiad (%)
Gwyn	189160	90.4
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	305	0.2
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	165	0.1
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	225	0.1
Cefndir Cymysg arall	415	0.2
Asiaidd - Bangladeshi	550	0.3
Asiaidd - Indiaidd	525	0.3
Asiaidd - Pakistani	510	0.2
Cefndir Asiaidd arall	940	0.5
Du - Caribiaidd	365	0.2
Du - Affricanaidd	940	0.5
Cefndir Du arall	215	0.1
Tsieiniaidd	630	0.3
Cefndir Ethnig arall	955	0.5
Gwrthodwyd gwybodaeth	1030	0.5
Anhysbys	12235	5.9

Ffynhonnell data: LLWR, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn yr un modd, ar draws y pedair tref a dinas yng Nghymru gyda'r canrannau uchaf o boblogaeth o gymunedau du a lleiafrif ethnig (Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam), mae cymunedau Gwyn yn ffurfio rhwng 77% a 90% yr holl ddysgwyr mewn Addysg Bellach. Caerdydd sydd â'r canran uchaf o ddysgwyr du a lleiafrif ethnig mewn Addysg Bellach, gyda 15% heb fod o gefndir Gwyn (a 8% arall nad yw eu hethnigrwydd yn hysbys). Mae 3.5% o ddysgwyr Addysg Bellach o gefndir Du Affricanaidd; dyma'r gyfran uchaf o unrhyw gymuned ddu a lleiafrif ethnig unrhyw le yng Nghymru.

**Tabl 2 : Cyfranogiad Addysg Bellach (05/06) yn ôl ethnigrwydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam**

Ethnigrwydd	Caerdydd (%)	Casnewydd (%)	Abertawe (%)	Wrecsam (%)
Gwyn	77	88	90.1	88.9
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	0.8	0.7	0.1	0.1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	0.4	0.2	0.2	-
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	0.4	0.2	0.2	-
Cefndir Cymysg arall	1.3	0.5	0.2	0.1
Asiaidd - Bangladeshi	1.4	0.9	0.9	0.1
Asiaidd - Indiaidd	1.2	0.2	0.3	0.2
Asiaidd - Pakistani	1.5	1.9	0.4	0.1
Cefndir Asiaidd arall	1.5	0.8	0.9	0.5
Du - Caribiaidd	1	1.1	0.1	-
Du - Affricanaidd	3.5	1.6	0.9	0.4
Cefndir Du arall	0.7	0.3	-	0.1
Tsieineiaidd	0.7	0.2	0.4	0.2
Cefndir Ethnig arall	1.3	0.7	1	0.4
Gwrthodwyd gwybodaeth	0.2	0.6	0.3	0.6
Anhybys	6.9	2.2	3.5	8.1

Ffynhonnell data: LLWR, Llywodraeth Cynulliad Cymru

DS. Mae bylchau yn y tabl yn dangos fod data gwreiddiol ar goll oherwydd cyngor arfer Ystadegau Gwladol o beidio dynodi ffigurau sydd rhwng 0 a 5 cynhwysol.

Mae gan Gasnewydd a Wrecsam gyfraddau cyfranogiad Gwyn bron yn union yr un fath mewn Addysg Bellach. Fodd bynnag, mae gan Gasnewydd gynrychiolaeth llawer uwch o gymunedau du a lleiafrif ethnig mewn Addysg Bellach na Wrecsam. Gall hyn adlewyrchu mwy o amrywiaeth cymunedau yng Nghasnewydd. Nid oes unrhyw gymuned ddu a lleiafrif ethnig yn cynrychioli mwy na 1% o'r holl ddysgwyr Addysg Bellach yn Abertawe na Wrecsam.

Mae'r gyfradd cyfranogiad mewn Addysg Bellach gan ddysgwyr o gefndiroedd du a lleiafrif ethnig yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond lleiafrif bach iawn o'r boblogaeth ydynt yn gyffredinol. Oherwydd hyn, mae'n dilyn mai dim ond nifer fechan o ddysgwyr Addysg Bellach fyddent. Mae felly'n gwneud synnwyr i ddadansoddi cyfranogiad mewn Addysg Bellach fel canran o'r boblogaeth pobl dduon a lleiafrif ethnig, yn hytrach nag fel canran o gyfanswm dysgwyr mewn Addysg Bellach.

**Tabl 3: Cyfranogiad cynrychioladol Addysg Bellach (05/06) yn ôl ethnigrwydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam**

Ethnigrwydd	Cymru (%)	Caerdydd (%)	Casnewydd (%)	Abertawe (%)	Wrecsam (%)
Gwyn	8.3	4.2	5.3	8.8	10.5
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	10.1	8.3	16.2	12	15.2
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	11.9	8.3	15.2	39.1	-
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	8.8	7.5	7.8	13.8	-
Cefndir Cymysg arall	16.8	18.3	20.5	15.2	14.1
Asiaidd - Bangladeshi	17.3	11.2	11.2	26.3	34.1
Asiaidd - Indiaidd	8.5	5.1	4.6	11	13.6
Asiaidd - Pakistani	9.1	6.5	9	30.3	18.1
Cefndir Asiaidd arall	35.8	17.7	21.8	65.8	-
Du - Caribiaidd	16	10.4	17.7	23.4	17.3
Du - Affricanaidd	34.5	28.5	58.5	-	79.4
Cefndir Du arall	28	34.9	33.9	27.7	-
Tsieineaidd	12.7	5.6	4.1	14.6	19.7

Ffynhonnell Data: LLWR, Llywodraeth Cynulliad Cymru

DS.

- A) Caiff canrannau eu cyfrif yn defnyddio data dysgwyr o 2005/06 a data poblogaeth o gyfrifiad 2001. Felly, dylid cymryd y 5% terfynol fel brasamcan yn unig.
- B) Mae bylchau yn y tabl yn dangos fod data gwreiddiol ar goll oherwydd cyngor arfer Ystadegau Gwladol o beidio dynodi ffigurau sydd rhwng 0 a 5 cynhwysol

Dengys Tabl 3 fod y canran o gymunedau Gwyn yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam sy'n cymryd rhan mewn Addysg Bellach yn is na chanran llawer o gymunedau du a lleiafrif ethnig. Er bod nifer fawr o ddysgwyr, mae cyfran lai o'r boblogaeth Wyn yn cymryd rhan na'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig. Yng Nghaerdydd, mae'r cyfranogiad uchaf ymysg cymunedau Du Affricanaidd a Du Arall. Yng Nghasnewydd, mae'r cyfranogiad uchaf ymysg cymunedau Du Affricanaidd a Du Arall. Yn Abertawe, mae'r cyfranogiad uchaf ymysg cymunedau Asiaidd Arall a Chymysg Gwyn/Du Affricanaidd. Yn Wrecsam, mae'r cyfranogiad uchaf ymysg cymunedau Du Affricanaidd ac Asiaidd Bangladeshi.

Mae'r cyfranogiad isaf ymhlith cymunedau Gwyn, Cymysg Gwyn/Asiaidd, Asiaidd Indian a Tsieineaidd.

## Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn 2005/2006

### Cyfranogiad mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ôl ethnigrwydd <sup>5</sup>

Dysgwyr gwyn yw'r rhan fwyaf o ddigon sy'n cymryd rhan mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru Gyfan, megis mewn Addysg Bellach, gan ffurfio tua 90% o'r holl ddysgwyr. Dim ond dysgwyr Du Affricanaidd ac Asiaidd Arall sy'n ffurfio mwy na 1% o gyfanswm cyfranogiad mewn dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Pobl o gefndir Cymysg a Chefnidir Du arall sydd â'r gynrychiolaeth isaf.

**Tabl 4: Cyfranogiad mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned (05/06) yn ôl ethnigrwydd cyfanswm Cymru**

Ethnigrwydd	Cyfranogiad	Cyfranogiad (%)
Gwyn	50525	90.4
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	60	0.1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	35	0.1
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	40	0.1
Cefndir Cymysg arall	125	0.2
Asiaidd - Bangladeshi	280	0.5
Asiaidd - Indiaidd	205	0.4
Asiaidd - Pakistani	345	0.6
Cefndir Asiaidd arall	610	1.1
Du - Caribiaidd	95	0.2
Du - Affricanaidd	660	1.2
Cefndir Du arall	50	0.1
Tsieineaidd	185	0.3
Cefndir Ethnig arall	460	0.8
Gwrthodwyd gwybodaeth	310	0.6
Anhybys	1925	3.4

Data Ffynhonnell: LLWR, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ar draws tair dinas Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe (nid oes data ar gael ar gyfer Wrecsam), mae cymunedau Gwyn yn cyfrif am rhwng 77% a 94% o holl Ddysgwyr Oedolion yn y Gymuned. Nid yw dadansoddiad o gyfranogiad dysgwyr du a lleiafrif ethnig arall yn y maes yn bosibl oherwydd arfer yr Ystadegau Gwladol (h.y. mae'r rhifau'n rhy isel). Medrir dod i'r casgliad, fodd bynnag, fod dysgwyr gwyn yn dominyddu cyfranogiad mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

**Tabl 5: Cyfranogiad mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned (05/06) yn ôl ethnigrwydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam**

Ethnigrwydd	Caerdydd (%)	Casnewydd (%)	Abertawe (%)	Wrecsam (%)
Gwyn	76.7	85.6	93.9	Dim data

<sup>5</sup> Mae'r holl ddata yn y bennod hon yn cyfeirio at Addysg Uwch, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Dysgu Seiliedig mewn gwaith ar gael gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gasglwyd drwy LLWR.

## Dysgu Seiliedig ar Waith yn 05/06

### Cyfranogiad mewn Dysgu Seiliedig ar Waith yn ôl ethnigrwydd <sup>6</sup>

Yng Nghymru gyfan, mae dysgwyr Gwyn yn dominyddu ar gyfranogiad mewn dysgu seiliedig ar waith, gan ffurfio tua 97% o'r holl ddysgwyr. Nid oes unrhyw gymuned ddu a lleiafrif ethnig yn cyfrif am fwy na 0.4% o'r holl gyfranogiad mewn dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru.

**Tabl 6: Cyfranogiad mewn Dysgu Seiliedig ar Waith (05/06) yn ôl cyfanswm ethnigrwydd Cymru**

Ethnigrwydd	Cyfranogiad	Cyfranogiad (%)
Gwyn	67395	96.7
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	140	0.2
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	-	-
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	70	0.1
Cefndir Cymysg arall	135	0.2
Asiaidd - Bangladeshi	95	0.1
Asiaidd - Indiaidd	150	0.2
Asiaidd - Pakistani	120	0.2
Cefndir Asiaidd arall	280	0.4
Du - Caribiaidd	150	0.2
Du - Affricanaidd	255	0.4
Cefndir Du arall	-	-
Tsieineaidd	50	0.1
Cefndir Ethnig arall	185	0.3
Gwrthodwyd gwybodaeth	70	0.1
Anhybys	500	0.7

Ffynhonnell data: LLWR, Llywodraeth Cynulliad Cymru

*NB. Mae bylchau yn y tabl yn dangos fod data gwreiddiol ar goll oherwydd arfer Ystadegau Gwladol o beidio dynodi ffigurau sydd rhwng 0 a 5 cynhwysol*

Ar draws Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, mae cymunedau Gwyn yn cyfrif am rhwng 89% a 97% o'r holl ddysgwyr mewn Dysgu Seiliedig ar Waith. Eto, nid yw'n bosibl gweld y dadansoddiad o gyfranogiad mewn Dysgu Seiliedig ar Waith gan ddysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig oherwydd diffyg ffigurau yn y data gwreiddiol, medrir dweud fod dysgwyr Gwyn hefyd yn dominyddu ar gyfranogiad mewn dysgu seiliedig ar waith.

**Table 7: Cyfranogiad mewn Dysgu Seiliedig ar Waith (05/06) yn ôl ethnigrwydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam**

Ethnigrwydd	Caerdydd (%)	Casnewydd (%)	Abertawe (%)	Wrecsam (%)
Gwyn	89.1	93.4	97.4	95.9

<sup>6</sup> Mae'r holl ddata yn y bennod hon yn cyfeirio at Addysg Bellach, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Dysgu Seiliedig ar Waith ar gael gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Addysg Uwch yn 2005/06

### Cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn ôl ethnigrwydd <sup>7</sup>

Yng Nghymru gyfan, mae dysgwyr Gwyn yn cyfrif am ganran fawr o gyfranogiad mewn Addysg Uwch. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddysgwyr Cymru a dderbyniodd le mewn Sefydliad Addysg Uwch yn 2005/06, gwelwn mai oedolion Gwyn oedd tua 89% o'r holl ddysgwyr gradd, a 71% o holl ddysgwyr HND. Ar lefel gradd, nid oes unrhyw gymuned ddu a lleiafrif ethnig arall yn cyfrif am fwy na 1% o gyfanswm cyfranogiad mewn addysg uwch yng Nghymru. Yn yr un modd, ar lefel HND, dim ond dysgwyr o gefndiroedd Tsieinaidd sy'n ffurfio mwy na 1% o holl ddysgwyr HND. Ni roddodd 6.2% o ymgeiswyr Gradd a 22% o ymgeiswyr HND eu hethnigrwydd.

**Tabl 8: Cyfranogiad mewn Addysg Uwch (05/06) yn ôl ethnigrwydd cyfanswm Cymru**

Ethnigrwydd	Gradd		HND	
	Cyfranogiad	Cyfranogiad (%)	Cyfranogiad	Cyfranogiad (%)
Cymru	14539	88.6	521	71.3
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	48	0.3	1	0.1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	24	0.2	4	0.5
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	101	0.6	1	0.1
Cefndir Cymysg arall	90	0.5	3	0.4
Asiaidd - Bangladeshi	72	0.4	7	1
Asiaidd - Indiaidd	98	0.6	6	0.8
Asiaidd - Pakistani	108	0.7	5	0.7
Cefndir Asiaidd arall	74	0.5	4	0.5
Du - Caribiaidd	17	0.1	0	0
Du - Affricanaidd	82	0.5	5	0.7
Cefndir Du arall	15	0.1	1	0.1
Tsieinaidd	78	0.5	9	1.2
Cefndir Ethnig arall	60	0.4	3	0.4
Anhybys	1011	6.2	161	22

Ffynhonnell data: HESA

Mae'r gyfradd cyfranogiad mewn Addysg Uwch gan ddysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond lleiafrif bach iawn o'r boblogaeth yn gyffredinol ydynt. O'r herwydd, mae'n dilyn na fyddent yn eu tro ond yn nifer fach o'r dysgwyr Addysg Uwch. Mae'n gwneud synnwyr felly i ddadansoddi cyfranogiad y cymunedau du a lleiafrif ethnig fel canran o'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig, yn hytrach nag fel canran o holl ddysgwyr Addysg Uwch.

<sup>7</sup> Mae'r holl ddata yn y bennod hon yn cyfeirio at addysg uwch ar gael gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

<sup>8</sup> Mae 'Gradd' yn cynnwys israddedigion ac ôlraddedigion.



**Tabl 9: Cyfranogiad cynrychioladol Addysg Uwch (05/06) yn ôl ethnigrwydd**

Ethnigrwydd	Poblogaeth Gwyn	Poblogaeth Addysg Uwch	Cyfradd Cyfranogiad (%)
Gwyn	2,276,773	15,060	0.7
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	3027	49	1.6
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	1381	28	2
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	2561	102	4
Cefndir Cymysg arall	2470	93	3.8
Asiaidd - Bangladeshi	3184	79	2.5
Asian - Indiaidd	6158	104	1.7
Asian - Pakistani	5585	113	2
Cefndir Asiaidd arall	2629	78	3
Du - Caribiaidd	2295	17	0.7
Du - African	2721	87	3.2
Cefndir Du arall	769	16	2.1
Tsïeinaidd	4949	87	1.8

Ffynhonnell: HESA

DS. Caiff canrannau eu cyfrif yn defnyddio data dysgwyr o 2005/06 a data poblogaeth o gyfrifiad 2001. Felly, dylid cymryd y % terfynol fel brasamcan yn unig gan fod y data poblogaeth yn hen.

Er fod ganddi nifer llawer uwch o ddysgwyr, mae cyfran lai o'r boblogaeth Wyn yn cymryd rhan mewn Addysg Uwch nag sydd o boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig. Mae'r tabl uchod yn dangos fod cyfranogiad cynrychioladol Gwyn mewn addysg Uwch gan ddysgwyr yng Nghymru yn gyd-isaf o'r holl grwpiau ethnig yng Nghymru. Dim ond 0.7% o oedolion Gwyn ac oedolion o gefndiroedd Du Caribiaidd gymerodd ran mewn Addysg Uwch yn 2005/06.

Mae cyfranogiad cynrychioladol mewn Addysg Uwch uchaf gan bobl o gymunedau Cymysg Gwyn ac Asiaidd, Cefndir Cymysg arall a Du Affricanaidd.

### Cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn ôl ethnigrwydd a rhyw

Dengys dadansoddiad o gyfranogiad mewn Addysg Uwch yn ôl ethnigrwydd a rhyw fod cyfranogiad dynion a menywod yn ôl cymunedau du a lleiafrif ethnig yn amrywio. Ac eithrio Asiaidd Bangladeshi, mae gan bob grŵp Asiaidd gyfranogiad is o ddynion mewn Addysg Uwch nag o fenywod. Yn yr un modd ymysg cymunedau Du, mae gan bob grŵp Du Affricanaidd/Caribiaidd a grwpiau eraill gyfranogiad llawer is ymysg dynion nag ymhlith menywod. Dim ond ymysg grwpiau Tsïeinaidd, Asiaidd, Bangladeshi a Cymysg Gwyn/Asiaidd y mae cyfranogiad uwch gan ddynion mewn Addysg Uwch.

Roedd cyfranogiad menywod uchaf ymhlith Cymysg Gwyn/Caribiaidd/ Affricanaidd, Cymysg Arall a Du Arall. Roedd cyfranogiad menywod Gwyn bron 20% yn uwch na chyfranogiad dynion gwyn.

**Tabl 10: Cyfranogiad mewn addysg Uwch yn ôl ethnigrwydd a rhyw (Gradd a HND Cyfun)**

Ethnigrwydd	Cyfranogiad Dynion	Cyfranogiad Menywod	Cyfranogiad Dynion (%)	Cyfranogiad Menywod (%)
Gwyn	6316	8744	41.9	58.1
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	19	30	38.8	61.2
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	12	16	42.8	57.2
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	55	47	53.9	46.1
Cefndir Cymysg arall	35	58	37.6	62.4
Asiaidd - Bangladeshi	41	38	51.9	48.1
Asiaidd - Indiaidd	43	61	41.4	58.6
Asiaidd - Pakistani	53	60	46.9	53.1
Cefndir Asiaidd arall	36	42	46.2	53.8
Du - Caribiaidd	6	11	35.3	64.7
Du - Affricanaidd	40	47	46	54
Cefndir Du arall	6	10	37.5	62.5
Tseineaidd	47	40	54	46
Cefndir Ethnig arall	33	30	52.4	47.6
Anhybys	592	580	50.5	49.5

Ffynhonnell data: HESA

### Cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn ôl ethnigrwydd ac oedran

Mae Tabl 11 islaw'n cymharu cyfranogiad yn ôl ethnigrwydd ac oedran.

**Tabl 11: Cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn ôl ethnigrwydd ac oedran (%)**

Ethnigrwydd	20 a iau	21-24	25-39	40 a throsodd
Gwyn	81.5	8.3	7.9	2.3
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	69.4	12.2	14.3	4.1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	67.9	10.7	21.4	0
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	85.3	11.8	6.1	0
Cefndir Cymysg arall	74.2	14	8.6	3.2
Asiaidd - Bangladeshi	96.2	1.3	2.5	0
Asian - Indiaidd	88	5.8	4.8	1.9
Asian - Pakistani	78.8	13.3	7.1	0.9
Cefndir Asiaidd arall	75.6	3.8	16.7	3.8
Du - Caribiaidd	47.1	17.6	29.4	5.9
Du - Affricanaidd	44.8	16.1	29.9	9.2
Cefndir Du arall	37.5	25	37.5	0
Tseineaidd	89.6	9.2	1.2	0
Cefndir Ethnig arall	79.4	8	9.5	3.2
Anhybys	46.1	24.7	19.4	9.8

Ffynhonnell data: LLWR, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn y rhan fwyaf o grwpiau ethnig, mae cyfranogiad mewn Addysg Uwch wedi'i ganolbwyntio'n bennaf yn y gr\_p oedran 20 ac iau. Grwpiau Tsieinaidd, Asiaidd Bangladeshi, Asiaidd Indiaidd, Gwyn a Cymysg Gwyn/Asiaidd oedd â'r ganran uchaf o ddysgwyr Addysg Uwch dan 20 oed. Y gr\_p du a lleiafrif ethnig gyda'r canran isaf o ddysgwyr 20 oed ac iau yw Du Affricanaidd/Caribiaidd/Dysgwyr eraill. Fodd bynnag, Du Caribiaidd, Du Affricanaidd a chefnidiroedd Du eraill oedd â'r ganran uchaf o ddysgwyr yn y grwpiau oedran h\_n 25-39 a 40+. Roedd dros 37% o Gefndir Du arall mewn Addysg Uwch rhwng 25-39 oed o gymharu gyda 7.9% Gwyn yn yr un categori oedran.

## Casgliadau

Yn ystod yr ymchwil ar gyfer y pecyn cymorth hwn daeth nifer o faterion yn ymwneud â chasglu data i'r amlwg. Yn gyntaf, gan nad oes ystadegau poblogaeth cyfredol ar gael, daeth ystadegau o gyfrifiad 2001. Roedd hyn yn achosi problem wrth wneud cymariaethau gyda niferoedd dysgwyr o 2005/06. Yn ychwanegol, mae llawer o gymunedau du a lleiafrif ethnig yn newydd i wahanol rannau o Gymru neu wedi tyfu'n syfrdanol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid yn lleiaf oherwydd newidiadau yn y system gwasgaru ceiswyr lloches a ddiwyddodd ers y cyfrifiad diwethaf. Felly heb gael gwybodaeth fwy cyfredol nid yw'n bosibl rhoi darlun hollol gywir o gyfranogiad pobl dduon a lleiafrif ethnig mewn dysgu yn 2007.

Mae hefyd yn anodd gwneud tybiaethau am ddata cyfranogiad yng nghyswllt cymunedau du a lleiafrif ethnig gan fod y rhifau a ddefnyddir yn aml yn gymharol fach. Y canlyniad yw y gall dadansoddiad yn ôl amrywion ychwanegol megis rhyw neu oedran arwain at ddata sydd heb arwyddocâd ystadegol.

Ymhellach, mae nifer o boblogaethau bach iawn o bobl du a lleiafrif ethnig (er enghraifft Asiaidd Arall neu Du Arall) a all gyflwyno problemau wrth wrthgyferbynnu ffigurau gyda rhai o boblogaethau eraill (mwy). Mewn poblogaethau bach iawn, medrai un neu ddau unigolyn yn cymryd rhan (er enghraifft), gynrychioli 50% o'r boblogaeth honno.

Mae nifer fawr o ddysgwyr yn disgrifio eu hethnigrwydd fel 'arall' neu 'anhysbys'. Gall hyn fod oherwydd bod dysgwyr yn methu neu'n amharod i ddynodi eu hethnigrwydd. Mae hyn yn codi cwestiynau am addasrwydd rhai categorïau yn nhermau dal cefndir ethnig unigolion yn y Deyrnas Unedig.

Gan roi ystyriaeth i'r cyfyngiadau hyn, mae'r data yn awgrymu rhai canfyddiadau diddorol. Er enghraifft, mae cyfran sylweddol o ddysgwyr Asiaidd Bangladeshi a Du Affricanaidd yn cymryd rhan mewn Addysg Uwch (2.5% a 3.2% yn y drefn), o gymharu â Gwyn (0.7%). Ymddengys hefyd fod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn Addysg Uwch, o gymharu â Dysgu Oedolion yn y Gymuned neu Addysg Bellach. Mae'r data hefyd yn awgrymu fod y gyfran o fenywod Du Caribiaidd yn sylweddol uwch nag o ddynion (35%).

Drwyddi draw, ymddengys yn glir mai cymunedau Gwyn yw'r dysgwyr pennaf yn nhermau niferoedd gros ar draws Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith, Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac Addysg Uwch, fodd bynnag fel canran o'r boblogaeth, mae llai o unigolion Gwyn yn cymryd rhan mewn dysgu o gymharu gyda chymunedau ethnig eraill.

Er gwaethaf cymhlethdod defnyddio data fel hyn, fel y nodir uchod, mae'r dadansoddiad hwn yn dangos pwysigrwydd casglu data ar gyfranogiad gwahanol grwpiau ethnig mewn addysg a hyfforddiant. Yn aml gall deall patrymau cyfranogiad gwahanol grwpiau fod y cam cyntaf wrth ofyn cwestiynau pam fod gwahanol grwpiau yn cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd, herio stereoteipiau a chanfod ffyrdd newydd o ymgysylltu â grwpiau o ddysgwyr.



# 5. Sylwadau gan diwtoriaid, athrawon a dysgwyr

## Cefnogaeth i Ddysgwyr Du a Lleiafrif Ethnig mewn Addysg Oedolion

Mae'r bennod hon yn adrodd profiad a chynghor o lygad y ffynnon gan ddysgwyr du a lleiafrif ethnig, tiwtoriaid a darlithwyr. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd grŵp ffocws gyda dysgwyr, tiwtoriaid a darlithwyr. Roedd y dysgwyr o ystod eang o grwpiau lleiafrif ethnig mewn gwahanol leoliadau. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar wahân ar gyfer tiwtoriaid a darlithwyr, ond roeddent yn trafod peth tir cyffredin yn cynnwys:

- y rhesymau pam fod oedolion du a lleiafrif ethnig yn cymryd rhan mewn dysgu;
- y rhwystrau i gymryd rhan mewn addysg oedolion;
- argraff a rôl crefydd, diwylliant ac ethnigrwydd dysgwyr ar eu dysgu, a
- yr hyn a gred dysgwyr yw darparwydd da.

Roedd rhywfaint o gonsensws a gorgyffwrdd rhwng casgliadau dysgwyr a thiwtoriaid/darlithwyr. Cynhaliwyd nifer gyfyngedig o gyfarfodydd grŵp ffocws yng Nghaerdydd ac yng Ngogledd Cymru, mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar hyn a gwaith blaenorol a wnaethpwyd gan NIACE.

## Rhesymau dros ddysgu

Mae gan ddysgu rai swyddogaethau penodol ar gyfer oedolion o grwpiau du a lleiafrif ethnig, ac yn neilltuoel felly ar gyfer pobl sy'n dal yn y broses o ddysgu sgiliau yn y Saesneg neu o grwpiau lleiafrifol bach neu a gyrhaeddodd yn y Deyrnas Unedig yn ddiweddar. Medrir grwpio'r rhain fel sy'n dilyn:

- *Cymdeithasol a chymunedol*: Mae dysgu'n galluogi pobl i ddatgan eu traddodiadau a'u hiaith mewn awyrgylch diogel gydag eraill o gefndir tebyg, gan adeiladu ymdeimlad o undod
- *Diwylliannol*: Mae dysgu'n galluogi pobl i ymchwilio a rhannu agweddau penodol o'u diwylliant
- *Economaidd*: Mae dysgu'n datblygu sgiliau sy'n galluogi pobl i fod yn economaidd weithgar.
- *Goroesiad*: Mae dysgu'n datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd (yn neilltuoel Saesneg/Cymraeg neu Dechnoleg Gwybodaeth).

Ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dysgu iaith a dysgu 'er undod', roedd yr ystyriaethau hyn yn hollbwysig beth bynnag oedd pwnc 'pennawd' y cwrs. Canlyniad anfwriadol hyn yw y gall pobl a ddatblygodd y teimladau hyn o undod weithiau fod yn amharod i symud tu allan i'w parth cysur a symud ymlaen i ddysgu heriol arall.

Daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg o'r amrediad eang o sylwadau dysgwyr. Roedd y rhan fwyaf o ddigon yn cymryd rhan mewn dysgu am resymau personol yn gysylltiedig gyda theulu a chymuned. Roedd:

*Dwi isio dysgu oherwydd y bydd yn fy helpu i fod â bywyd llwyddiannus a all arwain at i fi fod yn fodel rôl da a chadarnhaol i fy mhlant a fy nghyfoedion*

Dim ond lleiafrif bach iawn a gafodd eu cymell gan ddymuniad am ddysgu fel diben ynddo'i hunan.

Dywedodd llawer o ddysgwyr du a lleiafrif ethnig mai'r canlyniad oedd bwysicaf iddynt oedd cael cymhwyster, gan ddweud pethau fel "*cael fy nghymhwyster a diweddar fy CV*", "*graddio o fy nghwrs*" ac "*ennill cymhwyster ar y diwedd*".

Mae'n amlwg fod llawer wedi manteisio ar unrhyw ddarpariaeth rad ac am ddim neu fforddiadwy, gan fachu ar gyfleoedd i wella'u Saesneg a chael mwy o amgylfred ar y system addysg yn y wlad hon a'r cyfleoedd a gynigir. Gwelai pawb hyn fel rhan o'r broses o anelu at bethau uwch a gwell, fel arfer yn y proffesiynau, addysgu, technoleg gwybodaeth a busnes.

## Pethau sy'n rhwystro cyfranogiad

Cytunai tiwtoriaid/darlithwyr a dysgwyr fod dysgwyr du a lleiafrif ethnig yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn dysgu os gall eu cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau ymhellach, dysgu'r Saesneg neu gael swydd. Mae rhai o'r rhesymau am hyn yn gysylltiedig â'u cymhelliant dros ddysgu ond mae ffactorau eraill hefyd yn berthnasol. Y pedwar ffactor mwyaf cyffredin a ddynodwyd fel rhwystrau oedd:

- *Diffyg amser*: Mae oedolion du a lleiafrif ethnig yn ei chael yn anodd canfod amser i gymryd rhan mewn addysg oedolion, yn neilltuol y rhai sy'n gweithio oriau maith mewn diwydiannau gwasanaeth ac mewn swyddi di-grefft a lled-grefftus.
- *Diffyg arian*: Yn aml wedi gorgrynhoi yn ardaloedd tlotaf Cymru, mae oedolion du a lleiafrif ethnig yn llai tebygol o fod mewn sefyllfa i dalu am addysg oedolion. Mae hyn o gonsyrn neilltuol gan y gofynnir i oedolion dalu am, neu wneud cyfraniad at, ddysgu a arferai fod yn aml yn ddi-dâl. Mae galw cynyddol am ddarpariaeth ESOL mewn llawer o rannau o Gymru ac mae darparwyr yn aml yn ei chael yn anodd ateb y galw.
- *Ni thbyr fod addysg oedolion yn ddigon perthnasol*: Efallai nad oes gan oedolion du a lleiafrif ethnig ddi-ddordeb yn yr hyn sydd ar gael os, fel sy'n wir yn aml, mae'n seiliedig ar werthoedd, diwylliannau a thraddodiadau nad ydynt yn eu rhannu. Dengys y data ym Mhennod 4 fod grwpiau du a lleiafrif ethnig yn debycach o gymryd rhan mewn Addysg Uwch na mathau eraill o ddysgu. Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethau diwylliannol mewn canfyddiadau o wahanol fathau o addysg a hyfforddiant.
- *Gwahanol uchelgais*: Mae peth tystiolaeth fod dysgwyr du a lleiafrif ethnig yn fwy tebygol na'u cyfoedion gwyrn i fod eisiau meysydd mwy cyfryngol o ddysgu sy'n rhoi modd neilltuol o gyrraedd nod neilltuol (yn aml gysylltiedig â chyflogaeth).

Gall ethnigrwydd a rhyw effeithio ar uchelgais. Dywedodd rhai menywod Mwslimaidd, er enghraifft, y medrai fod yn rhaid iddynt gael cymeradwyaeth eu teulu cyn ymuno â chwrs neilltuol o astudio, er bod hyn yn newid. Dywedodd y rhai a gymerodd ran mewn un grŵp ffocws eu bod yn agored yn herio traddodiadau, yn cynnwys agweddau eu gŵyr.

Dywedodd llawer o ddysgwyr fod rhai heriau wrth fod yn lleiafrif mewn addysg oedolion, ond bod cael ymdeimlad cryf o'r hunan yn helpu dysgwyr i fod yn llwyddiannus yn eu dewis feysydd cwricwlwm.

Yn ychwanegol at yr uchod, soniodd dysgwyr am y pryderon dilynol fel rhwystrau posibl i gyfranogiad:

- Y cyfleoedd o ddysgu yn y tymor hir tra'n gweithio a chefnogi teulu – gall hyn gyfyngu dilyniant;
- y syniad o orfod dysgu gyda phobl o ddiwylliannau eraill a all fod â gwell cymwysterau neu'n fwy rhugl yn Saesneg;
- cyfyngiadau diwylliannol neu grefyddol (er enghraifft rhai menywod Mwslimaidd);
- rhwystr iaith tybiedig neu ddiffyg hyder yn defnyddio'r Saesneg/Gymraeg i ganfod am gyfleoedd dysgu (yn arbennig pobl newydd gyrraedd yn y Deyrnas Unedig);
- amharodrwydd i fynychu dosbarthiadau y tu allan i'w hardaloedd eu hunain, yn bennaf oherwydd diffyg hyder mewn teithio; ac
- ofn na fydd tiwtoriaid/darlithwyr o wahanol gefndiroedd yn deall eu hanghenion crefyddol a diwylliannol.

## Pryderon Tiwtoriaid/Dysgwyr

Teimlai'r rhan fwyaf o diwtoriaid/darlithwyr mai eu her fwyaf oedd symud dysgwyr o'u parth cysur i feysydd newydd na fyddent yn eu hystyried fel arall, tra'n atal eu barn eu hunain am ba nod sydd orau i ddisgyblion. Gall dealltwriaeth sylfaenol am gefndir, gwerthoedd a pharamedrau dysgwyr a pherthynas ymddiriedgar gadarn rhwng tiwtoriaid, dysgwyr a sefydliadau helpu i sicrhau sgysiaau agored a dewisiadau gwybodus am opsiynau. Mae dulliau eraill o gefnogi hyn yn cynnwys:

- Sicrhau y caiff pob dysgwr eu trin gydag urddas a pharch;
- datblygu ffyrdd i gefnogi dysgwyr i wireddu eu potensial a chyflawni 'hunanwireddiad';
- deall effaith gwahanol ddiwylliannau ar dulliau dysgu ac addysgu, a chynllunio cwricwlwm;
- bod yn ymwybodol o wyliau a ffyrdd i'w cynnwys yn y cwricwlwm, cynllunio gwersi a chynlluniau gwaith;
- datblygu cymwyseddau craidd pob tiwtor wrth werthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth;
- sicrhau fod dysgwyr yn cael mynediad i amrediad o diwtoriaid o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol;
- ymrwymo mewn hyfforddiant, cefnogaeth a datblygiad proffesiynol parhaus; a
- rhoi cefnogaeth ryngweithiol i wella cynllunio gwersi megis gwefannau, cryno-ddisgiau a deunyddiau ystafell ddosbarth.

## Safbwyntiau dysgwyr

Roedd profiadau gwahanol ddarparwyr yn gymysg, rhwng cadarnhaol a negyddol. Amlinellir rhai ohonynt islaw.

Ystyriai dysgwyr fod gallu sefydliad i gyflawni anghenion diwylliannol a chrefyddol dysgwyr, a sicrhau y rhoddir ystyriaeth iddynt yn ystod cynllunio cwricwlwm ac mewn addysgu, yn dibynnu ar ba mor effeithiol y mae wrth:

- Gwneud yn sicr fod staff yn deall anghenion dysgu penodol dysgwyr du a lleiafrif ethnig a defnyddio deddfwriaeth i sicrhau fod staff yn gynrychioladol o'r dysgwyr y darperir gwasanaethau iddynt; a
- chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff.

Roedd oedolion mewn un canolfan ddysgu yn neilltuo o gadarnhaol am eu profiadau, gan sôn am y rhesymau dilynol:

- Y dysgu yn seiliedig yn y gymuned.
- Llawer o ddysgwyr eraill a rhai o'r staff o gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol tebyg.
- Yr holl staff, beth bynnag eu hil neu grefydd, yn arddangos ymrwymiad llawn i helpu'r holl ddysgwyr i wireddu eu potensial llawn.
- Staff yn llwyr ymwybodol o'r cysylltiad rhwng arsylwad crefyddol ac ymddygiad dysgwyr, ac yn cynllunio yn unol â hynny.
- Staff â gwybodaeth drwyadl am y gymuned leol a phrofiad maith o ddarparu gwasanaethau seiliedig yn y gymuned.

Awgrymodd dysgwyr hefyd nifer o ffyrdd y medrai tiwtoriaid/darlithwyr ddarparu'n well ar eu cyfer ar sail ddiwylliannol:

- Darparu gwasanaethau sy'n seiliedig yn fwy yn y gymuned.
- Cynnig cwricwlwm sydd fwy amrywiol yn ddiwylliannol.
- Ailystyried dulliau addysgu a rhoi ystyriaeth fod dysgwyr o rai grwpiau du a lleiafrif ethnig yn aml yn gyfarwydd â dulliau addysgu a dysgu sy'n wahanol i'r rhai y mae oedolion Ewropeaidd yn gyfarwydd â hwy.
- Dod i adnabod dysgwyr yn well a chanfod mwy am eu gefndir.
- Rhyngweithio mwy gyda dysgwyr.
- Ehangu safbwyntiau Ewro-ganolig: dylai darlithwyr wneud eu hunain yn fwy cadarnhaol yn ddiwylliannol.

Mae'r rhesymau pam fod dysgwyr du a lleiafrif ethnig yn cymryd rhan mewn addysg oedolion, ac yn eu gwahanol feysydd o ddysgu, yn niferus a chymhleth ond mae nifer o negeseuon a ailadroddwyd gan athrawon, tiwtoriaid a darlithwyr.

## Cefnogi llwyddiant

Mae gweithredoedd amhriodol, hyd yn oed os yn ddifeddwl ac anfwriadol, yn effeithio ar brofiad dysgwyr du a lleiafrif ethnig. Ychwanegir at y rhain yn aml gan grwpiau neilltuol o ddysgwyr. Er enghraifft gall dysgwyr Affricanaidd Caribiaidd a gafodd eu holl brofiad addysgol statudol ym Mhrydain ac sydd wedi cymryd cam enfawr o ffydd yn ôl i addysg oedolion, gael eu hymdrechion wedi eu llesteirio oherwydd gair neu ymadrodd diofal, neu oherwydd nad yw sefydliad yn 'siarad gyda hwy' neu'n cyfnerthu unrhyw beth am eu profiad neu ddiwylliant.

Wrth gwrs, nid yw'n rhaid iddi fod fel hyn a gall tiwtoriaid a darlithwyr gymryd nifer o gamau syml er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi dysgwyr du a lleiafrif ethnig i wireddu eu potensial llawn ac i gyrraedd lle maent eisiau mynd.

Mae'n bosibl ei gwneud yn iawn a'i wneud yn dda. Mae ein grwpiau ffocws, astudiaethau achos a thystiolaeth arall megis yr hyn a gasglwyd o ddarllen adroddiadau arolwg Estyn, yn cynnig ffyrdd profedig y gall y cwricwlwm, a'r modd y'i cyflwynir, helpu dysgwyr du a lleiafrif ethnig i lwyddo.

Mae penodau eraill yn y pecyn cymorth yn anelu i esbonio'r cyd-destun ar gyfer dysgu grwpiau du a lleiafrif ethnig, rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hynny a'r rhesymau pam fod pobl yn teimlo ac ymddwyn fel y gwnânt.



# 6. Cynghorion i sicrhau Llwyddiant

## Deg pwynt i'r tiwtor eu hystyried

1. *Dysgu'r sylfeini am ddiwylliant, crefydd a thraddodiad eich dysgwyr* Edrychwch beth mae eraill yn y grŵp yn ei wneud. Os ydych yn ansicr, holwch! Os na fedrwch gael yr ateb, chwaraewch yn saff ac osgoi pethau yr ydych yn amau fedrai achosi problemau, megis tiwtor gwryw yn cynnig ysgwyd llaw menyw Fwslimaidd.
2. Cadw mewn cof y gall *fod tensiynau rhwng gwahanol grwpiau* o ddysgwyr o'r un wlad (yn dilyn gwrthdaro yn Somalia a Rwanda, er enghraifft) ac ystyried sut y medrai hyn effeithio ar ddeinameg yr ystafell ddosbarth.
3. Bod yn *ymwybodol o'ch gwerthoedd diwylliannol eich hunan* a bod yn barod i'w rhoi o'r neilltu i wneud i ddysgwyr deimlo'n gysurus. Mae myfyrwyr Affricanaidd, er enghraifft, yn tueddu i fod yn uchel eu parch at athrawon a medrant gynnig cario bagiau a llyfrau a rhoi help llaw yn yr ystafell ddosbarth - beth am adael iddynt wneud hyn?
4. Deall y gall *disgwyliadau o'r berthynas myfyriwr/athro* amrywio mewn gwahanol ddiwylliannau. Er enghraifft, mae pobl a fu yn yr ysgol yn y Caribî yn aml yn disgwyl arddull mwy traddodiadol ac awdurdodol gan eu tiwtor nag sy'n arferol yma.
5. Bod yn ymwybodol o ba raddau y mae *traddodiadau a gwyliau crefyddol yn effeithio ar fywyd bob dydd* a chynllunio ar gyfer hyn yn eich darpariaeth. Er enghraifft, mae ymprydio Ramadan yn debygol o gael effaith ar allu dysgwyr i gymryd rhan mewn sesiynau mwy egniol megis rhoi cyflwyniadau.
6. *Gwrthod meddwl ystrydebol*. Er enghraifft, nid yw dysgwyr Mwslimaidd i gyd yr un fath - medrant fod yn dod o wledydd Arabaidd, Affricanaidd neu Ewropeaidd, bod â chroen du, brown neu wyn a bod yn dehongli'r Quran yn wahanol, yn amrywio o fod yn 'sylfaenol' i ryddfrydol yn eu ffydd. Dylid bod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau yn yr hyn a fedrai ymddangos yr un fath ar yr wyneb.
7. Ymchwilio ffyrdd o *gyfuno gwahanol ddiwylliannau*, traddodiadau a hanes i'r cwricwlwm i ymgysylltu â dysgwyr du a lleiafrif ethnig. Mae cymunedau teithwyr Gwyddelig yn hoffi dathlu genedigaethau a phriodasau yn rhwysgfawr drwy duswau mawr a bach o flodau - sut y medrech ddefnyddio'r wybodaeth hon i'w hannog i ddysgu?
8. Bod yn ofalus am *ddefnydd iaith i ddisgrifio pobl*. Mae geirfa yn esblygu'n barhaus ac nid yw termau a ddefnyddir i ddisgrifio oedolion du a lleiafrif ac ethnig bob amser yn dderbyniol i bawb. Gall yr hyn a ffafir hyd yn oed o fewn un gymuned amrywio yn ôl oedran, rhyw a dosbarth cymdeithasol.
9. Meithrin *cysylltiadau agos gyda sefydliadau cymunedol*. Gall hyn roi pont rhwng eich sefydliad a grwpiau du a lleiafrif ethnig y medrwch fod yn ceisio eu cyrraedd. Gall sefydliadau cymunedol hwyluso dialog dwy ffordd, gan eich helpu i ddeall ac ateb anghenion yn ogystal â darbwylo aelodau'r gymuned o werth dysgu. Gwnewch yn siŵr eich bod bob amser yn cydnabod eu cyfraniad a manteision un i'r llall yn y berthynas.

10. Ymchwilio pob llwybr ar gyfer darparu mentoriaid a modelau rôl gan eu bod yn bwysig i ddysgu llwyddiannus ar gyfer oedolion du a lleiafrif ethnig. Gofynnwch am gymorth staff, gwirfoddolwyr, dysgwyr 'hŷn' a chyfoedion neu asiantaethau eraill - unrhyw fan lle mae ymgeiswyr addas. Ni ddylai fod yn ddewis rhad - buddsoddwch mewn disgrifiadau swydd, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus. Medrai gweithredu cadarnhaol dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) helpu i sicrhau fod eich staff yn fwy cynrychioladol o'r dysgwyr y gweithwch â hwy.

### Cynghorion gan ddysgwyr

1. Cofiwch *beth bynnag yw ffocws y cwrs*, mae cyfranogwyr du a lleiafrif ethnig yn fwyaf tebygol o fod yn dysgu er mwyn gwella eu hyder a'u cysylltiadau cymdeithasol, eu rhagolygon swyddi ac, i rai, eu sgiliau yn Saesneg.
2. Mae pobl yn fwy tebygol o ymuno ac aros y cwrs os gwyddant y bydd hefyd eraill *o'r un cefndir â hwy* yn astudio.
3. Gall *cyflenwi dysgu o fewn cymunedau* helpu i oresgyn problemau gydag iaith a hyder yn ogystal â gyda chyfyngiadau diwylliannol.
4. Gall *sicrhau tiwtoriaid a darlithwyr o'r un cefndir* a/neu gymuned ieithyddol helpu i adeiladu tir cyffredin.

# 7

## Ymwreiddio cydraddoldeb o fewn y Cwricwlwm

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu, dylunio a chyflwyno'r Cwricwlwm

- Ar ôl llwyddiant cofrestru daw her cadw diddordeb ac ymrwymiad dysgwyr. Gall y cwricwlwm fod yn erfyn dysgu grymus ar gyfer ymgysylltu, ond gall hefyd ddieithrio - er enghraifft, efallai na fydd grwpiau du a lleiafrif ethnig yn cynhesu i ormod o ffocws Ewropeaidd sy'n defnyddio enghreifftiau a darluniadau o Ewrop yn unig ac yn anwybyddu pobl, lleoedd neu lwyddiannau o rannau eraill yn y byd. Gan ddefnyddio profiad uniongyrchol darparwyr, gwyddom fod cynllunio cwricwlwm cynhwysol yn cynnwys y nodweddion dilynol:
- Cynllunio cwricwlwm sy'n rhoi ystyriaeth i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan anelu i fod yn gynhwysol lle bynnag sy'n bosibl drwy gynlluniau gwaith, canllawiau i staff ac archwiliadau cydraddoldeb yn y cwricwlwm.
- Cyflenwi cwricwlwm sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd, diwylliannau, dosbarth a statws i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad presennol i gyfrannu at ddysgu, a gwneud yn glir y caiff y cyfraniadau hyn eu gwerthfawrogi.
- Staff yn sicrhau fod y cwricwlwm a'i gyflwyniad yn hygyrch i ystod amrywiol o ddysgwyr.
- Adolygiadau rheolaidd a systematig o bob deunydd dysgu i sicrhau nad ydynt yn cynnwys rhagfarn neu stereoteipiau negyddol.
- Staff ar bob lefel yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysgu a dysgu drwy'r dulliau addysgu a ddefnyddir a thrwy ddewis cynnwys cwricwlwm. Dylai'r enghreifftiau a ddefnyddir mewn deunyddiau cwrs fod yn addas a hygyrch i bawb. Ymdrechir i sicrhau y daw enghreifftiau a darluniadau o ffynonellau eang - fel y bydd myfyrwyr sy'n astudio'r Ffrangeg yn clywed y Ffrangeg a siaradir yn Affrica ar dapiau a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer ymarfer sgiliau gwranddo yn ogystal â'r Ffrangeg a ddefnyddir yn Ffrainc; myfyrwyr celf, crefft a dylunio yn gweld a chael eu hannog i arbrofi gyda dyluniadau o lawer o wahanol ddiwylliannau; y gerddoriaeth a ddefnyddir mewn dosbarthiadau ymarfer yn adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau a rhythmau; y tasgau ymchwil a ddefnyddir mewn dosbarthiadau yn helpu pobl i ddysgu sut i gasglu gwybodaeth o'r we hefyd yn cynnwys tasgau fydd angen gwybodaeth o wahanol rannau o'r byd.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, dynodir materion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel themâu neu bynciau trafod neu ymchwilio o fewn y cwricwlwm.
- Yr iaith a ddefnyddir mewn deunyddiau cwrs i fod yn addas ac osgoi gwahaniaethu'n erbyn unrhyw grwpiau neilltuol o ddysgwyr.
- Amseriad dosbarthiadau ac asesiadau yn ffitio'n eang gydag anghenion a chyfyngiadau hysbys ar ddysgwyr (er enghraifft amserau gweddïo)
- Yr holl ddysgwyr yn medru ymuno mewn ymweliadau, gweithgareddau cymdeithasol a thripiâu, neu gael cynnig amgennau dilys lle cânt eu rhwystro rhag gwneud hynny (er enghraifft gan wyliau crefyddol neu ystyriaethau diwylliannol).

## Ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r cwricwlwm

Er bod hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn nodwedd gyffredin mewn rhai meysydd cwricwlwm a ddewisir yn amlach gan ddysgwyr du a lleiafrif ethnig (hanes neu grefftau, er enghraifft), ymddengys bod tiwtoriaid a darlithwyr yn ei chael yn anos i ymwreiddio'r materion yn gyson ar draws yr holl gwricwlwm. Fodd bynnag, gyda pheth ystyriaeth a mynediad i amrediad eang o adnoddau cwricwlwm, gall tiwtoriaid ymchwilio materion o hil, diwylliant ac amrywiaeth yn holl feysydd y cwricwlwm. Mae darparwyr dysgu sy'n cael sgôr uchel ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn:

- Targeddu cyrsiau'n fanwl at grwpiau penodol neu grwpiau o fewn grwpiau - er enghraifft mae hyn yn neilltuo o fanteisiol wrth geisio denu menywod o (rai) cymunedau Asiaidd.
- Defnyddio'r wybodaeth a geir gan fyfyrwyr pan fyddant yn cofrestru (er enghraifft ar gefndir ethnig neu grefydd) wrth gynllunio rhaglenni astudiaeth a chynlluniau gwaith er mwyn sicrhau fod y cwricwlwm yn wirioneddol berthnasol.
- Integreiddio cefnogaeth sgiliau sylfaenol ac iaith i'r cwricwlwm a darparu hyn, yn ogystal â chyfieithwyr, ar gyfer amrywiaeth o bynciau; sylweddoli fod dilyniant yn bwysig yn y pen draw - hyd yn oed os nad yw'n ymddangos felly bob amser eto - i lawer o ddysgwyr du a lleiafrif ethnig, a theilwra dulliau addysgu a dysgu i gyflawni'r nodau hynny, ynghyd ag ail-lunio'r cwricwlwm i ganiatáu cyflawniad a dilyniant 'camau bach'.
- Ystyried effaith rymus modelau rôl, yn neilltuo ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd eu camau petrus cyntaf yn ôl i addysg, a chymryd camau i sicrhau fod staff a gwirfoddolwyr yn adlewyrchu proffil cymdeithasol yr ardal leol.
- Cydnabod pwysigrwydd dylanwad cyfoedion, a datblygu eu dysgwyr a 'graddedigion' fel hyrwyddwyr dysgu a'r ddarpariaeth a gynigiant.
- Hyrwyddo'r neges allweddol fod cydraddoldeb hiliol o fudd i bawb.

# 8. Arfer Da

## 1. Coleg Menai - ESOL yng Ngogledd Cymru

Mae'r astudiaeth achos yn dangos sut mae coleg mewn ardal cymharol wledig wedi datblygu dewis eang o ddarpariaeth ESOL sy'n ymateb i anghenion penodol a chyd-destun rhai a fu'n byw yn yr ardal ers amser maith a hefyd newydd-ddyfodiaid.

Mae Coleg Menai yn gwasanaethu Gwynedd ac Ynys Môn a dechreuodd gynnal darpariaeth ESOL 10 mlynedd yn ôl. Mae ganddo bellach 400 o ddysgwyr ESOL sydd heb y Saesneg na'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Nid yw'r dosbarthiadau'n fawr ac maent yn anelu i ateb anghenion unigol o fewn grŵp ac i roi dysgu mewn cyd-destun. Maent yn cyd-fynd â Nod Ansawdd Sgiliau Sylfaenol.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyrsiau rhan-amser wedi'u graddio a lefel gymysg ym Mangor, Caernarfon, Caergybi a Llangefni. Caiff rhaglenni hefyd eu cyflwyno mewn gosodiadau gwaith megis gwestai, ffatrioedd neu gartrefi gofal. Mae'r coleg yn ceisio bod mor hyblyg ag sydd modd yn nhermau amserlenni a phresenoldeb er mwyn ffitio mewn gyda phatrymau bywyd a dysgu pobl. Er enghraifft, gall presenoldeb pobl a gyrhaeddodd yn ddiweddar fod yn fwy anhrefnus oherwydd galwadau eraill ar eu hamser a'u sylw.

Sefydlodd y coleg raglen ESOL llawn-amser yn 2000 ac mae bellach yn cynnig pedwar cwrs ESOL llawn-amser ym Mangor gyda 60 dysgwr ar hyn o bryd. Mae gan rai o'r dysgwyr gymwysterau o'u gwlad eu hunain ac mae dysgu'n llawn-amser yn eu galluogi i symud ymlaen yn gyflym i gam nesaf eu bywydau. Gall rhai eraill fod yn 16-17 oed sydd wedi cael trafferthion mewn cyrsiau eraill ac sydd eisiau canolbwyntio ar y sgiliau iaith i lwyddo. Mae'r pedwar cwrs yn galluogi pobl i symud ymlaen yn gymharol gyflym i addysg arall, hyfforddiant neu gyflogaeth ac maent ar wahanol lefelau, gyda'r uchaf yn darparu sgiliau iaith ar gyfer addysg uwch.

Mae amrywiaeth o weithgaredd ar gael o fewn y rhaglen llawn-amser yn cynnwys technoleg gwybodaeth a mathemateg. Bydd rhai dysgwyr yn dod i gyswllt â mathemateg am y tro cyntaf, tra bod eraill angen yr iaith ar gyfer mathemateg. Mae cyrsiau llawn-amser ar gael i gynnwys mwy o amser ar gyfeiriadu'n cyfeirio at ddiwylliant ac addysg yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Oherwydd bod y coleg mewn ardal Gymraeg, caiff Cymraeg sylfaenol a diwylliant Cymru eu haddysgu o fewn dosbarthiadau ESOL ac yn wir mae'r adran yn cynnal cyrsiau mewn Cymraeg sylfaenol ar gyfer ei diwtoriaid ESOL. Mae pennaeth yr adran wedi'i rhyddhau'n rhan-amser ar hyn o bryd i reoli Prosiect Cefnogaeth Genedlaethol ESOL ac mae hi a'i chydweithwyr yn cynhyrchu llyfr gweithgaredd bychan ar Gymraeg sylfaenol ar gyfer dysgwyr ESOL.

Cynhwysir dinasyddiaeth yn yr holl raglenni rhan-amser a llawn-amser, yn unol â chynllun dinasyddiaeth y Swyddfa Gartref a gwnaeth y coleg gais llwyddiannus i fod yn ganolfan prawf 'Bywyd yn y Deyrnas Unedig' ar gyfer gogledd a chanolbarth Cymru. Bu dau aelod o staff yn hyfforddwr cenedlaethol ar gyfer deunyddiau dinasyddiaeth NIACE.

Mae pontio i gyrsiau eraill a'r gymuned yn flaenoriaeth. Mae'r adran sy'n cynnal rhaglenni ESOL yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill y coleg. Er enghraifft, mae'n well gan lawer o ddysgwyr ESOL ddysgu technoleg gwybodaeth o fewn yr uned ESOL yn hytrach nag mewn darpariaeth fwy cymysg. Gall Swyddog Rhyngwladol y coleg roi cyngor ychwanegol a chefnogaeth lles - e.e. ar gwestiynau am fisas neu fewnfudo. Caiff dysgwyr ESOL

eu hannog i gwrdd â dysgwyr eraill i ffeirio straeon eu bywyd, trefnir profiad gwaith, daw'r heddlu neu asiantaethau draw i siarad gyda dysgwyr yn y rhaglenni, cynhelir prosiectau ar y cyd gyda sefydliadau eraill i roi cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr. Mae cysylltiadau gydag artistiaid cynllun preswyl y Rhwydwaith Amgylcheddol Du wedi galluogi dysgwyr ESOL i gynhyrchu celfweithiau - cyd-destun newydd ar gyfer datblygu iaith - a'u harddangos. Mae'r coleg wedi gweithio'n agos gyda Cynnwys, prosiect yn y gogledd sy'n galluogi pobl o grwpiau lleiafrifol i gael mynediad i amrediad eang o wybodaeth a chynghor.

Mae dwy enghraifft arall yn dangos sut y datblygodd amrediad a llwyddiant y rhaglenni ESOL o waith agos a hir-sefydlog a chysylltiadau personol gyda chymunedau yn yr ardal. Mae pennaeth yr adran ESOL yn aelod o Grŵp Llywio Sgiliau Sylfaenol yr Ymddiriedolaeth ysbyty lleol ac mae'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau y caiff anghenion ESOL staff megis glanhawyr ac arlwywyr eu diwallu. Bu ganddi gysylltiadau gyda chymunedau Tsieineaidd am flynyddoedd lawer, gan wybod mai ychydig iawn o sgiliau Saesneg sydd gan lawer o drigolion. Y llynedd daeth yn glir fod adroddiadau am faterion dinasyddiaeth a'r Saesneg, ynghyd â gwybodaeth gamarweiniol, wedi arwain at i lawer o bobl ofni cael eu halltudio. Galwodd y coleg gyfarfod gyda'r gymuned Tsieineaidd i esbonio'r llwybrau i ddinasyddiaeth a goblygiadau dysgu iaith, ac yna drefnu cwrs ESOL rhad ac am ddim ar eu cyfer. Cymerodd 15 o bobl ran - gyda 100% yn bresennol - yn y cwrs cyntaf. Erbyn mis Awst 2007, roedd 60 o bobl wedi gwneud cais am y cwrs nesaf, gyda rhai ohonynt yn gorfod teithio o bell i fynychu. Mae'r dysgwyr a'r darpar ddysgwyr hyn wedi byw yn y Deyrnas Unedig ers cryn amser a hwn yw'r tro cyntaf iddynt gymryd rhan mewn addysg oedolion.

Mae sefydliadau eraill wedi dangos diddordeb yn y nifer fawr o ddysgwyr ESOL. Cynhaliodd Cynghor Sir Gwynedd ddyddiau ymgynghori ar gyfer y dysgwyr am eu teimladau am fyw yng Ngwynedd a bwydo hwn wrth ddatblygu strategaeth. I sicrhau fod cysylltiadau gyda sefydliadau eraill yn gwirioneddol ateb anghenion iaith dysgwyr, trafodir gwahanol brosiectau neu ddigwyddiadau posibl gyda chynrychiolwyr myfyrwyr.

Pam y bu'r coleg mor llwyddiannus wrth ddatblygu ei weithgaredd ESOL? Soniwyd am nifer o ffactorau eisoes: blaenoriaethu anghenion unigolion ("cyrsiau ar gyfer dysgwyr, nid dysgwyr ar gyfer cyrsiau"); y ffocws ar yr iaith Gymraeg, diwylliant a chyd-destun; cysylltiadau gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol; datblygu amrediad o ddarpariaeth lawn-amser a rhan-amser; cyfeirio dysgwyr at ystod eang o wybodaeth, cynghor a chyfleoedd; darparu ESOL yn y gweithle; ac ymgysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf un mewn ESOL ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig, Mae eraill yr un mor bwysig.

Mae'r coleg wedi pwysleisio hyfforddi athrawon a chefnogwyr, defnyddio cefnogwyr gwirfoddol sy'n gweithredu fel mentoriaid ac yn dod yn gyfeillion â myfyrwyr ESOL. Maent yn aml yn gyn ddysgwyr ESOL eu hunain.

Mae'n ymroddedig i ddiwallu anghenion ESOL amrediad eang o grwpiau. Bu'r cynllun dinasyddiaeth yn bwysig wrth ddatblygu gwasanaethau ESOL ledled Cymru ond mae gwaith y coleg gyda'r gymuned Tsieineaidd yn dangos pwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar anghenion cymunedau ac unigolion sydd wedi ymgartrefu yn ogystal â rhai newydd-ddyfodiaid.

Fel bob amser, mae'r llwyddiant wedi tyfu allan o ymroddiad: ymroddiad personol a chyffro am amrywiaeth gan staff ESOL a staff eraill a chefnogaeth uwch reolwyr i ehangu i ddiwallu anghenion ESOL. Mae'r systemau cyllido presennol wedi cyfrannu at restr aros ar gyfer ESOL mewn llawer o ardaloedd. Bu Coleg Menai yn barod i roi traws-gymhorthdal i incwm ac wedi galluogi'r adran ESOL i ehangu'n gyflym i ddiwallu anghenion rhai a fu'n byw yn yr ardal ers amser maith yn ogystal â newydd-ddyfodiaid.

## 2. Gwasanaethau Dysgu TGWU a TUC Cymru - 'Mynediad Ar Draws Cymru'

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos gallu undebau llafur a'u partneriaid, yn cynnwys darparwyr dysgu, i ddatblygu dulliau sy'n cyrraedd gweithwyr mudol a'u cefnogi i ddysgu, mewn materion gweithle ac wrth ddechrau integreiddio i'w cymunedau lleol newydd. Ar yr un pryd, medrant annog y cyflogwyr i gydnabod gwerth eu gweithwyr yn datblygu sgiliau iaith a gweithio gyda'r llywodraeth a chyrrff eraill i godi materion yn ymwneud ag amodau gweithwyr mudol. Fel cyrff cenedlaethol, mae undebau llafur mewn sefyllfa dda i helpu i ymestyn arfer da i ardaloedd daearyddol eraill.

Bu'r TGWU (Undeb Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol) a Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru yn cydweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer ESOL ar gyfer gweithwyr o Ewrop a symudodd i Gymru i weithio, gyda chyllid o Gronfa Dysgu Undebau Cymru (WULF). Nod y prosiect 'Mynediad Ar Draws Cymru' yw helpu cyflogwyr i drin anghenion iaith y nifer gynyddol o weithwyr o Ewrop sydd bellach yn rhan o'r gweithlu yng Nghymru ac i roi cefnogaeth a gwybodaeth am ddinasyddiaeth yn ogystal â chysiau iaith yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r gweithwyr hynny.

Mae gweithwyr yn aml yn dod i mewn i'r wlad drwy asiantaeth gyflogi heb wybod dim am rôl undebau llafur yn y wlad hon wrth helpu i ddatrys materion yn gysylltiedig â chyflogaeth. Bu'r TGWU a'r TUC yn ymgyrchu gyda'i gilydd yn erbyn y telerau ac amodau gwahanol sydd gan weithwyr asiantaeth. Dangosodd arolwg gan y TUC (*Working on the Edge* 2006), er bod gweithwyr asiantaeth yn gynyddol debygol o fod yn gwneud yr un gwaith neu waith tebyg iawn i weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol, eu bod yn aml yn derbyn tâl is ac amodau gwaelach. Mae'r TUC hefyd wedi rhoi adroddiad i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar delerau ac amodau asiantaethau, sy'n aml yn wahanol iawn i'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol.

### **Mynediad i Bawb (2004 - 2006)**

Roedd y prosiect WULF cyntaf yn targedu'r ddau brif glwstwr o weithwyr mudol yng Ngogledd Ddwyrain a Gorllewin Cymru lle caiff nifer cynyddol o weithwyr asiantaeth o Bortiwgal a Sbaen, yn ogystal â Gwlad Pwyl a gwledydd eraill dwyrain Ewrop, eu cyflogi yn y diwydiant prosesu bwyd. Roedd y lleoliadau yn cynnwys Caerdybi, Bangor, Fflint a Wrecsam. Adeiladodd ar waith a wnaethpwyd gan Amicus a'r prif bartneriaid oedd y TGWU, Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru, WEA Coleg Harlech a Gyrfa Cymru.

Bu ymgyngoriad manwl gyda dysgwyr cyn trefnu'r cyrsiau. Darparwyd ar gyfer eu shifftiau hir ac anghyson drwy gynnal sesiynau galw heibio a thrwy gyrsiau a gynhelid yn ystod amserau newid shifft ac ar y penwythnos mewn lleoliadau cyfleus yn neu ger eu llety. Roedd canolfannau siopa yn boblogaidd ac anogwyd teuluoedd i gymryd rhan. Mae asiantaethau yn aml yn symud gweithwyr a cheisiodd y prosiect gadw cysylltiad gyda dysgwyr o'r fath drwy eu cyfeirio at ddsbarthiadau yn eu lleoliad newydd a thrwy sefydlu cysylltiadau rhyngwyd.

Bu'r prosiect hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr. Lle'r oedd cydnabyddiaeth o werth ESOL i'r gweithle, datblygwyd cyrsiau i gyd-fynd ag amserau shifft yn defnyddio gweithleoedd a chanolfannau dysgu. Nododd y prosiect gyfradd cadw myfyrwyr llawer uwch pan recriwtiwyd dosbarthiadau yn y ffordd hon.

Yn ogystal ag ESOL, cynigiwyd darpariaeth yn y Gymraeg gyda ffocws ar ddinasyddiaeth. Roedd yn cynnwys cefnogaeth ymarferol: helpodd staff i drefnu apwyntiadau meddygol, cysylltu gyda chanolfannau gwaith a mynd gyda phobl i apwyntiadau. Gweithredodd y swyddog prosiect fel dolen gyda'r TGWU lle'r oedd angen a darparu gwasanaeth cyfieithu i gynorthwyo gyda materion yn ymwneud â chyflogaeth, er enghraifft mewn gwrandawriadau disgyblu. Cyfieithwyd taflenni'n hysbysebu'r ddarpariaeth ESOL i ieithoedd perthnasol. Dros gyfnod, medrodd hyrwyddwyr dysgu - myfyrwyr gyda sgiliau iaith cymharol uchel - ymgyrdd â rhai o'r swyddogaethau cefnogaeth.

I helpu wrth ymateb i'r gwahanol faterion cymdeithasol ac adleoli a godwyd gan ddysgwyr, datblygodd y prosiect gysylltiadau gyda llawer o sefydliadau a gwasanaeth cyfeirio atynt. Trefnwyd ymweliadau i ehangu gwybodaeth leol a gwahoddwyd siaradwyr i ddsbarthiadau. Datblygwyd dealltwriaeth o undebau llafur a chyfraith cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd cyrsiau preswyl yng Ngholeg Harlech i helpu dysgwyr gael ymdeimlad o gymuned ar draws gwahanol grwpiau ethnig a dealltwriaeth o gefndir diwylliannol Gogledd Cymru, yn cynnwys dwyieithrwydd.

### **Mynediad Ar Draws Cymru (2006 - 2008)**

Dechreuodd y prosiect dilynol ym mis Ebrill 2006 gyda'r nod o ymestyn profiad y prosiect cyntaf ar draws Cymru a datblygu arfer da ychwanegol. Mae hyrwyddwyr tiwtor yn lledaenu gwybodaeth am faterion sy'n wynebu gweithwyr mudol i diwtoriaid eraill. Datblygwyd cysylltiadau gyda llyfrgelloedd fel y medrir cyrchu cyngor a darpariaeth ESOL yn yr un lleoliad. Defnyddir Hyrwyddwyr Dysgu o wahanol genhedloedd i hyrwyddo cyfranogiad mewn ESOL i'r bobl hynny sydd â sgiliau iaith gwael ac sy'n aml yr anoddaf eu cyrraedd. Bu hyn yn hollbwysig wrth gyrraedd cynulleidfada ehangach a chroesi ffiniau ieithyddol.



Gall gweithwyr yn aml ganfod eu bod angen cyngor ac arweiniad a heb wybod lle i gael hyd iddynt, felly mae'r prosiect wedi ceisio cysylltu gydag asiantaethau yn cynnig gwasanaeth cyfeirio. Yng Ngogledd Cymru, mae NWREN (Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru) yn darparu gwasanaeth cyngor galw heibio ynghyd â'r dosbarthiadau ESOL. Yn Llanelli, mae canolfan Bwyleg yn darparu cyngor ac mae hefyd undeb credyd lle medrir cyrchu cyngor ariannol a chefnogaeth. Yn y Fflint mae swyddog cydraddoldeb yr heddlu yn cynnal canolfan galw heibio ar gyfer gweithwyr mudol yn yr ardal. Mae'r prosiect "Drws Agored" yn darparu ESOL a chyngor ac arweiniad i weithwyr Pwylaidd yn yr ardal ac mae prosiect yr undeb wedi cefnogi'r cynllun drwy ddatblygu hyrwyddwyr addysgu a dysgu a hwyluso fforwm lle medrir rhannu arfer da. Bydd y prosiect yn parhau i ymestyn wrth i'r undeb ddynodi grwpiau o weithwyr sydd angen darpariaeth o'r fath. Cynhelir y datblygiad nesaf yn ardal Cas-gwent, gyda'r TGWU yn gweithio gyda nifer o gyflogwyr yn yr ardal.

Mae shifftiau hir yn aml yn rhwystr wrth integreiddio gyda chymunedau lleol. Nid yw gweithio shifftiau deuddeg awr, a chael eu cludo i'r gwaith ac yn ôl gan fws yr asiantaeth, yn gadael fawr o amser na chyfle ar gyfer cymdeithasu gyda'r gymuned leol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo mwy o integreiddio drwy drefnu ymweliadau addysgol sy'n cynnwys y gymuned leol yng Nghymru. Mae hyn yn helpu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o ddiwylliant lleol, yn cynnwys yr iaith Gymraeg.

Cafodd mwy o gyfranogiad o fewn strwythurau gweithle ei annog drwy hyfforddi unigolion o wahanol wledydd i ddod yn swyddogion undeb ac mae bellach stiwardiaid undeb a chynrychiolwyr dysgu undebau o Ewrop o fewn rhai gweithleoedd yng Nghymru.

Recriwtiodd y prosiect cyntaf gyfanswm o 243 o ddysgwyr i gofrestru ar gyrsiau ar draws Gogledd Cymru a chynhaliwyd 83 cwrs newydd ledled Cymru ers dechrau'r ail brosiect.

### **3. Cymdeithas Tai Wales & West - Gweithio mewn partneriaeth i chwalu rhwystrau cyflogaeth**

Ar 1 a 2 Chwefror 2007, cyflwynwyd gweithdy cynhyrchol iawn yng Nghaerdydd dan y teitl "Technegau Cais a Chyweliad Llwyddiannus mewn Tai". Trefnwyd y digwyddiad hwn gan Weithgor Cyflogaeth Tai sy'n cynnwys Cymdeithas Tai Wales & West, Grŵp Gwalia Cyf, Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd a Grŵp Hendre, gyda help ar y dydd gan Gymdeithas Tai Cymru Unedig a Linc Cymru. Dangosodd y cwmni sut y gall gweithio partneriaeth fod yn fanteisiol nid yn unig i'r sefydliadau ond hefyd i gymunedau du a lleiafrif ethnig yn gyffredinol. Hwyluswyd y gweithdy cyntaf gan Marilyn Bryan, ymgynghorydd hyfforddiant sy'n arbenigo mewn amrywiaeth.

Cafodd y gweithdy ei greu allan o gydnabyddiaeth aelodau o'r gweithgor o ddiffyg nifer ceisiadau llwyddiannus gan bobl ddu a lleiafrif ethnig. Prif nod y gweithdy oedd cynorthwyo ymgeiswyr du a lleiafrif ethnig i bontio'r bwch rhwng gwneud cais am swydd, cael eu gwahodd i fynychu digwyddiad, ac yn y pen draw sicrhau swydd o fewn y sector.

Cafodd y digwyddiad ei hysbysebu'n eang a'i gylchredeg o fewn grwpiau cymunedau du a lleiafrif ethnig, drwy e-bost, posteri ac yn llafar. Cynigiwyd y gweithdy yn rhad ac am ddim, gan sicrhau fod y gweithdy mor hygyrch ag sydd modd.

Roedd y gweithdy deuddydd yn rhyngweithiol iawn ac yn rhoi cymorth ymarferol wrth lenwi ffurflenni cais a datblygu sgiliau cyfnewid. Gwahoddwyd y rhai oedd yn bresennol i drafod themâu cyffredin o fewn hysbysebion, disgrifiadau swydd a manylebion person. Llenwodd y rhai'n bresennol ffug ffurflenni cais ac ymarfer technegau cyfnewid, oll gyda chefnogaeth ac adborth tiwtor er mwyn cadarnhau'r wybodaeth a roddwyd. Dangoswyd fideo o gyfnewid model hefyd, yn ogystal â 'senario achos gwaethaf' yn dangos gallu actio amheus rhai o'r staff!

Cododd y gweithdy ymwybyddiaeth o'r rhwystrau tybiedig a real sy'n wynebu ymgeiswyr du a lleiafrif ethnig a sut y gall cyflogwyr eu goresgyn. Bu'r gweithdy yn fanteisiol i'r rhai a fynychodd a ddatblygodd amrediad o sgiliau o fod yn fwy hyderus i gyfathrebu'n fwy effeithiol i weithio ar eu cymhelliant eu hun; oll yn sgiliau hollbwysig yn y gweithle. Roedd y gweithdy hefyd yn fanteisiol i'r sefydliadau yn nhermau dynodi a mynd i'r afael â rhwystrau recriwtio real a tybiedig sy'n wynebu ymgeiswyr du a lleiafrif ethnig, er enghraifft gall y geiriad a ddefnyddir mewn hysbysebion, disgrifiadau swydd a ffurflenni cais achosi gofid a dryswch diangen.



Mae cyflogwyr yn cydnabod fod terminoleg wedi gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn ymgeiswyr du a lleiafrif ethnig, bydd y gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad felly'n sicrhau yr eir i'r afael â gwahaniaethu o'r fath.

Cysylltwyd â'r rhai a fu'n bresennol i fynegi diddordeb mewn sicrhau lleoliad gwirfoddol. Nod y lleoliad yw hyrwyddo amrywiaeth o fewn sefydliadau ac i ddatblygu'r unigolion ymhellach i gael cipolwg gwerth chweil wedyn ar yrfa o fewn y sector tai.

Gan fod y digwyddiad hwn mor llwyddiannus a heb ddigon o le i bawb, cyflwynwyd gweithdy arall gan aelodau staff gan y Gweithgor Cyflogaeth Tai. Mae cynlluniau i gyflwyno sesiynau hyfforddi pellach drwy gydol 2007.

#### **Rhaglen Profiad Gwaith Gweithredu Cadarnhaol**

Yn ogystal â'r enghraifft uchod, mae Cymdeithas Tai Wales & West hefyd yn cynnig lleoliadau tymor-byr i oedolion o gefndir du a lleiafrif ethnig ac yn gweithio ar hyn o bryd mewn partneriaeth gyda 'Women Connect First' a Chyngor Ffoaduriaid Cymru. Hyd yma maent wedi darparu dau leoliad swyddfa ar gyfer gwirfoddolwyr o Women Connect First a lleoliad cymunedol i ffoadur drwy Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Y nod yw darparu lleoliadau a fydd o fudd i unigolion a datblygu eu sgiliau a'u potensial.

## **4. SOVA Cymru - PLETHU: Prosiect Mentora Ffoaduriaid yng Nghymru**

*Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos y rôl hollbwysig y gall mentoriaid gwirfoddol wedi'u cefnogi a'u hyfforddi ei chwarae wrth ddarparu ystod eang o gefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gall y ddealltwriaeth o'r anghenion a ddatblygwyd gan y mentoriaid hynny a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd fod yn ganolog wrth sefydlu gwasanaethau a chefnogaeth newydd pwysig. Tanlinellir rôl allweddol gweithgaredd partneriaeth hefyd.*

Mae SOVA yn sefydliad gwirfoddol sy'n gweithio yn Lloegr a Chymru i gryfhau cymunedau drwy gynnwys gwirfoddolwyr lleol wrth hyrwyddo cynhwysiant ariannol a gostwng troseddau. Dros gyfnod y prosiect tair blynedd o'r enw Plethu a gyda chyllid o Gronfa Goffa Diana, Tywysoges Cymru, mae SOVA yng Nghymru wedi recriwtio a hyfforddi dros 50 o wirfoddolwyr fel mentoriaid cyfoedion. Roedd mwy na thraean yn ffoaduriaid neu geiswyr lloches eu hunain. Mae mentoriaid yn siarad amrywiaeth o ieithoedd megis Somalieg, Arabeg, Amharic, Ffrangeg, Farsi, Swahili ac Urdu, ac yn darparu cefnogaeth i bobl o'u cymunedau eu hunain a chymunedau eraill.

Gall darpar wirfoddolwyr gael eu hatgyfeirio i'r prosiect gan asiantaethau eraill neu sydd â ffrindiau sy'n wirfoddolwyr. Ar ôl yr wybodaeth ddechreuol a chyfweliad, maent yn cynnal hyfforddiant craidd a modiwl arbenigol ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches a achredwyd gan y Rhwydwaith Coleg Agored (OCN). Datblygwyd hyfforddiant ychwanegol ar gyfer gwirfoddolwyr yn gweithio gyda theuluoedd ffoaduriaid. Yn dilyn hyfforddiant, mae gwirfoddolwyr yn mynychu ail gyfweliad ac anwythiad a gwneir cais am dystlythyrau, cardiaid adnabod a gwiriadau troseddol. Caiff gwirfoddolwyr wedyn eu paru gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches, llawer ohonynt yn profi unigrwydd cymdeithasol neu heb fod yn gwybod sut i gael mynediad i wasanaethau. Mae'r mentoriaid cyfoedion gwirfoddol yn derbyn cefnogaeth, goruchwyliaeth a hyfforddiant parhaus. Gall unigolion gysylltu â'r prosiect i ofyn am gefnogaeth ar ôl gweld cyhoeddusrwydd amdano a/neu ddod i 'gymhorthfa' mentora mewn dosbarthiadau ESOL. Yn ychwanegol, mae partneriaethau atgyfeirio, yn cynnwys rhwydwaith mawr o bartneriaid gwirfoddol a statudol, yn helpu i sicrhau y gall y prosiect gyrraedd pobl ynysig a bregus a'u cynorthwyo i gael mynediad i wasanaethau iechyd, addysg/hyfforddiant neu gefnogaeth neu ddarpariaeth tai, yn ogystal â rhoi gwybodaeth iddynt am ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol. Gall rhai gwirfoddolwyr ddysgu ESOL neu ddarparu cyfieithu lle nad oes dim ar gael i helpu pobl i gyrchu gwasanaethau.

Mae natur a chyfnod y gefnogaeth yn amrywio. Mae dynion yn aml yn cyrchu gwasanaethau drwy gymorthfeydd mentora'r prosiect ac yn gofyn am help gyda phroblemau ymarferol uniongyrchol tra gall y prosiect roi cefnogaeth deuluol tymor-hwy i fenywod ynysig, llawer ohonynt yn rhieni unigol diweddar ac yn byw mewn tlodi. Mae'r rhwydweithio a'r ddealltwriaeth o'r anghenion newydd a gafodd SOVA a'i mentoriaid drwy weithio mor agos gyda ffoaduriaid a cheiswyr nodedd, a'r gwasanaethau a ddatblygwyd drwy'r prosiect mentora, wedi arwain at feysydd newydd o waith. Mae'r prosiect YANA ("you are not alone") wedi darparu mentoriaid cyfoedion/cyfeillion a chanolfan galw-heibio ar gyfer ffoaduriaid ifanc ar ben eu hunain yng Nghaerdydd, yn ogystal â darparu neu drefnu hyfforddiant ESOL, gweithgareddau ac ymweliadau. Roedd rhai o'r mentoriaid yn ganolog wrth sefydlu CRAC ('Cymru Refugee and Asylum Seeker Academic Council'), a sefydlwyd

i gefnogi cydnabyddiaeth o gymwysterau a sgiliau newydd-ddyfodiaid ac felly gyfrannu at eu hintegreiddiad economaidd a chymdeithasol ehangach a'u gallu i gyfrannu at eu gwlad newydd. Mae SOVA, mewn partneriaeth gyda Thim Lloches Cyngor Sir Caerdydd a Bwrdd Bond Caerdydd, wedi datblygu 'Prosiect Canfod Cartref i Ffoaduriaid' i sicrhau llety ar rent preifat a chefnogaeth tai i ffoaduriaid.

Mae'r prosiect yn nodi fod llawer o'r canlyniadau ar gyfer y grŵp cleient yn 'feddal' ac yn anodd eu mesur. Medrant amrywio o'r gwelliant yn iechyd seicolegol plant rhieni gofidus iawn, i gefnogi twf yn yr hyder sydd ei angen i alluogi pobl i gael mynediad i hyfforddiant neu ddarpariaeth arall i leoli gweithwyr proffesiynol neu asiantaethau a all roi cefnogaeth arbenigol allweddol. Mae'n adolygu sut y medrir dynodi'r mathau hyn o ganlyniadau a'u mesur yn fwy effeithiol.

## **5. Adran Addysg Barhaus i Oedolion (DACE) Prifysgol Abertawe - mynediad i Addysg Uwch ar gyfer dysgwyr o gymunedau lleiafrifol**

Mae llawer o gynlluniau defnyddiol i gefnogi dysgwyr o gymunedau lleiafrifol i gael mynediad llwyddiannus i ddysgu yn bosibl oherwydd gwahanol ffynonellau o gyllid allanol. Er bod gan hyn lawer o fanteision, yn neilltuol wrth helpu i ariannu costau datblygu a gaiff yn aml eu hanwybyddu mewn systemau cyllid prif ffrwd, mae gan brosiectau hefyd y risg o fod yn ymylol. Mae'r astudiaeth achos yma'n olrhain elfennau o daith hir DACE i ehangu mynediad i ddysgwyr o gymunedau lleiafrifol ynghyd ag eraill sydd dan anfantais neu ar yr ymylon.

Fel llawer o brifysgolion, datblygodd DACE o gefndir addysg oedolion rhyddfrydol traddodiadol ond cafodd ei yrru'n gynyddol gan gennad i hyrwyddo cydraddoldeb mewn mynediad i addysg uwch. Ers y 1990au mae wedi datblygu amrediad o waith ehangu mynediad ac amrywiaeth gadarnhaol a wnaed yn bosibl yn aml drwy gyllid Ewropeaidd. Er bod nifer sylweddol o fyfyrwr du a lleiafrif ethnig yn yr holl brifysgol, mae DACE wedi canolbwyntio ar ddysgwyr posibl o gefndiroedd difreintiedig, yn cynnwys rhai o gymunedau lleiafrif ethnig.

Roedd Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn gynllun cynnar a phwysig yn cynnwys prifysgolion a mentrau cymunedol yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a ddatblygwyd ers dechrau'r 1990au. Ei nod fu ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch drwy ddod â dysgu yn nes at gartrefi pobl a'i wneud yn fwy perthnasol i'w pryderon. Roedd yn ymateb i newidiadau economaidd a chymdeithasol sylweddol ac ailstrwythuro economi De Cymru yn y 1980au ac wedyn.

Mae Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn targedu cymunedau penodol, gan ddarparu cyfleoedd dysgu blaengar seiliedig yn y cymoedd, o anffurfiol i astudio lefel gradd, yn cynnig opsiynau hygyrch i ennill cymwysterau lefel uwch a gwella lefelau sgiliau a chyflogadwyedd. Cynhelir gradd ran-amser mewn wyth lleoliad cymunedol, yr unig brifysgol yn y byd i gynnig gradd lawn mewn lleoliadau cymunedol. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu a hyrwyddo arfer da ym mhob agwedd o ddysgu cymunedol i oedolion. (Gwybodaeth bellach ar gael yn [www.cuv.org.uk](http://www.cuv.org.uk)).

Mae myfyrwr o gymunedau lleiafrif ethnig yn manteisio o'r ddarpariaeth hon ond mae DACE hefyd wedi datblygu nifer o brosiectau yn benodol ar gyfer pobl o gefndiroedd lleiafrifol. Mae'r prosiect 'Llwybrau' a gynhaliwyd angen ymchwil mewn cymunedau lleiafrif ethnig. Roedd y prosiect 'Clytwaith' yn canolbwyntio ar helpu ffoaduriaid a oedd yn weithwyr proffesiynol yn eu gwledydd cartref i gynyddu eu sgiliau a dysgu sgiliau newydd. Daeth dau o ddysgwyr Clytwaith yn aelodau o staff DACE ac mae un yn arwain ar sail wirfoddol ar y cynllun 'ffeil sain' (gweler islaw). Ariannodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach y De Orllewin i gynnig gweithgaredd Ehangu Mynediad Cymru i gynyddu nifer y ceisiadau ar gyfer Addysg Uwch gan grwpiau lleiafrif ethnig a dangynrychiolir drwy weithdai wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc a theluoedd. Mae gwaith yn datblygu gyda'r Cyngor Ffoaduriaid, sydd newydd gwblhau adroddiad ymchwil ar 'Sgiliau Ffoaduriaid' ac mae'r brifysgol yn awr yn edrych ar ddatblygu hyfforddiant pwrpasol.

Mae'r adran yn rhedeg sawl prosiect y cred eu bod yn flaengar ac yn enghreifftiau o arfer da, gyda ffocws penodol ar ddysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol.

Mae un yn gwrs Sylfaen mewn Technoleg ar gyfer ceiswyr lloches a ariennir gan y Swyddfa Gartref. Cyrchwyd y cyllid gan Displaced People in Action a chynhaliodd DACE ddau gwrs ar yr un pryd fel y medrai ceiswyr lloches gael eu hintegreiddio gyda myfyrwr eraill a ariannwyd drwy'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Mae llawer

iawn o gefnogaeth ar gael i bob myfyriwr. Mae'r swyddogion datblygu ar y prosiect yn fentoriaid, yn cynnig cyngor ac arweiniad, byddant hefyd yn gweithredu fel adfocataid ac yn cyfeirio myfyrwyr at y gwasanaethau priodol megis cwnsela. Mae'r swyddog datblygu hefyd yn sicrhau fod myfyrwyr yn gwybod am gyfleoedd gwirfoddoli ac yn eu cefnogi i ganfod lleoliadau. Fel myfyrwyr prifysgol, medrant gael mynediad i holl wasanaethau'r brifysgol.

Roedd peth pryder i ddechrau y medrai integreiddio ceiswyr lloches gyda phobl leol eraill achosi drwgdeimlad, yn rhannol oherwydd bod cyllid y Swyddfa Gartref yn caniatáu'r cwrs i dalu am bethau ar gyfer y ceiswyr lloches nad oedd ar gael i ddysgwyr eraill. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae cyfeillgarwch wedi datblygu a bu'r cwrs yn llwyddiannus iawn. Mae deg ceisiwr lloches wedi cwblhau eu Tystysgrifau Sylfaen a gyflwynir mewn seremoni wobrwyo yn ystod dathliadau Wythnos Ffoaduriaid yn Abertawe, gan ddechrau ar EDCL a lleoliadau gwaith gwirfoddol ym mis Medi 2007.

Mae'r adran hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect rhyngwladol Grundtvig 1 gydag un ar ddeg o bartneriaid Ewropeaidd. Cynhaliodd 'Rhianta mewn Dinas Ewropeaidd Amlddiwylliannol' ei Symposiwm Ewropeaidd i Rien i yn yr Eidal.

Mae arian Amcan 1 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd wedi ariannu enghraifft arall. Fel rhan o gynnig mwy gan 'bartneriaeth darparwyr dysgu Abertawe', bu gwirfoddolwyr a staff DACE yn datblygu gwefan fel porth i wybodaeth am Abertawe a gwasanaethau lleol, dysgu ESOL ar-lein a chlywed am brofiadau newydd-ddyfodiaid eraill i'r ddinas. Mae'n cynnwys datblygu a darparu ffeiliau sain ar gyfer dysgwyr ESOL. Mae grŵp bychan o ddysgwyr ESOL yn gwella eu gallu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a sgiliau recordio digidol/clywedol. Byddant yn recordio ffeiliau sain am sefyllfaoedd bob dydd sy'n wynebu dysgwyr ESOL yn Abertawe, a'r iaith briodol ar gyfer delio gyda'r sefyllfaoedd hyn. Caiff y ffeiliau sain hyn eu cyrchu drwy wefan gyfeiriadu. Bydd pob dysgwr ESOL yn Abertawe (pa bynnag ddarparwydd dysgu y maent wedi eu cofrestru â hwy) yn cael peiriant chwarae mp3 fel y medrant lawrlwytho'r ffeiliau ac ymarfer arnynt rhwng gwersi. Er mwyn gwneud ffeiliau iaith ansawdd uchel, mae'r myfyrwyr sy'n eu creu yn gweithio mewn grŵp integredig gyda myfyrwyr brodorol o Abertawe gan y canfu'r brifysgol fod iaith yn datblygu'n well mewn gosodiad integredig.

Mae'r rhaglen Sylfaen mewn Technoleg yn gysylltiedig â phrosiect 'Dilyniant Cymunedol' a ariennir gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd sydd bellach yn ei drydedd flwyddyn. Mae'n gynllun dysgu cymunedol, ymestyn mynediad, mewn pedair sir, sy'n cynnig cyrsiau yn ddi-dâl o gyrsiau blasu i gynyddu hyder hyd at Dystysgrifau Sylfaen mewn gwahanol bynciau, i gynorthwyo pobl a fyddai yn y dyfodol yn dymuno mynd i Addysg Uwch.

Mae tua 15% o'r oddeutu 700 o ddysgwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect Dilyniant Cymunedol yn dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig, yn gyfuniad o newydd-ddyfodiaid ac aelodau grwpiau mwy hir-sefydlog. Daw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr du a lleiafrif ethnig o ardaloedd trefol. Mae rhai'n cael anawsterau gyda'r Saesneg felly mae dosbarthiadau iaith ychwanegol ar gael.

Mae DACE yn cydnabod fod ei allu i helpu pobl leol i gael mynediad i addysg uwch yn dibynnu ar ei bartneriaethau gyda sefydliadau a mentrau cymunedol. Mae llawer o'r llwyddiant wrth ehangu mynediad oherwydd yr aethpwyd â dysgu i leoliadau lleol y mae pobl yn ymddiried ynddynt. Eto mae'n dod yn glir fod yn well gan lawer o ddysgwyr du a lleiafrif ethnig ddysgu ar gampws prifysgol yn hytrach nag mewn canolfannau lleol, felly bydd y prosiect Dilyniant Cymunedol yn parhau i gynnwys cyrsiau campws ac mae staff yn rhagweld y bydd mwyafrif helaeth y dysgwyr hynny yn dod o gefndiroedd lleiafrifol.

Gyda rhai eithriadau, mae DACE yn awr yn tueddu i symud ymaith o gyrsiau sy'n targedu dysgwyr du a lleiafrif ethnig yn benodol er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn medru cael mynediad a chael eu cynnwys mewn darpariaeth ar gyfer cymunedau lleol difreintiedig. Mae staff yn cydnabod fod ffordd bell i fynd i roi mynediad llawn i rai grwpiau o drigolion parhaol o leiafrifoedd ethnig. Yn rhannol mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith sy'n parhau i gael ei wneud i adeiladu cysylltiadau a gadael i bobl wybod beth sydd ar gael neu a fedrai fod yn bosibl. Mae gan beth i'w wneud gyda phatrymau gwaith y trigolion eu hunain neu gyfyngiadau eraill y mae DACE wedi ceisio ymateb iddynt - e.e. drwy gynnal cyrsiau blasu ar ddyddiau Sul.

Ni fu taith yr adran yn syml. Ar hyn o bryd, mae cyfyngiadau cyllido yn llesteirio ar y gallu i ymateb i anghenion cymunedau lleiafrifol oherwydd y diffyg cyfatebiaeth rhwng yr angen enfawr am hyfforddiant iaith Saesneg a gallu darparwyr i ddarparu ESOL. Ni fedrodd nifer o bartneriaid ymateb i anghenion ESOL ac mae DACE wedi ceisio gweithredu ar hyn.

Darbwyllwyd DACE yn ei gyfanrwydd fod y rôl datblygu ac allgymorth yn amod angenrheidiol ar gyfer gwirioneddol ehangu mynediad i bobl o gefndiroedd ymylol a difreintiedig, yn cynnwys rhai o leiafrifoedd ethnig. Eto mae hyn yn gostus iawn. Gall cyllid prosiect roi hwb datblygu hael ac eang ac mae wedi galluogi esblygiad yr adran a'i gwaith ehangu mynediad. Fodd bynnag, mae ochr gyfarwydd arall i'r geiniog. Er bod gwaith a gwersi llawer o'r prosiectau wedi eu rhoi yn y brif ffrwd, mae eraill yn ymddangos i wneud yn dda ac wedyn bron yn 'diflannu', a gall hyn weithiau arwain at batrwm stop/cychwyn.

## 6. Coleg Glan Hafren (Caerdydd) - Prosiect i Annog Recriwtio Grwpiau Du a Lleiafrif Ethnig i Beirianeg Fodurool

Mae gan Goleg Glan Hafren 13,000 o fyfyrwyr rhwng ei holl gyrsiau. Daw 19% o'r myfyrwyr hynny o grwpiau du a lleiafrif ethnig, sy'n gyfran iach. Fodd bynnag, daw llai na 3% o'r myfyrwyr ar gyrsiau modurool poblogaidd y coleg o gefndir du neu leiafrif ethnig, o gymharu â 19% o fyfyrwyr ar y cyrsiau busnes a phroffesiynol er enghraifft. Mae'r mater yn dod yn gynyddol broblemus pan ystyriwn fod cyflogwyr yn y diwydiant modurool yn ei chael yn anodd llenwi swyddi gwag a chanfod gweithwyr gyda'r sgiliau sydd eu hangen i lenwi'r swyddi sydd ar gael. Dengys Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 fod 9% o sefydliadau'n ymwneud â gwaith metel sgilgar yn ei chael yn anodd llenwi swyddi; dim ond 3% oedd y canran ar gyfer Busnes a 5% ar gyfer Gweinyddiaeth<sup>9</sup>

Adran Peirianeg Fodurool Coleg Glan Hafren yw'r brif ganolfan yng Nghymru ar gyfer Sefydliad y Diwydiant Moduron a Ford UK. Mae ganddi'r dyfarniadau dilynol gyda llawer i'w gynnig i'r rhai sy'n dewis gyrfa yn y diwydiant modurool:

- Arloesedd mewn Cyflwyno Cwricwlwm
- Canolfan Ansawdd Eithriadol
- Canolfan y Flwyddyn 2004 IMI UK – Enillydd
- Canolfan y Flwyddyn 2005/6/7 IMI UK – Rownd Derfynol

Roedd angen i'r coleg fynd allan i'r gymuned i oresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd y cam cyntaf hwnnw i'r coleg a dangos sut y medrai'r llwybr gyrfa hwn gynnig llawer o gyfleoedd cyffrous.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater, cynlluniwyd rhaglen o sesiynau gwybodaeth a blasu i fynd â hwy i'r gymuned i geisio ysgogi diddordeb drwy bwysleisio'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y diwydiant modurool. Teimlid ei bod yn bwysig mynd i'r gymuned yn hytrach na disgwyl i bobl gysylltu â'r coleg. Credent fod goresgyn y rhwystr dechreuol yn hyn yn allweddol. Cynhwyswyd ymweliadau i ganolfannau ieuenctid a chymunedol yn ardal Butetown yng Nghaerdydd. Bu staff a myfyrwyr o'r Academi Modurool yn siarad am y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gyrfa yn y diwydiant modurool a'r opsiynau posibl y medrent eu cymryd, gan gwrdd â thua 55 o bobl leol.

Ail gam y rhaglen oedd gwahodd y rhai a ddaeth i'r sesiynau i noswaith blasu gweithgaredd yn y coleg. Cofrestrodd tua 18 o bobl ifanc i ymweld a chawsant gyfle i roi cynnig ar rai o'r gweithgareddau a wnaethpwyd ar y cyrsiau, yn cynnwys:

- Sbot asio
- Chwistrellu paent
- Gwneud diagnosis o broblemau injan
- Newid plygiau tanio

9 'Future Skills Wales 2003 Generic Skills Survey' FSW 2003

Trydydd cam y rhaglen yw cynnig cyrsiau byr o 4-6 wythnos mewn pynciau cyflwyniadol. Bwriedir gweithio gyda gwahanol gymunedau i drefnu cyrsiau o'r fath i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r Coleg yn bwriadu cynnal prosiect tebyg ar gyfer cyrsiau Gofal yn dilyn llwyddiant y rhaglen hon.

### **Mentora Pobl Ddu a Lleiafrif Ethnig**

Yn ogystal â'r prosiect a ddisgrifir uchod, gweithredodd Coleg Glan Hafren i wella eu cefnogaeth mentora ar gyfer dysgwyr o grwpiau du a lleiafrif ethnig. Dangosod dadansoddiad o ddata perfformiad yng Ngholeg Glan Hafren fod dysgwyr Bangladeshi, Du Affricanaidd a Hil Cymysg yn tanberfformio o gymharu gyda chyfartaledd y coleg. Yn 2005-06 dangosodd data bod:

- Cyrhaeddiad myfyrwyr Bangladeshi 14.2% yn is na chyfartaledd y coleg
- Cyrhaeddiad myfyrwyr Du Affricanaidd 7.3% yn is na chyfartaledd y coleg
- Cyrhaeddiad myfyrwyr Du Arall 12.2% yn is na chyfartaledd y coleg
- Cymysg Gwyn Asiaidd 18% yn is na chyfartaledd y coleg<sup>10</sup>

Cynhaliodd Coleg Glan Hafren ymchwil a ariannwyd gan Cymorth yn 2005 ar dangyflawniad grwpiau du a lleiafrif ethnig penodol yn y coleg a gwneud argymhellion i wella'r sefyllfa.<sup>11</sup> Galwodd dau o'r argymhellion am well cysylltiadau gyda chymunedau lleol a chefnogaeth mentora ar gyfer dysgwyr o grwpiau du a lleiafrif ethnig.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater, gwnaed cysylltiadau gyda MENFA - Mentora i Bawb, sefydliad mentora sy'n seiliedig yn Butetown (Caerdydd). Daeth MENFA i'r coleg a gweithio'n bennaf gyda meysydd rhaglen busnes, gwybodaeth a thechnoleg swyddfa, addysg gyffredinol ac ESOL, er bod eu gwasanaethau ar gael i bob myfyriwr. Penodwyd aelod o staff darlithio'r coleg yn gydlynnydd mentora i weithio'n agos gyda MENFA a bod yn gyswllt iddynt gyda thimau cwrs.

### **Gweithiodd MENFA mewn 2 ffordd:**

Roedd yn hanfodol cyflwyno myfyrwyr i wasanaethau MENFA. Er mwyn gwneud hyn, cynhaliwyd rhaglen o weithdai ar adeiladu hyder a sgiliau cyfathrebu yn nhymor yr hydref a thymor y gwanwyn - cyflwynwyd 19 gweithdy i 228 o fyfyrwyr.

Trefnwyd rhaglen o sesiynau galw heibio hefyd - fe'u cynhaliwyd ar amserau gosod ar y ddau safle ar gyfer myfyrwyr gyda phroblemau i alw heibio i gael cyngor a chefnogaeth. Bu'r cydlynnydd mentora yn gweithio'n galed i gydlynu gyda thiworiaid cwrs i atgyfeirio myfyrwyr 'mewn risg' at y gwasanaeth. Gwelwyd 56 o fyfyrwyr drwy gydol y flwyddyn. Roedd 49 o'r 56 hyn yn parhau'n weithgar ar ddiwedd y flwyddyn.

Credir mai'r cam nesaf fyddai cysylltu myfyrwyr 'mewn risg' yn fwy effeithiol i MENFA. Bwriadwn amlygu tua 10 grŵp mewn meysydd cwrwicwlwm lle bu cadw a chyrrhaeddiad myfyrwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig yn gonsyrn yn hanesyddol; bydd hyn mewn Technoleg Gwybodaeth ac Astudiaethau Busnes.

Bydd MENFA yn cwrdd yn unigol â'r holl fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn yn y tymor cyntaf (20-30 munud yr un) a thrafod yr help y medrant ei gynnig a phryd y byddent ar gael. Byddant hefyd yn trafod meysydd o gonsyrn a chryfderau a gwendidau'r myfyrwyr ar gyfer y cwrs. Bydd myfyrwyr yn llofnodi ffurflen yn cytuno i MENFA fod â'u manylion cyswllt. Caiff myfyrwyr a ddynodir fel bod 'mewn risg' eu hatgyfeirio i MENFA a byddant yn cysylltu â hwy i drefnu apwyntiadau.

10 Data MIS Coleg Glan Hafren 2006

11 An Investigation into the Underachievement and Underperformance of Specific Ethnic Minority Groups in Education and Training in a Further Education College, Viv Turner 2006



Maent hefyd yn ystyried sefydlu rhaglen lle gall israddedigion o grwpiau du a lleiafrif ethnig mewn prifysgolion weithredu fel mentoriaid i fyfyrwyr. Mae prifysgolion lleol yn symud tuag at gynllun e-fentora, a gobeithir y bydd hyn yn rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr lefel 3.

## 7. Abertawe Coleg - Ffeiriau Amrywiaeth

Mae Coleg Abertawe wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau i annog rhyngweithio ymysg dysgwyr o wahanol gefndiroedd crefyddol ac ethnig ac i ysgogi diddordeb pellach mewn dysgu ymysg grwpiau du a lleiafrif ethnig..

### Ffair Dathlu Amrywiaeth

Mae Coleg Abertawe bellach wedi cynnal tair Ffair Amrywiaeth. Cymerodd dros fil o ddysgwyr ran yn y ffeiriau hyn yn ogystal â grwpiau cymunedol lleol, sefydliadau gwirfoddol a disgyblion o ysgol gynradd leol.

Mae'r Ffair yn cynnwys gwahanol stondinau'n dathlu gwahanol agweddau amrywiaeth ac yn codi ymwybyddiaeth, a chânt eu harwain gan fyfyrwyr. Myfyrwyr sy'n penderfynu ar y themâu ar gyfer eu stondinau ac yn paratoi arddangosiadau a gweithgareddau y mae dysgwyr eraill ac ymwelwyr yn cymryd rhan ynddynt ar y dydd. Mae myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdai a pherfformiadau, yn tynnu lluniau ac yn ffilmio'r digwyddiad, dylunio'r posteri hyrwyddo a pharatoi a gweini'r bwyd, croesawu ymwelwyr a gwerthuso'r digwyddiad. Mae'r digwyddiad yn dod ynghyd â myfyrwyr o wahanol raglenni a safleoedd coleg, gan rannu profiadau, dathlu llwyddiannau a dysgu gan ei gilydd. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: drymio a dawns Affricanaidd, celfyddyd ymladd o Frasil, peintio henna, plethu gwallt a thylino pen Indiaidd, ysgrifennu enwau mewn gwahanol ieithoedd yn cynnwys Braille, dawns Indiaidd ac ati. Bu'r adborth gan fyfyrwyr yn gadarnhaol iawn a bu cynnydd bob blwyddyn yn y nifer sy'n cymryd rhan, yr amrediad themâu a gweithgareddau a lefelau syniadau a pherfformiadau blaengar.

### Mis Hanes Du

Mae Coleg Abertawe wedi dathlu Mis Hanes Du dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd y digwyddiadau ym mis Hydref 2005 yn cynnwys gweithdai drymio Affricanaidd, dangos ffilmiau, perfformiadau cerddoriaeth a barddoniaeth, stondinau celf a chrefft Affricanaidd, plethu gwallt a thriniaethau harddwch ac arddangosiadau myfyrwyr ar wahanol themâu. Cymerodd tua 700 o fyfyrwyr mewn gweithdai ym mis Hydref 2006 gan ddarparu eu tudalennau wiki eu hunain yn seiliedig ar lwyddiannau/cyfraniad person neilltuol. Roedd hyn yn galluogi dysgwyr i ymchwilio pobl mewn gwahanol feysydd - cerddoriaeth, hawliau sifil, chwaraeon ac ati a rhannu eu dysgu gyda myfyrwyr o raglenni eraill fel y medrent ddarllen, ymateb ac ychwanegu at dudalennau ei gilydd.

### Diwrnod Cofio'r Holocost

Mae digwyddiadau a gweithgareddau'n nodi Diwrnod Cofio'r Holocost wedi cyfateb i thema flynyddol Ymddiriedolaeth Cofio'r Holocost. Yn 2005 roedd hyn yn seiliedig ar feddwl unigolion am yr hyn y medrant ei wneud i wneud gwahaniaeth a thema eleni oedd "Yr un fath. Ond gwahanol". Cymerodd myfyrwyr ran mewn gweithdai yn ymchwilio'r materion drwy gwisiau, pytau ffilm, trafodaeth ac ati a chyfrannu at blog yn rhannu eu syniadau.

### Diwrnod Rhyngwladol Menywod

Yn 2005 bu dros ddau gant o blith y staff a myfyrwyr yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol Menywod drwy orffen y frawddeg "Y peth gorau am fod yn fenyw yw ..." gyda chyfle wedyn i ddynion a menywod bleidleisio am y cynnig gorau.

Yn 2006 a 2007 cymerodd myfyrwyr gwryw a benyw ran mewn sesiynau ffeirio i herio stereoteipio yn ôl rhyw mewn dewisiadau pynciau a gyrfa. Ffeiriodd menywod yn astudio iechyd, harddwch a gofal plant wersi gyda dynion yn astudio plymio ac electroneg. Mae myfyrwyr yn hyfforddi ei gilydd, cwblhau tasgau ymarferol ac asesu perfformiad ei gilydd. Mae'r ffeirio'n galluogi myfyrwyr i ddynodi sgiliau trosglwyddadwy ac edrych eto ar eu hagweddau/syniadau am y sgiliau sy'n ymwneud â meysydd galwedigaethol eraill.

## Wythnos Ffoaduriaid

I ddathlu Wythnos Ffoaduriaid trefnodd y coleg ddigwyddiadau mewn partneriaeth gyda grwpiau a sefydliadau lleol yn cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Grŵp Cefnogaeth Ceiswyr Nodded Bae Abertawe, Rhwydwaith Menywod Lleiafrif Ethnig a Fforwm Ieuenctid Abertawe a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe. Mae'r digwyddiadau wedi cynnwys diwrnod codi ymwybyddiaeth gymunedol, yn cynnwys fforwm yn dynodi sut y gall sefydliadau gefnogi ceiswyr nodded yn fwy effeithiol; digwyddiad partneriaeth yn cynnig lleoliadau profiadau gwaith lleol i geiswyr lloches a ffoaduriaid da chyfleoedd gwirfoddoli (yn cynnwys lleoliadau mewn coleg) a gweithdai stori digidol lle mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cynhyrchu straeon am eu profiadau o fyw yn eu gwledydd eu hunain a byw yn Abertawe, a gaiff wedyn eu rhoi ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir ar gyfer eraill i'w gweld.

## 8. Sefydliad Dysgu Digidol, Ysgol Addysg Casnewydd - Prosiect Equinex

Roedd cyfraniad Ysgol Addysg Casnewydd i brosiect Equinex yn cynnwys datblygu cyfres o adnoddau e-hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth a dargedwyd i'w defnyddio'n uniongyrchol ar gyfer gweithwyr rheng flaen (dan deitl Mynd i'r Afael â Rhwystrau - cyfres gwella gwasanaethau).

Gan weithio gyda sefydliadau allweddol y tu fewn a'r tu allan i brosiect Equinex, cafodd cymwyswyr dysgu digidol newydd blaengar eu defnyddio i ymgysylltu gweithwyr rheng flaen gyda hyfforddiant amrywiaeth yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau. Roedd y canlyniadau allweddol yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau cynhwysol estynedig ar gyfer cwsmeriaid a chleientiaid fel modd o fynd i'r afael â'r rhwystrau a gâi grwpiau dan anfantais mewn addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth.

Cynhyrchodd gweithgaredd ymchwil a datblygu cwricwlwm ac adnoddau e-hyfforddi dwyieithog rhyngweithiol ar gyfer y meysydd pwnc dilynol:

- Amrywiaeth Oedran
- Cydraddoldeb Anabledd
- Deddfwriaeth Anabledd (ar gyfer rheolwyr)
- Ymwybyddiaeth Digartrefedd
- Cydraddoldeb Hiliol

Datblygwyd yr adnoddau hyfforddiant ar gyfer eu cyhoeddi mewn copi caled ac roeddent hefyd ar gael ar-lein ar gyfer mynediad yn ôl y galw. Mae'r holl ddarpariaeth e-hyfforddi yn cynnwys sesiynau tiwtorial arbenigol gan diwtoriaid rhithwir a chanllawiau pwnc. Mae gemau difrifol rhyngweithiol ymhlith y deunydd dysgu i helpu i gadarnhau dealltwriaeth o gysyniadau allweddol a rhoi cyfle i bobl i ymarfer a 'chwarae' gyda dulliau cynhwysol i ffordd o'r rheng flaen.

Roedd y sefydliadau a gyfrannodd yn darparu arbenigwr yn natblygiad yr adnoddau'n cynnwys cynrychiolwyr o Prime Cymru, Cydraddoldeb Anabledd Cymru, Big Issue Cymru, Cymorth Cymru a Shelter Cymru a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru.

Mae'r ddarpariaeth ar-lein ar gael i'w ddefnyddio'n ddi-dâl o <http://equal.newport.ac.uk>. Mae Mynd i'r Afael â Rhwystrau - cyfres ymestyn gwasanaethau wedi cael cynulleidfa fawr o Gymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Mae defnyddwyr hefyd wedi defnyddio deunyddiau o bob rhan o'r byd.

Cynhyrchwyd gwe-gastiau ymchwil a datblygu yn ôl y galw i rannu canfyddiadau ymchwil ac arfer datblygu gyda thimau prosiect presennol a dyfodol a maent ar gael yn <http://www.idl-equinex.newport.ac.uk>





# 9. Ansawdd

Mae'r adran hon o'r canllawiau yn cynnig cyngor ac awgrymiadau ymarferol am arolygu a sicrwydd ansawdd addysg oedolion mewn sefydliadau Addysg Uwch, dysgu cymunedol i oedolion (darpariaeth awdurdodau lleol), y sector gwirfoddol, Addysg Uwch yn cyflenwi Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at agweddau o'r broses arolygu ac yn trafod ei goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a gweithio gyda dysgwyr du a lleiafrif ethnig.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. Mae gan Estyn amrediad eang o ddyletswyddau arolygu statudol yn cynnwys ar gyfer arolygu addysg ôl-16 yng Nghymru. Mae Estyn hefyd yn arolygu addysg a hyfforddiant athrawon a Cymraeg i Oedolion ond nid yw'n gyfrifol am arolygu gweddill addysg uwch. Fel arfer mae Estyn yn arolygu pob darparydd bob chwe blynedd dan ei Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol ar berfformiad darparwyr fel rhan o'i chyfrifoldebau statudol ar gyfer sicrhau fod y ddarpariaeth y mae'n ei ariannu yn ateb gofynion dysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn rhan o broses wahanol i arolygu statudol.

## Fframwaith Arolygu Estyn

Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn rhoi fframwaith cyffredinol ar gyfer pob arolwg a gynhelir gan Estyn. Mae'r fframwaith yn canoli ar saith cwestiwn allweddol sy'n weithredol i'r darparydd yn ei gyfanrwydd, ac at agweddau o'i waith megis dysgu, pynciau, cyrsiau, rhaglenni a meysydd galwedigaethol. Mae'r fframwaith yn weithredol ar gyfer pob math o ddarparydd a meddir defnyddio graddau ac adroddiadau Estyn yn dilyn arolwg i gymharu darpariaeth gwahanol ddarparwyr.

### Saith cwestiwn allweddol

Caiff y cwestiynau allweddol eu nodi islaw:

#### *Safonau*

1. Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?

#### *Ansawdd addysg a hyfforddiant*

2. Pa mor effeithiol yw addysgu, hyfforddi ac asesu?

3. Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn cyflawni anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned yn ehangach?

4. Pa mor dda y gofalir am ddysgwyr a'u llywio a'u cefnogi?

#### *Arweinyddiaeth a rheolaeth*

5. Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

6. Pa mor dda mae dysgwyr a rheolwyr yn gwerthuso a gwella ansawdd a safonau?

7. Pa mor effeithiol yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

## Adolygu Perfformiad Darparwyr

Ystyrir bod Adolygu Perfformiad Darparwyr yn broses allweddol ar gyfer cyflawni amcanion Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt codi ansawdd a safonau ac ar gyfer llunio rhyngweithio'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) gyda'r darparwyr y mae'n eu hariannu.

Bwriedir i'r Adolygiadau gynyddu perfformiad darparwyr a hefyd fod yn sail i drosolwg cynhwysfawr o APADGOS o ansawdd a pherfformiad gan felly alluogi targedi cefnogaeth, drwy ei strategaeth Gwella Ansawdd, yn effeithiol.

Mae Adolygu Perfformiad Darparwyr yn ystyried pedwar maes perfformiad fel sy'n dilyn:

- Cyfranogiad ac ymatebolrwydd
- Profiadau a llwyddiannau dysgwyr
- Cynllunio a rheolaeth
- Cyllid a chydymffurfiaeth

Mae nifer o fesurau perfformiad ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, wedi'u trawsyfeirio at Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Caiff y mesurau a'r meini prawf manwl eu nodi mewn canllawiau a gyhoeddwyd ac a ddiweddarir yn flynyddol. Fel rhan o Adolygu Perfformiad Darparwyr, mae APADGOS yn gwerthuso dynesiad strategol pob darparydd at gydraddoldeb ac amrywiaeth; disgwylir y bydd pob darparydd yn arddangos fod polisïau ffurfiol ar waith ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth, eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, bod trefniadau monitro cadarn ar waith a bod staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant priodol.

Cynhelir Adolygiadau Perfformiad Darparwyr ar Sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr dysgu seiliedig ar waith sydd â chontract uniongyrchol. Ar gyfer dysgu cymunedol a gyflwynir gan awdurdodau lleol, cynhelir y broses drwy fersiwn 'gyda ffocws' sy'n cynnwys Cyfranogiad ac Ymatebolrwydd, Profiadau a Chyraeddiadau Dysgwyr, a Chynllunio a Rheolaeth. O 2008, caiff canolfannau iaith Cymraeg i Oedolion hefyd eu cynnwys yn y broses Adolygiadau. Cynhwysir Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cyflwyno Addysg Bellach neu Ddysgu Seiliedig ar Waith, ond nid ysgolion.

Mae'r broses Adolygiadau Perfformiad Darparwyr yn cynnwys **Adolygiad Ffurfiol** o berfformiad darparwyr yn seiliedig ar fesurau a meini prawf a gyhoeddwyd yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth a gyflwynwyd i APADGOS yn cynnwys adroddiadau hunanasesu a Chynlluniau Datblygu Ansawdd cysylltiedig, adroddiadau arolygu, cynlluniau strategol, ffurflenni data, data ariannol a ffurflenni iechyd a diogelwch. APADGOS sy'n cynnal Adolygiadau Ffurfiol. Fe'u dilynir gan '**adolygiad interim gyda ffocws**' yn trafod meysydd lle mae angen gwelliant. Gall cyllid fod ar gael i gefnogi gwaith gwella ansawdd. Y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, disgwylir hefyd y bydd dialog parhaus rhwng APADGOS a'i darparwyr, a bydd prosesau eraill megis archwiliadau a monitro iechyd a diogelwch hefyd yn cyfrannu at werthuso perfformiad darparwyr.

Cynhaliodd APADGOS werthusiad o Adolygu Perfformiad Darparwyr, yn cynnwys ymgynghoriad gyda darparwyr, yng ngwanwyn 2007. Mae'r broses yn cael ei diwygio ar hyn o bryd i adlewyrchu'r canlyniadau; gwneir nifer o newidiadau o 2008, yn cynnwys ffocws cynyddol ar ganlyniadau dysgwyr ac ar gyfer dysgu cymunedol, amserlen newydd gyda'r prif adolygiad yn cael ei gynnal yn y gwanwyn bob blwyddyn.

## Hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd

Mae dau fath o adroddiad hunanasesu. Mae arolygiadau Estyn angen adroddiad hunanasesu gan y darparydd neu ar gyfer dysgu cymunedol i oedolion, asesiad ar y cyd gan bob darparydd yn yr ardal a gynhwysir yn yr arolygiad. Ystyrir fod hunanasesu yn fan cychwyn i ddarparwyr wrth godi ansawdd eu darpariaeth ac mae'n elfen allweddol o'r broses arolygu.

Disgwylir y bydd adroddiadau hunanasesu yn trin y cwestiynau allweddol yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn a hefyd yn rhoi sylwadau penodol ar amrediad o faterion eraill, fel sy'n dilyn:

- Gwerth am arian
- Dysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg
- Datblygu cynaliadwy
- Themâu trawsbynciol eraill: cyfle cyfartal a chynllunio ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol
- Iechyd a Diogelwch
- Cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth berthnasol
- Amddiffyn plant
- Rheoli data a systemau
- E-ddysgu
- Cydweithio a phartneriaeth
- Sgiliau sylfaenol
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth - sut y cyflawnir dyletswyddau cydraddoldeb
- Marchnata

Mae adroddiadau hunanasesu da yn ddulliau ardderchog ar gyfer arolygwyr. Maent yn rhoi gwybodaeth gefndir sy'n eu helpu i weld darpariaeth yn ei gyd-destun lleol. Gall darparwyr gynnwys gwybodaeth ar gyfraddau cyflogaeth, amddifadedd, cyfranogiad a data am y boblogaeth leol yn cynnwys grwpiau du a lleiafrif ethnig. Bydd arolygwyr yn disgwyl i ddarparwyr fonitro recriwtio dysgwyr i ddynodi tangynrychiolaeth grwpiau neilltuol ac i weithredu i fynd i'r afael â hyn.

Ystyrir hunanasesu fel y broses allweddol wrth godi ansawdd darpariaeth ac mae'n elfen allweddol yn Fframwaith Ansawdd Adolygu Perfformiad Darparwyr. Ers mis Mai 2004, bu'n ofynnol i bob darparydd gyflwyno adroddiad hunanasesu blynyddol a chynllun datblygu ansawdd i APADGOS. Bwriedir iddynt gael eu defnyddio fel 'man cychwyn' ar gyfer monitro perfformiad yn ystod adolygiadau o berfformiad darparwyr, er enghraifft. Mae swyddogion APADGOS yn gwerthuso'r adroddiadau ac yn rhoi adborth arnynt i ddarparwyr.

## Cydraddoldeb ac Arolygiadau yn arolygon Estyn

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i'r broses arolygu gan fod themâu unigol a meysydd yn cysylltu â themâu eraill, os nad pob agwedd o addysg oedolion. Mae pob arolwg yn cynnwys dyfarniad ar gyfle cyfartal. Daw'r arweiniad dilynol o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin:

CA1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

**Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae dysgwyr yn:**

Llwyddo, beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol;

Arddangos ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas; ac

Yn barod i gymryd rhan effeithiol yn y gweithle a'r gymuned.

CA2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

**IWrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae athrawon a hyfforddwyr yn:**

Hyrwyddo cyfle cyfartal, delio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb o ran rhyw, hil ac anabledau mewn ffordd weithredol;

Cynllunio i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr mewn ffordd hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd.

**CA3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae profiadau dysgu yn:**

Cwrdd â dyheadau dysgwyr a, phan fo hynny'n addas, yn rhoi'r cyfle iddynt sicrhau achrediad;

Hyrwyddo datblygiad personol dysgwyr yn cynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol

**CA4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

**Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae darparwyr yn:**

Dadansoddi anghenion dysgu yn effeithiol;

Rhoi cefnogaeth ac arweiniad addas i ddysgwyr, gan roi ystyriaeth i'w cefndir cymdeithasol, addysgol neu ieithyddol;

Hyrwyddo cyfle cyfartal a hereio stereoteipiau yn newisiadau a disgwyliadau dysgwyr;;

Cydnabod a pharchu amrywiaeth.

**CA7: Pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

**Wrth ffurfio barn dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae:**

Digon o staff addysgu, hyfforddi a chefnogi sy'n gymwys, yn arbenigol a phrofiadol;

Pob dysgwr yn cael mynediad at adnoddau dysgu priodol sy'n cyd-fynd â gofynion eu profiadau dysgu;

Adeiladau ac ystafelloedd yn cynnig lleoliad addas ar gyfer addysgu, dysgu a chefnogaeth dda i bob dysgwr.

**Beth mae arolygwyr yn ei ddisgwyl?**

Bydd yr arolygydd arweiniol ar dîm arolygu yn treulio amser gyda darparwyr cyn yr arolwg i sicrhau fod pawb yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt. Yn ystod yr arolwg, bydd arolygwyr yn gweithio'n agos gyda chynrychiolydd y darparydd (neu ddarparydd).

Mae Estyn yn disgwyl i ddarparwyr baratoi tystiolaeth neilltuol ar gyfer yr arolwg yn cynnwys:

- Adroddiad hunanasesu
- Data am gyflawniadau a chyraeddiadau dysgwyr
- Amserlenni rhaglen a chyfarfodydd rheolaeth dros gyfnod yr arolwg
- Cynlluniau sefydliadol
- Polisiâu a gweithdrefnau
- Nodiadau byr ar hanes darparwyr, y prif nodweddion presennol a'r cyd-destun y maent yn gweithio ynddo.

Bydd arolygwyr yn arsylwi ar ddysgwyr yn cael eu haddysgu mewn amrywiaeth o osodiadau ac yn siarad gyda dysgwyr, staff a rheolwyr. Bydd arolygwyr yn trafod eu canfyddiadau mewn cyfarfodydd tîm arolygu, yn dyfarnu graddau ac yna'n gadael i'r darparydd wybod beth yw'r graddau a chryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth..

Bydd arolygwyr yn cynnal yr arolwg mewn modd agored a thryloyw ac yn eu tro byddant yn disgwyl i'r darparwyr fod yn agored ac onest gyda hwy.

# 10. Fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cydraddoldeb hiliol

## Cyfrifoldebau dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2001 yn doddi *dyletswydd gyffredinol* gadarnhaol ar 'Gyrff Atebol' i hyrwyddo cydraddoldeb hil. Mae'r term Cyrff Atebol fel y'i defnyddir mewn deddfwriaeth yn cyfeirio at ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Ym maes addysg mae hyn yn cynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion ac awdurdodau lleol. Yn eu holl swyddogaethau, prosesau, polisiau a gweithdrefnau, rhaid i'r sefydliadau hyn anelu i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- hyrwyddo cysylltiadau hiliol da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol

Er nad yw'r gyfraith yn cwmpasu sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mewn gwirionedd mae'r rhan fwyaf yn gweithredu yn unol ag ysbryd a hefyd lythyren y gyfraith ac wedi'u hadeiladu ar egwyddorion cydraddoldeb cadarn. Nod y ddyletswydd gyffredinol yw gwneud cydraddoldeb hiliol yn ganolog i wneud polisi, arferion cyflogaeth a darpariaeth addysg. Mae'n golygu y dylai cynnig cwricwlwm sefydliad addysgol fod o ddiddordeb a pherthnasedd i bob dysgwyr, beth bynnag eu tarddiad diwylliannol, hiliol a chrefyddol.

Mae'n neilltuol o berthnasol ar gyfer dysgu cymunedol gan mai yma'n aml y mae dysgwyr du a lleiafrif ethnig yn cymryd eu camau petrus cyntaf yn ôl i addysg. Mae angen i ddarparwyr a'u staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y gyfraith ac am y cwmpas a pharamedrau ar gyfer bod yn rhagweithiol - wrth gymryd Cam Gweithredu Cadarnhaol 2 er enghraifft, i sicrhau fod eu strwythur staffio yn cynrychioli eu cymunedau cleient neu i dargedu rhaglenni mewn meysydd lle caiff grwpiau du a lleiafrif ethnig eu tangynrychioli. Mae dyletswyddau penodol yn sylfaen i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r rhain yn rhoi fframwaith ar gyfer mesur cynnydd ar gyfle cyfartal a sicrhau y cesglir gwybodaeth monitro i fod yn sail i welliannau mewn meysydd megis:

- cyfraddau cyfranogiad, cwblhau a llwyddiant;
- cyfraddau gadael yn gynnar;
- addysgu a dysgu;
- sicrwydd ansawdd;
- recriwtio, dethol, cefnogi a dilyniant gyrfa staff;
- partneriaethau a chysylltiadau cymunedol; a
- caffael ac allgyrchu.

Creffir ar y meysydd hyn hefyd fel rhan o broses arolygu Estyn.

I gydymffurfio gyda'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), dylai pob Corff Atebol gael ystod o ddulliau ar waith yn cynnwys:

- Polisi ysgrifenedig ar Gydraddoldeb Hiliol a Chynllun Gweithredu a gynlluniwyd i helpu staff gyflawni dyletswyddau'r Ddeddf;
- trefniadau ar gyfer cyflawni, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, ei ddyletswyddau i asesu effaith polisiau a gweithdrefnau ar ymgeiswyr, staff, myfyrwyr ac ymwelwyr o wahanol grwpiau hiliol; a
- monitro recriwtio, dilyniant a chyflawniad yn ôl grŵp hiliol a chyhoeddi'r polisi cydraddoldeb hiliol, canlyniadau asesiadau a monitro.

## Asesiad Effaith Cydraddoldeb Hiliol

Disgwylir i bob Corff Atebol gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb Hiliol. Mae Asesiad yn ffordd o asesu'n drwyadl ac ymgynghori ar yr effeithiau y mae polisi neu strategaeth arfaethedig yn debygol o'i gael ar bobl o wahanol grwpiau hiliol cyn iddo gael ei ymestyn. Gall yr asesiad ymestyn i fodelu effeithiau'r polisi, efallai ar sail prawf, gael nodi canlyniadau anfwriadol a dadansoddi'r rhesymau dros lwyddiant neu fethiant.

Mae dau gam:

*Mae Cam 1* yn cynnwys sgrinio cynigion deddfwriaethol neu bolisiau (a ddiffiniwyd fel y setiau egwyddorion neu feini prawf y mae sefydliad yn eu datblygu i helpu i weithredu ei swyddogaethau neu rôl, ac i gyflawni ei ddyletswyddau) i weld os ydynt yn berthnasol i gydraddoldeb hiliol. Dylai pob polisi gael ei sgrinio..

*Mae Cam 2* yn cynnwys cynnal asesiad llawn o bolisiau y dynodir eu bod yn berthnasol i wneud yn sicr nag oes ganddynt effaith niweidiol ar unrhyw grŵp hiliol.

Lle mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb Hiliol (neu gynllun gwasanaeth newydd, er enghraifft) yn dynodi posibilrwydd rhai effeithiau niweidiol ar rai grwpiau du a lleiafrif ethnig, mae angen i sefydliad ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol i arddangos sut y byddai unrhyw un ohonynt yn cael ei ateb. Er enghraifft, os medrai darparu gwasanaethau cymunedol generig ar gyfer pob dysgwr olygu, am amrywiaeth o reswm, fod oedolion du a lleiafrif ethnig yn annhebyg o ymuno, medrai Cynllun Cydraddoldeb Hiliol nodi camau gweithredu i'w cefnogi wrth gyrchu darpariaeth o'r fath, neu medrai gynnig darpariaeth bwrpasol ychwanegol dan ddarpariaethau Gweithredu Cadarnhaol y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio).<sup>12</sup>

## Cyhoeddusrwydd i bolisi ac ymarfer

Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Corff Atebol gyhoeddi (gwneud yn gyhoeddus) ei Bolisi Cydraddoldeb Hiliol a chanlyniadau asesiad a monitro. I hyrwyddo agoredrwydd a helpu darpar ddysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus, medrai darparrydd addysg effeithiol gyhoeddi:

- ei bolisi ar gyfle cyfartal mewn cyflogaeth
- manylion o'r ffordd y cynhelir ymgynghoriad, asesiad neu fonitro'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol;
- crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd o ymgynghoriadau;
- crynodeb o brif ganfyddiadau asesiad neu fonitro;
- manylion unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu a gynllunnir i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol; a
- gweithdrefnau cwynion.

## Adolygu polisi ac ymarfer

Medrai fod yn ddefnyddiol i bolisiau a gweithdrefnau'n gysylltiedig â'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) osod gorwel amser tair i bum mlynedd, tra bydd adolygiadau blynyddol yn effeithiol wrth sylwi'n gynnar ar broblemau, ymateb i anghenion newydd eu dynodi a chadw rhanddeiliaid, yn arbennig ddysgwyr, yn ymwneud â chynllunio a rheoli.

12 Diffinnir Gweithredu Cadarnhaol fel 'Gweithgaredd y bwriedir iddo wella'r gynrychiolaeth mewn gweithlu neu mewn addysg neu hyfforddiant lle dangosodd monitro fod grŵp neilltuol yn cael ei dangynrycholi, un ai yn gyfrannol i broffil yr holl weithlu neu'r boblogaeth leol'. Mae gweithredu cadarnhaol a ganiateir gan deddfwriaeth gwrthwahaniaethu yn galluogi person i:

darparu cyfleusterau i ateb gofynion arbennig pobl o grwpiau neilltuol yng nghyswllt eu hyfforddiant, addysg neu les; a

targedu hyfforddiant swydd at bobl o grwpiau a dangynrychiolir mewn maes neilltuol o waith, neu eu hannog i wneud cais am waith o'r fath. Nid yw gweithredu cadarnhaol yr un fath â gwahaniaethu cadarnhaol, sy'n anghyfreithlon.

## Gweithdrefnau cwynion

Dylai cwynion am wahaniaethu hiliol yn erbyn staff neu fyfyrwyr bob amser gael eu cymryd o ddifrif a'u hymchwilio. Os y'u profir, medrai cynnroi seiliau ar gyfer gweithredu disgyblu yn arwain at ddiswyddo staff addysgu neu gymorth neu at wahardd myfyrwyr. Ymhellach, gall pobl ganfod eu hunain yn atebol i erlyniad dan ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol.

## Monitro

Mae monitro yn hanfodol i sefydlu pa mor dda mae sefydliad yn gwneud ar gynhwysiant a chydaddoldeb. Dim ond cychwyn pethau yw casglu'r data ac mae'n ddibwynt ar ben ei hun - mae'n hanfodol ei ddadansoddi a gweithredu ar y canfyddiadau, yn neilltuoel yng nghyswllt recriwtio myfyrwyr, cyfranogiad a llwyddiant. Mae monitro yn sail i arolygu ac adolygiadau hunanasesiad, yr Asesiad Cydraddoldeb Effaith ar Hil a Chynlluniau Gweithredu, Cynlluniau a Strategaethau Cydraddoldeb Hiliol. Mae darparwyr yn cael gwybodaeth monitro yn ddefnyddiol yn mhob math o ffordd yn cynnwys ar gyfer:

- amlygu gwahaniaethau yn y defnydd a llwyddiant rhwng dysgwyr o wahanol grwpiau hiliol;
- olrhain recriwtio a dilyniant staff o wahanol grwpiau hiliol;
- dynodi rhesymau am y gwahaniaethau;
- dynodi gweithredu unioni;
- adolygu effeithiau polisiâu a gweithdrefnau;
- gosod targedau;
- cyflwyno achos dros Weithredu Cadarnhaol;
- cefnogi gwerthusiad; a
- cefnogi ceisiadau am gyllid.

Dylai dysgwyr a staff gael eu hannog i ddatgan eu categori ethnig lle gofynnir am yr wybodaeth honno, drwy esbonio'n fanwl pam fod yr wybodaeth yn bwysig a sut y bydd yn cyfrannu at wella gwasanaethau a chynyddu tegwch. Mae darparu categorïau y gall pobl uniaethu'n rhwydd â hwy hefyd yn helpu, megis sicrwydd am gyfrinachedd a diogelu data.

## Hyfforddiant

Nid yw hyfforddiant unwaith yn unig mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddigon. Mae angen iddo fod yn rhan gyfannol o ddatblygu proffesiynol parhaus, oherwydd y:

- newid parhaol ym mhoblogaeth Prydain oherwydd ehangu Ewrop a newidiadau byd-eang yn gysylltiedig â rhyfel, newyn a thrychinebau naturiol;
- mwy o drafodaeth am beth yw ystyr bod yn Brydeinwyr, a ganolbwyntiodd yn ddiweddar ar grefydd, gwisg grefyddol a diwylliannol draddodiadol ac effaith hynny ar gydlyniant cymunedol; a
- newidiadau mewn deddfwriaeth ac isadeiledd, megis creu un Comisiwn Cydraddoldeb yn 2007.

Mae'r angen am ymwybyddiaeth yn ymestyn tu hwnt i addysgu staff i gefnogi gweithwyr (er enghraifft mewn ffreuturiau neu waith gofalwyr), gwirfoddolwyr a'r dysgwyr eu hunain. Dylai byrddau llywodraethwyr a phawb mewn swyddi rheoli fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da ac wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu hiliol anghyfreithiol drwy eu holl gyfrifoldebau, gan anelu i sicrhau fod recriwtio, dethol, hyfforddiant, datblygu, asesiad a gwerthuso dysgwyr, staff ac ymgeiswyr yn seiliedig yn llwyr ar haeddiant, gallu a photensial.



## Diffiniadau o wahaniaethu

Gall gwahaniaethu fod ar lawer ffurf a'i brofi mewn gwahanol ffyrdd gan yr unigolyn. O'r herwydd, gall unigolion brofi gwahaniaethu mewn ffordd agored ac enghraifft o hynny fyddai galw enwau hiliol, neu un myfyriwr yn gwrthod eistedd wrth ochr un arall oherwydd lliw ei groen, neu mewn ffyrdd llai amlwg megis cael eu heithrio o weithgaredd oherwydd bod tiwtor wedi'i gynllunio ar ddiwrnod addoli.

Defnyddir y term hiliaeth sefydliadol er mwyn deall yn well rai o'r cymhlethdodau sy'n rheoli ein rhyngweithiau ac i ddechrau asesu'r effaith sydd gan ddiwylliant sefydliadol ar bobl o gefndiroedd du a lleiafrif ethnig. Mae'r term hwn yn anelu i gwmpasu gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan ei gysylltu gydag arferion sefydliadol.

## Gwahaniaethu a harasiaeth hiliol

Mae *gwahaniaethu uniongyrchol* yn digwydd pan gaiff un person ei drin yn llai ffafriol nag a gaiff, a gafodd neu a gâi person arall ei drin mewn sefyllfa gyffelyb ar sail tarddiad hiliol neu ethnig.<sup>13</sup>

Mae *gwahaniaethu anuniongyrchol* yn digwydd fod person yn gweithredu rheol neu amod ar gyfer person arall a fedrai pe'u gweithredid i bawb gael ei diwallu gan gyfran sylweddol is o bobl o grŵp hiliol neilltuol, bod y rheol er anfantais iddynt ac na fedrir cyfiawnhau'r amod neu'r rheol ar seiliau heb fod yn hiliol.

*Harasiaeth hiliol* yw unrhyw ymddygiad yn ymwneud â hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol sydd wedi'i gyfeirio at unigolion neu grŵp ac sy'n peri tramgwydd neu sy'n annymunol i'r sawl sy'n ei dderbyn, sy'n creu awyrgylch sy'n dychryn, yn wrthwynebus neu'n dramgwyddus. P'un ai'n fwriadol ai peidio, agored neu gudd, y nodwedd ddiffiniol yw bod yr ymddygiad yn achosi tramgwydd hiliol neu'n dychryn y derbynnydd.

Gall *ymddygiad bwlio neu ddychryn hefyd* gael ei ystyried fel gwahaniaethu hiliol Gall ymddygiad o'r fath fod yn un digwyddiad, neu gyfres o ddigwyddiadau, a gall gynnwys:

- galw enwau sarhaus
- sarhad a jociâu hiliol
- gwneud hwyl am ben unigolyn oherwydd gwahaniaethau diwylliannol
- gadael allan o sgysiau arferol yn y gweithle neu ddigwyddiadau cymdeithasol
- dyrannu gwaith a chyfrifoldebau yn annheg
- graffiti neu arwyddluniau hiliol
- cam-drin a bygythiadau llafar
- ymosodiad corfforol ac
- annog eraill i gyflawni unrhyw un o'r uchod.

Diffinnir *hiliaeth sefydliadol* fel:

*Methiant torfol sefydliadol i ddarparu gwasanaeth addas a phroffesiynol i bobl oherwydd eu lliw, diwylliant neu darddiad ethnig y medrir ei weld neu ei ganfod mewn prosesau, agweddau ac ymddygiad sy'n cyfrif i wahaniaethu drwy ragfarn anfwriadol, anwybodaeth, bod yn ddifeddwl a stereoteipio hiliol sydd yn rhoi pobl lleiafrif ethnig dan anfantais.*<sup>14</sup>

Gall hiliaeth fod yn ganlyniad y ffordd y mae sefydliad yn gweithredu, yn hytrach nag ymddygiad unigol, felly er efallai nad oes unrhyw un unigolyn yn gyfrifol am y ffordd y caiff, er enghraifft, myfyriwyr eu derbyn ar gwrs neilltuol, gall yr holl sefydliad fod yn gyfrifol am weithredu trefn recriwtio a dethol sydd â'r effaith o wahaniaethu yn erbyn myfyriwyr ar sail hil, crefydd neu gefndir teuluol. Enghraifft syml o hyn fyddai gwasanaeth addysg oedolion yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyrsiau ar brynhawn dydd Gwener, a thrwy wneud hynny yn gwahaniaethu yn erbyn Mwslimiaid a fedrai fod yn addoli ar yr amser hwnnw.

<sup>13</sup> Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000

<sup>14</sup> Adroddiad McPherson i farwolaeth Stephen Lawrence (1997)



## Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

### Y Ddeddf Cydraddoldeb Unigol 2006

Mae gan y Ddeddf Cydraddoldeb dair swyddogaeth:

- Creu un Comisiwn a fydd yn cymryd lle'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd. Enw'r comisiwn unigol hwn fydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Gwneud gwahaniaethu yn anghyfreithlon (ar wahân i rai eithriadau) ar sail crefydd neu gredu neu dueddiad rhywiol wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, rheoli adeiladau, addysg a gweithredu swyddogaethau cyhoeddus.
- Creu dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod a gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw yn y gweithle. (Gweler atodiad 1 i gael crynodeb o'r ddeddf).

### Pwysigrwydd Cynllun Cydraddoldeb Unigol

Mewn ymateb i'r Ddeddf Cydraddoldeb Unigol, mae llawer o sefydliadau wedi cynhyrchu cynllun cydraddoldeb unigol, yn gosod nodau ac amcanion yn ogystal â'u blaenoriaethau yng nghyswllt pob maes cydraddoldeb o fewn y ddeddfwriaeth.

Bydd Cyrff Atebol, sydd â dyletswyddau penodol a chyffredinol yng nghyswllt cydraddoldeb, eisiau ymateb i ysbryd yn ogystal â llythyren Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Deddf Cydraddoldeb 2006. Byddant hefyd yn anelu i hyrwyddo pob math a chainc arall o gydraddoldeb a hawliau dynol a fedrai fod yn berthnasol i'w gwaith. Yn ddelfrydol, dylai hyn fynd tu hwnt i'w dyletswyddau cadarnhaol i hyrwyddo cydraddoldeb hil, rhyw ac anabledd ac ymestyn y ddeddfwriaeth yn diogelu yn erbyn gwahaniaethu ar sail oedran, tueddiad rhywiol a chrefydd neu gred. Dylai'r cynlluniau anelu i integreiddio cydraddoldeb a materion triniaeth deg i'ch egwyddorion a'ch swyddogaethau creiddiol.

Mae'n rhaid i unrhyw gynllun cydraddoldeb unigol (gweler atodiad 2 ar gyfer y model) danlinellu pwysigrwydd arweinyddiaeth da ac ymrwymiad ar bob lefel o'r sefydliad, gan eu bod yn ganolog i lwyddiant unrhyw gynllun. Dylai sefydliadau ystyried goblygiadau popeth a wnânt a sut y byddant yn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu'n ymwybodol neu'n ddiarwybod yn erbyn neu beri anfantais i unigolion neu grwpiau. Dylent hefyd ystyried cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth lle bynnag y medrant.

Mae'n rhaid i gynllun cydraddoldeb unigol da gael ei seilio ar gynllun gweithredu. Mae hyn yn rhoi manylion sut y medrir gwireddu'r nodau a'r teimladau a fynegir yn rhan strategol y cynllun. Bydd y camau ymarferol a ddynodir yn y cynllun gweithredu yn hysbysu pawb sy'n gweithio mewn sefydliad am y gwaith sydd angen ei wneud. Mae hyn yn galluogi pawb i drafod heriau'n effeithiol ac ateb gofynion y ddeddfwriaeth. Mae hyn hefyd yn rhoi cydraddoldeb yng nghalon sefydliad wrth iddo hysbysu beth i'w wneud yng nghyswllt eich prosesau addysgu, recriwtio a gwneud polisi a threfniadau partneriaeth.

Yn ddelfrydol, caiff cynllun cydraddoldeb unigol ei lunio drwy broses ymgynghori gyda staff, partneriaid, dysgwyr, arbenigwyr a grwpiau cymunedol.

Bydd yn cyflwyno eich agwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth, fel cyflogydd staff, darparydd, partner ac, mewn rhai achosion, ariannwr. Bydd eich cynllun cydraddoldeb 'unigol' yn esbonio ac ymateb i'ch dyletswyddau statudol i hyrwyddo cydraddoldeb mewn tri maes cydraddoldeb - hil, anabledd a rhyw. Mae'r dyletswyddau statudol dan y ddeddfwriaeth ddilynol (fel y nodir uchod):

- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
- Deddf Cydraddoldeb 2006

Dylai eich cynllun hefyd drin meysydd eraill o gydraddoldeb megis crefydd a chredo, oedran a thueddiad rhywiol.



# 11. Cynlluniau gwersi, deunyddiau cwricwlwm ac amrywiaeth o fewn yr ystafell ddosbarth

## Annog perthynas dda rhwng dysgwyr

Yn wahanol i gymwyseddau diwylliannol, sy'n dibynnu ar diwtoriaid yn gwybod rhywbeth am ddiwylliant, crefydd ac ethnigrwydd dysgwyr, mae dysgu rhyng-ddiwylliannol yn ymwneud â phrosesau dwy ffordd. Mae'n ymwneud â dysgwyr ac ymarferwyr yn dysgu am ei gilydd a cheisio canfod sut y mae'r saith rhan o wyth o'r mynydd iâ dan yr wyneb yn sylfaen i'r wythfed y medrwn ei weld.

Ar gyfer hyn mae angen canfod sut mae syniadau am wyleidd-dra a harddwch, delfrydau am fagu plant, patrymau o gysylltiadau uwchraddol/israddol, cysyniadau am gyfiawnder, syniadau am arweinyddiaeth, patrymau o wneud penderfyniadau grŵp, rolau yng nghyswllt statws yn ôl oedran, rhyw, dosbarth, galwedigaeth, teulu, a natur cyfeillgarwch yn effeithio ar ddiwylliant, gwisg, traddodiadau a barn unigolion o'r byd.

## Hyder a Pharch

Mae cynyddu hyder yn gonglfaen dysgu rhyng-ddiwylliannol. Mae'n hanfodol ein bod yn teimlo'n gysurus i rannu gwahanol safbwyntiau, canfyddiadau a theimladau er mwyn sicrhau derbyniad a dealltwriaeth. Mae'n galw am lawer o amynedd a sensitifrwydd er mwyn creu awyrgylch dysgu sy'n ein galluogi i wrando ar ein gilydd fel pobl gyfartal. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i ni roi gofod ar gyfer mynegiad pawb a gwerthfawrogi pob profiad a chyfraniad.

## Realaeth Adeiledig

Nid oes dim yn absoliwt. Mae llawer o ffyrdd i ddarllen a deall realaeth, ac mae pawb yn adeiladu ei fyd ei hun. Mae'r syniad fod pob realaeth yn adeiladwaith cymdeithasol yn un ffactor bwysig mewn prosesau dysgu rhyng-ddiwylliannol. Medrwn edrych ar y byd o'n hamgylch, hyd yn oed ddimensiynau mor sylfaenol ag amser a gofod, yn wahanol iawn. Ond rydym i gyd yn dal i fyw mewn un byd ac mae hynny'n effeithio ar fywyd pob un ohonom. Fel canlyniad, dylai'r broses ddysgu fynd law yn llaw â rhai ymdrechion i barchu rhyddid a phenderfyniadau personol, derbyn barn pawb yn gyfartal a cheisio cysoni gwahanol safbwyntiau a bod yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb personol. Ond mae'n beth cadarnhaol fod gwahaniaethau yn bodoli a'u bod yn parhau.

## Yr hyn mae ymarferwyr ei eisiau

Yn ystod cynhyrchu'r pecyn cymorth, dywedodd rhai ymarferwyr nad oeddent yn hyderus wrth weithio gyda dysgwyr o gymunedau du a lleiafrif ethnig neu eu bod yn ei chael yn anodd cael oedolion o wahanol gefndiroedd ethnig i gydweithio. Roedd hyn yn aml yn cyflwyno ei hunan mewn "ystafelloedd dosbarth hunan-wahanedig" lle mae dysgwyr lleiafrifoedd ethnig yn eistedd ac yn gweithio gyda'i gilydd heb fawr neu ddim cyswllt gyda dysgwyr eraill.

Bydd dysgwyr yn arwahanu eu hunain o fewn yr ystafell ddosbarth am amrywiaeth o resymau. Bydd dysgwyr sydd wrthi'n dysgu Saesneg, neu nad ydynt yn hyderus yn siarad Saesneg, yn aml yn grwpio gyda dysgwyr eraill yn yr un sefyllfa er mwyn cefnogi ei gilydd. Mae hyn hefyd yn wir am ddysgwyr a all fod yn siarad yr un iaith, o'r un grefydd neu ethnigrwydd.

Yn yr un modd, efallai na fydd dysgwyr sydd mewn lleiafrif neu sy'n teimlo wedi eu hymddieithrio yn dymuno cymryd rhan mewn trafodaethau neu gymryd rhan drwy ofyn cwestiynau. Gall y rhesymau am hyn fod yn gymhleth a medrant hefyd fod yn gysylltiedig â diwylliant. Er enghraifft, efallai na fydd rhai dysgwyr o Dde Ddwyrain Asia yn dymuno ateb cwestiynau oherwydd eu bod yn ofni cael yr ateb anghywir, a cholli wyneb.

## Annog dysgwyr i gydweithio

Efallai na fydd dysgwyr lleiafrif ethnig yn teimlo'n hyderus am gysylltu â dysgwyr o ddiwylliannau eraill oherwydd rhwystrau tybiedig yn gysylltiedig â gwisg neu grefydd, a heb fod yn hyderus am gael arferion yn iawn, megis cyflwyniadau. Gall hyn hefyd fod yn wir am rai tiwtoriaid ac athrawon nad ydynt yn gyfarwydd â gweithio gyda dysgwyr o grwpiau du a lleiafrif ethnig neu sy'n newydd i'r proffesiwn.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn nifer o 'ysgogwyr' neu dorwyr iâ y medrir eu defnyddio yn ystod sesiynau tiwtorial, cyfnodau rhydd, mewn amser a glustnodwyd ar gyfer trafodaeth neu le bynnag mae cyfle i ymchwilio dysgu rhyng-ddiwylliannol. Gall gweithgareddau o'r fath gefnogi sefydliadau addysg mewn nifer o ffyrdd yn cyfeirio at greu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol ddiwylliant, meithrin lefelau uwch o ddealltwriaeth rhwng myfyrwyr a chynyddu lefelau cyrhaeddiad.

## Cychwyn arni

Gall tiwtoriaid/athrawon ddymuno rhoi cynnig ar yr ysgogwyr dilynol ar gydweithwyr er mwyn cael gwared ag unrhyw feini tramgwydd. Medrir addasu pob un ohonynt yn ôl faint o amser sydd gennych ar gael a'r myfyrwyr yr ydych yn gweithio â hwy.

Gan ddibynnu ar eich grŵp targed, gall ysgogwyr fod yn ddefnyddiol i:

- Gosod yr hwyl neu greu awyrgylch
- Deffro pobl cyn neu yn ystod gweithgaredd
- Cyflwyno pwnc mewn ffordd ysgafn

Mae llawer o ysgogwyr ar gael. Yn aml maent yn gweithio drwy i gyfranogwyr sefyll mewn cylch, canu cân, gwneud symudiadau neilltuol neu gwrso ei gilydd mewn gwahanol ffyrdd. Peidiwch gorfodi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu rhoi y tu allan i'w parth cysur eu hunain. Adeiledwch yn araf i'r ysgogwyr mwy uchelgeisiol ar ôl dod i adnabod eich dysgwyr a chanfod beth yw eu cyfyngiadau a lefelau derbyniol o ymgyfraniad.

Medrir defnyddio'r ysgogwyr dilynol i efelychu trafodaethau a gweithgareddau'n ymwneud â hil, diwylliant, gwerthoedd a chrefydd a gallant hybu dysgu rhyng-ddiwylliannol - ond medrech chi eu barnu'n wahanol. Sylw! Mae rhai pobl wrth eu bodd gydag ysgogwyr, gan gredu eu bod yn hanfodol i greu awyrgylch grŵp, mae eraill yn eu casáu ac yn eu credu eu bod yn 'wirion'.

## (1) "GRRR – FFWT – BWM!"

Gall llafarganu rhywbeth sy'n ymddangos yn ddiystyr fod yn her ddiddorol. A medrai hefyd fod yn ddiddorol edrych ar beth fedrai olygu ...

### Adnoddau sydd eu hangen:

- Siart troi neu arwynebedd arall i ysgrifennu'r geiriau arno
- Digon o le i gyfranogwyr symud o gwmpas yn rhwydd
- Un hwylusydd

**Maint Grŵp:** Unrhyw

**Amser:** Tua 5 munud

### Cam-wrth-gam

1. Hwylusydd yn ysgrifennu'r "geiriau" dilynol ar siart troi neu arwyneb arall fel y gall y cyfranogwyr eu ddarllen:

**ANA**

**NA**

**GRRRR**

**FFWT**

**BWM!**

2. Mae'r hwylusydd yn dweud y geiriau'n araf ac yn gofyn i'r cyfranogwyr ymuno.
3. Yna mae'r hwylusydd yn gwneud y llafarganu yn uwch a meddalach, cyflymach ac arafach (mae hyd yn oed yn bosibl i gynnwys dawns fechan i fynd gyda'r llafarganu).
4. Mae'r ysgogydd yn gorffen gyda 'BWWWM!' mawr.

### Ystyried a gwerthuso:

Mewn gwirionedd, yr hyn a ddigwyddodd yw fod y sawl sy'n cymryd rhan wedi dysgu rhan fechan o iaith newydd gyda'i gwahanol rythmau, golau a chysgod. Felly mae'n bosibl cael trafodaeth am yr hyn sy'n gwneud iaith ar ôl i bawb gael ei anadl atynt!

### Pwyll:

Byddwch yn ofalus pa mor uchel fydd yr ysgogydd. Gall fod yn uchel a doniol iawn. Medrai hefyd fod braidd yn chwithig i rai, yn arbennig os nad ydynt yn adnabod ei gilydd yn dda.

*Ffynhonnell Mark Taylor (1998) "Simple ideas to overcome language barriers" yn Language and Intercultural Learning Training Course Report*

## (2) Haenau Amrywiaeth

Pa bynnag grŵp yr ydych ynddo, mae gennym lawer yn gyffredin yn ogystal â'n gwahaniaethau, y gall llawer ohonynt ateu ei gilydd. Mae'r ymarferiad hwn yn helpu i ddarganfod rhai o'r agweddau ategol sydd gennym, ac mae'n hwyl!

**Adnoddau sydd eu hangen:** Digon o le mewn ystafell

**Maint Grŵp:** Rhwng 10 a 40, angen rhif gwastad.

**Amser:** Hyd at 30 munud

### Cam wrth gam:

1. Gofyn i'r rhai ffurfio cylch mewnol ac allanol (sefyll am haenau nionyn), pobl yn wynebu ei gilydd mewn cyplau.
2. Pob cwpl i orfod canfod (yn gyflym iawn) un peth (arfer, agwedd, cefndir, ...) yn gyffredin ac un ffurf o fynegiant ar ei gyfer (medwch adael y dull datgan yn rhydd neu nodi un gwahanol bob tro: "Canwch gân", "meimiwch yn sydyn", "crëwch gerdd mewn dwy linell", "mynegi gyda sŵn", "mynegi gyda symbol" ...)
3. Unwaith y gwnaethoch hyn, mae haen allanol y nionyn yn symud i'r dde ac mae pob cwpl newydd yn gorfod canfod rhywbeth tebyg (hoff fwyd, beth nag oeddech yn hoffi yn yr ysgol, teulu, cerddoriaeth, arfer, agwedd, datganiad gwleidyddol ...), gan fynd yn ychydig "dyfnach" yn ein nionyn bob tro.
4. Gall y cyplau newid sawl gwaith nes bod y cylch wedi gorffen (yn dibynnu ar faint grŵp). Amrywiad mwy anodd fyddai chwilio am wahaniaethau yn y cwpl a mynegi eu tebygrwydd (neu ganfod datganiad/sefyllfa yn integreiddio'r ddau).

### Ystyried a gwerthuso:

Medrir dilyn gyda thrafodaeth am: Pa debygrwydd/gwahaniaeth wnaeth ein synnu? O ble maent yn deillio? I ba raddau y gall ein gwasanaethau ategu ei gilydd?

*Ffynhonnell: Canolfan Ieuencid Ewropeaidd Claudia Schachinger,*

### (3) "Fy nrych fy hun"

Ymarfer yn hunanarsylwi a chodi ymwybyddiaeth amdanaf fy hun, gwahoddiad i'r rhai sy'n cymryd rhan i arsylwi ei gilydd a'u hymddygiad a'u hymateb ar bwnc neilltuol. Cawn ein rhyfeddu yr hyn a ddarganfyddwn os ceisiwn edrych arnom ein hunain drwy lygaid gwahanol.

#### Adnoddau sydd eu hangen:

Cyfranogwyr sy'n barod ac yn fodlon i gymryd rhan, efallai gyda pheth ymwybyddiaeth ymlaen llaw o unedau codi ymwybyddiaeth (am iaith y corff, canfyddiad, steroteipiau, damcaniaeth diwylliant a dysgu rhyngddiwylliannol). Llyfr nodiadau i bawb sy'n cymryd rhan..

**Maint Grŵp:** Unrhyw

**Amser:** Medrir ei wneud yn ystod un ymarferiad neilltuol, uned neu hyd yn oed ddiwrnod cyfan.

#### Cam wrth gam:

- Mae'r cyfranogwyr yn cyflwyno'r syniad o hunanarsylwi ar ddechrau'r uned. Fe'u gwahoddir i "arsylwi eu hunain" yn ystod y dydd gan roi sylw mawr i'w hymddygiad, ymateb i eraill (yr hyn a glywn, gweld ac arogl), iaith corff, dewisiadau a theimladau.
- Cadw "dyddiadur ymchwil" cyfrinachol ac ysgrifennu unrhyw fathau o arsylwi a ystyriant yn bwysig yn ogystal â'r amgylchiadau, y sefyllfa, y bobl sy'n cymryd rhan, rhesymau tebygol ac ati.
- Cyfranogwyr yn derbyn set o brif gwestiynau canllaw, yn dibynnu ar ffocws yr arsylwadau. Er enghraifft, medrid defnyddio'r arsylwad i siarad am stereoteipiau (Sut wyf yn gweld ac ymateb i eraill, i ba agweddau, ym mha ffordd ...?, neu elfennau diwylliant (beth sy'n fy wneud yn anesmwyth a fy nenu at eraill? Pa ymateb neu ymddygiad wyf i'n hoffi/ddim yn hoffi? Sut wyf yn ymateb i bethau gwahanol i fi? Pa mor bell ddylwn i gadw? Ym mha ffordd mae hyn yn effeithio ar fy rhyngweithio?) Medrech hefyd ddefnyddio damcaniaethau Hall a Hall (1990) am ofod ac amser fel sail ar gyfer cwestiynau.
- Dylai fframwaith yr arsylwad (dechrau a diwedd) fod yn glir iawn, efallai gyda rhai rheolau syml (parchu eich gilydd, cyfrinachedd dyddiaduron). Mae'n bwysig fod yr ymarferiad yn parhau drwy'r amser, yn ogystal ag mewn seibiant, amser rhydd... Fel man cychwyn i fynd i'r hwyl, medrir gwahodd y cyfranogwyr i "gamu allan o'u cyrff" a gweld eu hunain mewn drych (ymarferiad byr). Yna medrir parhau â'r rhaglen "arferol". Medrir hwyluso'r ymarferiad os oes seibiant byr ar ôl pob rhaglen yn gwahodd pobl i nodi pethau yn eu dyddiaduron.
- Ar ddiwedd yr uned, mae angen i gyfranogwyr fynd allan o'u ymarferiad a "camu'n ôl i'w cyrff". Yna mae angen cyfnod personol i fynd drwy'r dydd a'r dyddiadur, i'w ail-ddarllen, i feddwl am resymau ... (gall hyn fod ar ffurf cyfweiliad gyda'ch hunan).
- Fel cam olaf, medrir cychwyn rhannu ar ffurf cyfweiliad rhwng dau berson neu mewn grwpiau bach iawn. Os yw'r grŵp yn agored iawn gydag awyrgylch hyderus, medrir gwahodd cyfranogwyr yn nes ymlaen i drafod yn anffurfiol gydag eraill lle gwnaethant deimlo ymateb neilltuol er mwyn cyfnewid eu canfyddiadau a chyd-ddatblygu strategaethau newydd ar gyfer delio gyda hwy.
- Gall cylch terfynol mewn sesiwn lawn alluogi'r cyfranogwyr i rannu sut maent wedi byw yr ymarfer, beth oedd yn ddiddorol, anodd.

**Ystyried a gwerthuso:**

Personol: Sut beth oedd arsylwi arnaf fy hunan? Beth oedd yn anodd? Beth wnes i ddarganfod? Sut wyf yn ei ddehongli? Pam wnes i ymateb fel hyn? Beth mae hyn yn ei ddweud amdanaf i? A oes tebygrwydd, patrymau ymddygiad sydd gen i? O ble daw rhai pethau? A fedraf gysylltu unrhyw rai o fy nghasgliadau gydag unrhyw rai o'r damcaniaethau am ddiwylliant? Fyddwn i'n ymateb yn wahanol os byddwn i'n fwy (neu'n llai) ymwybodol am wneud yr ymarferiad? A oes pethau cyfochrog i fy mywyd bob dydd a chyfarfyddiadau gyda phobl eraill?

Ar gyfer rhannu: Mae'n bwysig pwysleisio nad yw pobl ond yn dweud wrth ei gilydd yr hyn y maent eisiau ei ddweud, a chymryd yr ymarferiad fel pwyntiau gadael ar gyfer adfyfrio pellach a chwestiynau i'w hunain.

**Pwyll:**

Mae pa mor effeithiol mae'r ymarferiad hwn yn dibynnu sut mae'r grŵp yn rhyngweithio ac os yw aelodau'n barod i ofyn cwestiynau am eu hymddygiad eu hunain. Gall yr ymarferiad helpu i ddarganfod mwy am ymrwymadau diwylliannol. Medrwn ddysgu ein hunain i roi mwy o sylw i'n cyfarfyddiadau rhyng-ddiwylliannol ac i'r dulliau y medrwn eu datblygu i ymdopi gyda hwy.

Mae'n rhaid i'r cwestiynau gael eu haddasu'n benodol ar gyfer diben yr ymarferiad (gorau oll pa bynnag mor fanwl yw'r cwestiynau). Sylw: nid yw bob amser yn rhwydd i bawb arsylwi arnynt eu hunain – mae'n bwysig tanlinellu ein bod yn gofyn cwestiynau i'n hunain, yn hytrach nag i bobl eraill. Gall hefyd fod yn anodd i aros yn naturiol yn yr ymarferiad hwn.



## (4) Wynebu hunaniaeth

Efallai nad ydym yn gweld ein hunain yr un ffordd ag mae eraill yn ein gweld: ymarferiad am wynebau (newidiol) ein hunaniaeth ...

### Adnoddau sydd eu hangen:

Cyfranogwyr a gafodd gyflwyniad sylfaenol am gysyniadau hunaniaeth

Darn mawr o bapur a phen ysgrifennu i bob person

Peniau ysgrifennu a/neu bensiliau gwahanol liw

**Maint Grŵp:** Amrywiol

**Amser:** Tua 45 munud personol, 45 munud cyfnewid

### Cam wrth gam:

1. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn papur a phen ysgrifennu ac yn darlunio proffil ei (h)wyneb ar y papur (ar ben ei hun neu gyda help rhywun arall).
2. Cyfranogwyr yn ystyried gwahanol agweddau o'u hunaniaeth (elfennau i'w rhoi y tu mewn i'r wyneb) a sut y medrai eraill eu gweld (elfennau i'w rhoi tu allan i'r wyneb). Dylai'r cyfranogwyr gael digon o amser ar gyfer hyn, gan geisio meddwl am wahanol elfennau sy'n rhan o hunaniaeth (teulu, dinasyddiaeth, addysg, rhyw, crefydd, rolau, eiddo grŵp ...). Dylent gael eu hannog i feddwl am agweddau personol ac agweddau y maent yn eu hoffi a hefyd ddim yn eu hoffi.
3. Yn yr ail gam mae'r cyfranogwyr yn ystyried
  - a. y berthynas rhwng yr hyn a welant a'r hyn y medrai eraill ei weld a'r berthynas rhwng gwahanol agweddau (medrir ei ddychmygu gyda llinellau cyswllt a fflachiadau)
  - b. datblygu gwahanol agweddau drwy gydol eu bywyd a'r ffactorau perthnasol ar ei gyfer (medrant ddychmygu hyn gyda lliwiau yn dangos cyfnodau gwahanol mewn bywyd, neu arwyddion ar "amserlen" a dynnant wrth ochr yr wyneb, neu wahanol swigod.
4. Gofyn i gyfranogwyr ddod at ei gilydd yn grwpiau bach (dim mwy na pump) a chyfnewid eu myfyrdodau yn bersonol iawn, ond yn union pa mor bell maent eisiau mynd. Sut ydym yn gweld ein hunain? Sut mae eraill yn ein gweld? Beth sy'n dylanwadu arnaf? Beth oedd fy mhwyntiau cyfeirio? Pam fod canfyddiadau ac agweddau'n newid dros gyfnod a pham? Pa ddeinameg y medraf eu tybio yn nhermau newidiadau a sut maent yn cysylltu â'i gilydd? Sut mae delio gydag elfennau ohonof fy hun nad wyf yn eu hoffi ac o ble y maent yn dod? Pa gysylltiad fedraf i weld rhwng gwahanol agweddau?

### Ystyried a gwerthuso:

Mae'n debyg y dylai'r rhannu barhau yn y grwpiau bach, ond medrir dod â rhai sylwadau cyffredinol yn ôl i'r sesiwn llawn, neu gall cyfranogwyr roi adborth ar yr hyn y gwnaethant ei ddysgu o'r ymarferiad mewn un wyneb enfawr a ddarlunir mewn sesiwn llawn (gyda symbolau neu sylwadau). Gall y dilynol fod yn gwestiynau parhaus: Sut ydym yn gweithio gyda'n canfyddiad ein hun a chanfyddiad eraill o'n hunain? I ba raddau mae hunaniaeth yn "gysyniad deinamig" a beth yw'r ffactorau perthnasol sy'n dylanwadu ar newidiadau? Beth yn y grŵp hwn sy'n effeithio ar fy hunaniaeth a sut maent yn cysylltu â'i gilydd? (trafodaeth am ddinasyddiaeth, lleiafrifol, cyfeiriadau). Medrai'r pynciau i ddilyn fod yn "canfyddiad a stereoteipiau", "hunaniaeth a chyfarfyddiad", "dyfnhau ymchwil ar elfennau diwylliant".

**Pwyll:**

Mae "hunaniaeth" yn agwedd hanfodol o ddysgu rhyngddiwyllynnol ond nid yw'n rhwydd ei drafod. Mae parch at wahaniaethau personol yn hanfodol; mae'n rhaid i'r adborth a roddir fod yn ofalus tu hwnt. Mae'n well rhannu eich hanes eich hun os yn bosibl yn hytrach na dehongli hanes pobl eraill. Mae'n rhaid rhoi llawer o amser (parchu gwahanol gyflymder pobl) ar gyfer gwaith personol a rhoi sylw i greu awyrgylch agored. Mae'n rhaid rhoi parch dwfn at yr elfennau a ddarganfyddir yma a ni ddylent byth gael eu trafod yn bersonol, ond medrant fod yn ddangosyddion pwysig i annog pobl i fynd ymhellach yn eu dargynfyddiadau neu i ddangos themâu i'r grŵp eu hymchwilio ymhellach.

*Ffynhonnell: addaswyd o "EYC Course on Intercultural Learning June 1998"*

## (5) Dilema moesol – pwy sy'n gywir a phwy sy'n anghywir?

Trafodaeth am stori garu drist. (Newidwyd pob enw i ddiogelu'r diniwed).

### Adnoddau :

1. Copi o'r stori ddilynol ar gyfer pob un sy'n cymryd rhan:

*Mae Sandra'n caru Tom sy'n byw ar ochr arall yr afon. Mae llif wedi dinistrio'r holl bontydd ar draws yr afon ac wedi gadael dim ond un cwch ar ôl. Mae Sandra'n gofyn i Peter, perchennog y cwch, i fynd â hi i'r ochr arall. Mae Peter yn cytuno, ond yn mynnu fod Sandra'n cysgu gydag ef am wneud hynny. Nid yw Sandra yn gwybod beth i'w wneud ac yn rhedeg at ei mam ac yn gofyn am ei help. Mae mam Sandra yn dweud wrthi nad yw eisiau ymyrryd ac iddi benderfynu drosi ei hun. Heb wybod beth i'w wneud, mae Sandra'n cysgu gyda Peter sydd wedyn yn mynd â hi ar draws yr afon. Mae Sandra yn rhedeg at Tom yn ei gofid, yn achosi embaras iddo ac yn dweud wrtho bopeth a ddigwyddodd. Mae Tom yn ei gwthio i ffwrdd ac yn ei gwrthod, mae Sandra'n rhedeg i ffwrdd. Heb fod ymhell o dŷ Tom, mae Sandra'n cwrdd â John, ffrind gorau Tom. Mae'n dweud wrtho bopeth a ddigwyddodd. Pan mae'n clywed sut mae Tom wedi trin Sandra, mae John yn rhuthro ato ac yn ei daro yn ei wyneb, ac yna'n cerdded ymaith gyda Sandra.*

2. Digon o le i'r cyfranogwyr weithio ar eu pen eu hunain, mewn grwpiau bach o 4-5 ac mewn grŵp llawn.

### Maint y Grŵp:

O leiaf 5 cyfranogydd, a 30 ar y mwyaf (medrir rhannu grwpiau mawr a hefyd wneud y gwerthusiad ar wahân).

### Amser:

Cyfanswm rhwng 1 awr 15 munud a 2 awr 15 munud

- cyflwyniad 5 munud
- 10 munud darllen unigol a graddio
- 30-45 munud gwaith grŵp bach
- (opsynol) 30 munud mewn grŵp mwy
- 30-45 munud gwerthusiad sesiwn lawn

### Cam wrth gam:

Cyflwyno'r ymarferiad i'r cyfranogwyr fel bod un am ganfod am wahanol werthoedd. Gofyn i bawb ddarllen y stori ar ben ei hun a graddio pob cymeriad (Sandra, Tom, Peter, mam Sandra a John) yn ôl eu hymddygiad. Pwy wnaeth ymddwyn waethaf? Pwy yr ail waethaf? Ac ati. Ar ôl i'r rhan fwyaf o bobl orffen graddio, gofyn iddynt ddod at ei gilydd mewn grwpiau bach (3 i 6), i drafod sut maent yn ystyried fod y cymeriadau wedi ymddwyn. Tasg y grwpiau bach yw cytuno ar restr gyffredin – rhestr y gall pawb yn y grŵp bychan gytuno arno.



# Atodiad 1

## Crynodeb o Ddeddf Cydraddoldeb Unigol (2006)

### 1. Prif ddarpariaethau'r Ddeddf:

- sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a diffinio ei ddiben a'i swyddogaethau;
- gwneud gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, addysgu, defnyddio a gwaredu eiddo, ac arfer swyddogaethau cyhoeddus yn anghyfreithlon;
- galluogi darpariaeth ar gyfer gwahaniaethu ar sail tueddfryd rhywiol wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, addysgu, defnyddio a gwaredu eiddo ac arfer swyddogaethau cyhoeddus;

a

- creu dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng dynion a menywod ('y ddyletswydd rhyw'), a gwahardd gwahaniaethu ac aflonyddu rhywiol wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus.

### 2. Bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cymryd gwaith y Comisiynau sy'n bodoli (y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd) a bydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo cydraddoldeb a brwydro yn erbyn gwahaniaethu anghyfreithlon mewn tri edefyn newydd, sef tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred ac oedran. Bydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd gyfrifoldeb am hyrwyddo hawliau dynol.

## CEFNDIR

- ### 3.
- Creodd Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 (c. 65), Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (c. 74) a'r Ddeddf Comisiwn Hawliau Anabledd 1999 (c. 17) y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn eu tro. Mae'r deddfwriaeth sefydlu yn rhoi cyfrifoldeb ar y Comisiynau i frwydro yn erbyn gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle o ran rhyw, hil neu anabledd. Mae gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal gyfrifoldebau am y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw a'r Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970, mae gan y Comisiwn Cysylltiadau Hiliol gyfrifoldeb am y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ac mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn gorfodi'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- ### 4.
- Fe wnaeth Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003 (S.I. 2003/1661) a'r Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003 (S.I. 2003/1660) wahaniaethu ar sail tueddfryd rhywiol a chrefydd neu gred mewn cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol yn anghyfreithlon. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu ymrwymadau'r Deyrnas Unedig dan Gyfarwyddeb Cyflogaeth y Comisiwn Ewropeaidd (Cyfarwyddeb 2000/78/EC). Mae deddfwriaeth yn cael ei pharatoi hefyd i wahardd gwahaniaethu ar sail oedran yn y meysydd hyn, yn ôl gofynion y Gyfarwyddeb Gyflogaeth. Ar hyn o bryd nid oes sefydliad statudol â chyfrifoldeb am hyrwyddo cydraddoldeb neu frwydro yn erbyn gwahaniaethu anghyfreithlon yn yr edefyddion cydraddoldeb newydd hyn. Yn yr un modd, er bod rhaid i awdurdodau lleol gadw at ddarpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998, nid yw'r gwaith o hyrwyddo hawliau dynol wedi ei roi i unrhyw gorff statudol ym Mhrydain Fawr.

5. Yn Hydref 2002, cyhoeddodd y Llywodraeth bapur ymgynghorol ("Equality and Diversity: Making it Happen - Consultation on future structures for equality institutions") yn cynnwys adolygiad o'r gefnogaeth sefydliadol sy'n bodoli ar gyfer deddfwriaeth cydraddoldeb a dewisiadau ar gyfer y dyfodol, yn arbennig y posibilrwydd o greu un Comisiwn cydraddoldeb ar gyfer Prydain Fawr. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi sefydlu un corff cydraddoldeb.
6. Yn Hydref 2003, fe wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi ei bwriad i ddwyn gwaith y Comisiynau presennol at ei gilydd mewn corff newydd a fyddai hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am ddeddfau newydd ar oedran, crefydd neu gred a thueddfryd rhywiol, a chael cefnogaeth sefydliadol i hawliau dynol am y tro cyntaf.
7. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn (Cm 6185 "Fairness for All: A New Commission for Equality and Human Rights") ar 12 Mai 2004. Roedd y Papur Gwyn yn nodi cynigion manwl y Llywodraeth ar gyfer y Comisiwn newydd, gan gynnwys ei rôl, dyletswyddau, a phwerau, ac roedd yn amlinellu'r ffordd y byddai'r Comisiwn yn darparu gwasanaethau i'w brif randdeiliaid. Gwahoddwyd sylwadau ar y cynigion erbyn 6 Awst 2004, a chyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar 18 Tachwedd 2004.

## Y DDEDDF

8. Mae'r Ddeddf mewn pum Rhan ac mae pedwar Atodlen iddi..
9. *Mae Rhan 1* gan gynnwys Atodlenni 1, 2 a 3 yn sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn nodi ei dyletswyddau, pwerau cyffredinol, pwerau gorfodi a'r dehongliad ar gyfer y Rhan hon o'r Ddeddf. Trafodir diddymu'r Comisiynau cydraddoldeb presennol hefyd yn y rhan hon o'r Ddeddf.
10. *Mae Rhan 2* yn nodi'r darpariaethau ar gyfer gwahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, addysgu, defnyddio a gwaredu eiddo ac arfer swyddogaethau cyhoeddus.
11. *Mae Rhan 4* yn nodi darpariaethau ar gyfer gwahardd gwahaniaethu rhywiol wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus ac yn creu dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i roi'r ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng dynion a menywod.
12. *Mae Rhan 4* yn nodi darpariaethau ar gyfer gwahardd gwahaniaethu rhywiol wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus ac yn creu dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i roi'r ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng dynion a menywod.
13. *Mae Rhan 5* ynghyd ag Atodlen 4 yn cynnwys deunydd ategol cyffredinol gan gynnwys diddymiadau, cais i'r Goron, cychwyn a graddfa'r cynnwys.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 1: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Adran 1: Sefydlu 14.** *Mae Adran 1 yn sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.*

### Adran 2: Cyfansoddiad, ac yn y blaen

15. *Mae Adran 2* yn cyflwyno *Atodlen 1* sy'n nodi'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfansoddiad y Comisiwn; ei aelodau (y Comisiynwyr); eu meini prawf penodi; a'r modd y maent yn dal y swydd; daliadaeth swydd y Cadeirydd a'r dirprwy Gadeirydd; rheoli ei weithdrefnau; penodi ei staff; penodi ei Gomisiynwyr Ymchwilio; ei bwerau dirprwyo a'r pwyllgorau y mae'n rhaid i rai swyddogaethau gael eu dirprwyo iddynt; paratoi ei adroddiad blynyddol; tâl Comisiynwyr a staff; ei drefniadau ariannol; a'i statws.

### Adran 3: Dyletswydd cyffredinol

**16.** Mae Adran 3 yn nodi'r canlyniadau i gymdeithas y mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio tuag atynt. Mae'n esbonio'r rhesymeg ar gyfer y Comisiwn, yn cyfuno gwaith mewn cydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau yn Rhan 1 er mwyn gweithio tuag at y canlyniadau a nodir yn yr adran hon.

### Adran 4: Cynllun strategol

**17.** Mae Adran 4 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi cynllun strategol sy'n nodi'r gweithgareddau neu'r mathau o weithgareddau y mae'n bwriadu eu gweithredu, yr amserlen ar gyfer y gweithgareddau hynny, a'r blaenoriaethau ar gyfer y gweithgareddau (neu'r egwyddorion ar sut y dylid pennu'r blaenoriaethau hynny) a'u rhoi gerbron y Senedd.

**18.** Mae Isadran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol o leiaf unwaith bob tair blynedd ers ei gyhoeddi, er nad oes raid iddo adolygu'r cynllun ar ôl pob adolygiad os nad yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r cynllun gwreiddiol a phob adolygiad iddo, a sicrhau bod y cynllun a phob adolygiad yn cael eu hanfon at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w gosod ger bron y Senedd.

### Adran 5: Cynllun strategol: ymgynghoriad

**19.** Mae Adran 5 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori ar baratoi ac adolygu ei gynllun strategol. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â'r rhai sydd â gwybodaeth neu brofiad sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiwn ac eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried sy'n addas. Mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiwn gyhoeddi gwahoddiad cyffredinol i wneud cyflwyniadau, i sicrhau ei fod yn medru ymgynghori gyda grŵp mor fawr o bobl ag sy'n bosibl.

**20.** Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried unrhyw gyflwyniadau y mae'n eu derbyn yn ystod yr ymgynghoriad.

### Adran 6: Datgelu

**21.** Mae Adran 6 yn creu trosedd droseddol ddiannod o ddatgelu heb ganiatâd unrhyw wybodaeth a ddarparwyd i'r Comisiwn gan drydydd parti yn ystod ymchwiliad, archwiliad, asesiad, proses rhybudd cydymffurfio, neu drafodaeth i gael cytundeb gan gyn Gomisiynydd, Comisiynydd Ymchwilio, gweithiwr, neu aelod o bwyllgor a sefydlwyd gan y Comisiwn, neu un presennol. Bydd gwybodaeth a geir trwy arfer ei swyddogaethau eraill yn amodol ar ddatgeliad yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae isadran (3) yn rhoi rhestr gynhwysfawr o gategoriau y gellir rhoi caniatâd i ddatgelu ar eu cyfer, sef datgeliad a wnaed: ar gyfer dibenion arfer swyddogaeth y Comisiwn dan unrhyw un o adrannau 16, 20, 21, 24, 25, 31 a 32; mewn adroddiad i ymchwiliad neu asesiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn; yn unol â gorchymyn gan lys neu dribiwnlys; gyda chydysniad pob unigolyn y mae'r wybodaeth a ddatgelwyd yn ymwneud ag ef/hi; mewn modd sy'n sicrhau na ellir adnabod unrhyw unigolyn y mae'r wybodaeth a ddatgelir yn cyfeirio ato/ati; ar gyfer dibenion camau sifil neu droseddol y mae'r Comisiwn yn barti iddynt, neu; os yw'r wybodaeth wedi ei chaffael gan y Comisiwn fwy na 70 mlynedd cyn dyddiad y datgeliad. Nid yw isadran (3) yn caniatáu datgelu gwybodaeth a ddarperir gan, neu yn ymwneud â gwasanaeth cudd-wybodaeth. Dim ond dan isadran (4) y gellir datgelu gwybodaeth o'r fath pan fydd y gwasanaeth cudd-wybodaeth wedi cytuno. Mae isadran (6) yn darparu y bydd y gosb ar gyfer collfarniad diannod yn ddirwy hyd at yr uchafswm statudol h.y. £5,000.

### Adran 7: Yr Alban: hawliau dynol

**22.** Mae Adran 7 yn darparu na all y Comisiwn gymryd unrhyw gamau hawliau dynol yng nghyswllt materion sy'n disgyn dan reolaeth Senedd yr Alban, ac eithrio gyda chydysniad unigolyn a sefydlwyd gan Ddeddf gan Senedd yr Alban fel unigolyn y mae ei brif ddyletswyddau yn ymwneud â hawliau dynol (er enghraifft Comisiynydd Hawliau Dynol). Diffinnir "Camau hawliau dynol" yn Isadran (2).

## Adran 8: Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- 23.** Mae *Adrannau 8* i 12 yn nodi dyletswyddau'r Comisiwn. Mae adrannau eraill yn Rhan 1 yn nodi'r pwerau cyffredinol sydd gan y Comisiwn i gyflawni ei ymrwymadau dan y dyletswyddau hyn.
- 24.** Mae *Adran 8* yn nodi dyletswyddau'r Comisiwn yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hyrwyddo dealltwriaeth o arfer da a'i annog yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth (boed hyn yn ymwneud â chydymffurfio a'r deddfau cydraddoldeb neu beidio (fel y rhai a restrir yn adran 33)), hyrwyddo cydraddoldeb cyfle, hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau dan y deddfau cydraddoldeb ac i weithio tuag at ddiddymu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon, gan gynnwys trwy ddefnyddio ei bwerau gorfodi.
- 25.** Mae *Isadran (3)* yn egluro y gall y Comisiwn hyrwyddo triniaeth ffafriol i bobl anabl wrth weithredu ei ddyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod gwaith y Comisiwn yn gyson â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae *Isadran (4)* yn diffinio pobl anabl ar gyfer dibenion y Ddeddf hon.

## Adran 9: Hawliau dynol

- 26.** Mae *Adran 9* yn nodi dyletswyddau'r Comisiwn o ran hawliau dynol. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hyrwyddo dealltwriaeth o bwysigrwydd hawliau dynol, annog arfer da yng nghyswllt hawliau dynol, a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol a'u diogelu. Yn ychwanegol, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn annog awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio ag adran 6 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (c.42) sy'n eu gwahardd rhag gweithredu mewn modd sy'n anghymharus â hawliau'r Confensiwn fel y maent yn cael eu diffinio yn adran 1 y Ddeddf Hawliau Dynol).
- 27.** Dim ond yng nghyswllt awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd olaf yn berthnasol (diffinnir "awdurdod cyhoeddus" yn adran 6 y Ddeddf Hawliau Dynol). Ond, yng nghyswllt y dyletswyddau mwy cyffredinol dan yr adran hon, ni fydd y Comisiwn yn cael ei gyfyngu i ymdrin ag awdurdodau cyhoeddus. Bydd, er enghraifft, hefyd yn medru rhoi anogaeth i'r sectorau gwirfoddol a masnachol i fabwysiadu safonau hawliau dynol addas fel sail y berthynas gyda'u cleientiaid a'u cwsmeriaid wrth ddarparu eu gwasanaethau.
- 28.** Mae *Isadran (2)* yn ei gwneud yn glir y gall y Comisiwn gymryd unrhyw gamau dan yr adran hon o ran hawliau dynol heblaw "Hawliau'r Confensiwn" a nodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Hawliau Dynol. Ond, mae *Isadran (3)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi ystyriaeth arbennig i bwysigrwydd arfer ei bwerau yng nghyswllt hawliau'r Confensiwn.
- 29.** Mae *Isadran (4)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried hawliau dynol perthnasol wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan adrannau 8 a 10.

## Adran 10: Grwpiau

- 30.** Mae *Adran 10* yn nodi dyletswyddau'r Comisiwn o ran hyrwyddo perthynas dda rhwng aelodau gwahanol grwpiau, o fewn grwpiau gwahanol, a rhwng aelodau grwpiau gwahanol a'r gymdeithas yn ehangach. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn weithio tuag at ddileu rhagfarn yn erbyn aelodau o grwpiau a galluogi aelodau o grwpiau i gymryd rhan mewn cymdeithas, er enghraifft wrth herio hiliaeth yn y cyfryngau, neu alluogi pobl anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau dinesig.
- 31.** Mae *Isadrannau (2)* a *(3)* yn diffinio grwpiau fel pobl sy'n rhannu un o'r nodweddion a restrir yn *isadran (2)*, gan gynnwys grwpiau llai a all rannu nodwedd yn ychwanegol at yr un y mae'r gr?p yn cael ei ddiffinio ganddo, fel menywod Mwslimaidd, neu Ddu a lesbiaid a dynion hoyw o leiafrifoedd ethnig, neu bobl ifanc anabl. Gall grwpiau ddymuno neu beidio dymuno cael eu hystyried yn "gymunedau". Gall gwaith y Comisiwn gyda grwpiau fod yn berthnasol i gymunedau yn ogystal â grwpiau.
- 32.** Mae *Isadran (4)* yn sicrhau bod y Comisiwn wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan yr adran hon yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r angen i arfer ei bwerau yng nghyswllt grwpiau sy'n cael eu diffinio gan eu hil, crefydd neu gred.



- 33.** *Mae Isadran (5)* yn sicrhau bod y Comisiwn, wrth gyflawni ei ddyletswyddau yng nghyswllt gweithio gyda grwpiau, yn hyrwyddo neu annog triniaeth ffafriol i bobl anabl, i sicrhau cysondeb â dull cyffredinol y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

### **Adran 11: Monitro'r gyfraith**

- 34.** *Mae Adran 11* yn nodi ymrwymiadau a phwerau'r Comisiwn i gadw deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol dan adolygiad a rhoi cyngor ac argymhellion ar y deddfau a'r newidiadau arfaethedig i'r deddfau.
- 35.** *Mae Isadran (1)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd y deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol. Rhestrir y deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol yn adran 33 ac, ar gyfer dibenion yr adran hon, maent yn cynnwys y Ddeddf hon i gyd (isadran (3)(c)). Mae Isadrannau (2)(a) a (b) yn galluogi ond nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynghori'r Llywodraeth am effeithiolrwydd y deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol ac i argymhell newidiadau. Mae Isadrannau (2)(c) a (d) yn galluogi'r Comisiwn i roi cyngor i'r Llywodraeth neu'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban neu Gymru am effaith deddfwriaeth (nad yw'n cael ei gyfyngu i'r deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol) neu effaith tebygol unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gyfraith.

### **Adran 12: Monitro cynnydd**

- 36.** *Mae Adran 12* yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi adroddiadau ar y cynnydd a wnaeth tuag at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir h.y. y canlyniadau i anelu atynt wrth annog a chefnogi datblygiad y gymdeithas a ddisgrifir yn adran 3. Er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau dan y ddyletswydd hon, bydd raid i'r Comisiwn werthuso'r dystiolaeth sydd ar gael er mwyn dynodi'r canlyniadau a ddymunir i gymdeithas a'r dangosyddion y gellir mesur cynnydd trwy gyfeirio atynt. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori yn eang ar ba rai o'r rhain ddylai fod yn flaenoriaethau i'r Comisiwn eu monitro.
- 37.** Wedi i'r Comisiwn bennu pa ganlyniadau a dangosyddion sy'n flaenoriaethau, bydd yn defnyddio'r dangosyddion i fonitro cynnydd tuag at y canlyniadau dros gyfnod o amser. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad cyn pen tair blynedd i'r adran hon ddod i rym, a phob tair blynedd wedi hynny. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi adroddiad ar gynnydd ger bron y Senedd.

### **Adran 13: Gwybodaeth, cyngor ac ati**

- 38.** *Mae Adran 13* yn nodi'r pwerau cyffredinol sydd ar gael i'r Comisiwn, a'r gweithgareddau cyffredinol y gall ymgymryd â nhw, i gyflawni unrhyw un neu'r cyfan o'i ddyletswyddau. Y gweithgareddau hyn yw cyhoeddi neu rannu syniadau a gwybodaeth, rhoi cyngor a chyfarwyddyd, gwneud gwaith ymchwil a darparu addysg neu hyfforddiant.
- 39.** *Mae Isadrannau (1)(e) a (f)* yn rhoi caniatâd i'r Comisiwn weithio mewn partneriaeth ag eraill, neu i drefnu i eraill wneud unrhyw un o'r gweithgareddau a restrir. Gall hyn gynnwys partneriaethau trwy gontract neu ar sail grant.
- 40.** *Mae Isadran (2)* yn cadarnhau nad yw cyngor a roddir dan yr adran hon yn cynnwys paratoi dogfennau i'w defnyddio ar gyfer dibenion camau cyfreithiol. Mae gan y Comisiwn bwerau ar wahân i ddarparu cyngor o'r fath o ran mathau penodol o gamau cyfreithiol, fel y nodir yn adran 28.

### **Adran 14: Codau ymarfer**

- 41.** *Mae Adran 14* yn galluogi'r Comisiwn i gyhoeddi cod ymarfer o ran meysydd penodol o ddeddfwriaeth gwahaniaethu, i gynorthwyo pobl i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle. Yn ychwanegol, gall y Comisiwn gyhoeddi cod ymarfer ar ddarpariaethau penodol deddfwriaeth landlord a thenant a thai.
- 42.** *Mae Isadran (1)* yn rhestru'r meysydd yn y ddeddfwriaeth cydraddoldeb (fel y maent yn cael eu diffinio yn adran 33) y bydd y Comisiwn yn medru cyhoeddi codau ymarfer ynglŷn â nhw.

- 43.** *Mae Isadrannau (3) a (4)* yn nodi'r amgylchiadau a'r meysydd mewn deddfwriaeth landlord a thenant a thai y gellir cyhoeddi cod ymarfer arnynt yn rhoi cyfarwyddyd ymarferol i landlordiaid a thenantiaid yng Nghymru neu Loegr (isadran (2)) ac yn yr Alban (isadran (3)).
- 44.** *Mae Isadran (5)* yn gosod ymrwymiad ar y Comisiwn i gydymffurfio â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi cod ymarfer o ran mater nad yw'n cael ei gynnwys yn yr adran hon ar hyn o bryd ond y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl ei ychwanegu trwy gyfrwng y p?er gwneud gorchymyn a roddir yn Adran 15(6) i amrywio'r ystod o faterion y gall y Comisiwn baratoi cod ymarfer arnynt.
- 45.** *Mae Isadran (6)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi unrhyw gynigion ar gyfer cod ymarfer i ymgynghori arnynt.
- 46.** *Mae Isadran (7)* yn atal y Comisiwn rhag cyhoeddi cod ymarfer oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo ar ffurf drafft gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac yna ei osod ger bron y Senedd. Gall y naill D? neu'r llall basio penderfyniad yn anghymeradwyo'r cod drafft cyn pen 40 diwrnod o'i gyflwyno. Os na fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei basio, mae Isadran (8) yn darparu y bydd y cod ymarfer yn dod i rym ar ddiwrnod a nodir gan orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 47.** *Mae Isadran (9)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion yr Alban a'r Cynulliad Cenedlaethol cyn cymeradwyo cod ymarfer drafft neu gychwyn cod ymarfer sy'n ymwneud â'r dyletswyddau ar y sector cyhoeddus parthed y dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar hil, rhyw neu anabled dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled, yn eu tro.
- 48.** *Mae Isadran (10)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion yr Alban cyn cymeradwyo cod ymarfer drafft neu gychwyn cod ymarfer a gyhoeddwyd dan Isadran (4) sy'n rhoi arweiniad ymarferol i landlordiaid a thenantiaid tai yn yr Alban.

### **Adran 15: Codau ymarfer: atodol**

- 49.** *Mae Isadran (1)* o'r adran hon yn gwneud darpariaeth i'r codau ymarfer a gyhoeddir dan adran 14 gael eu hadolygu. Mae Isadran (3) yn darparu i unrhyw god gael ei ddiddymu trwy orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gais y Comisiwn. Bydd gorchymyn i ddiddymu cod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol Seneddol.
- 50.** *Mae Isadran (4)* yn disgrifio effaith cyfreithiol cod ymarfer. Mae'n darparu nad yw peidio cydymffurfio â darpariaeth cod ymarfer ynddo ei hun yn achosi camau troseddol neu sifil, ond mae cod ymarfer yn dderbyniadwy mewn camau o'r fath a rhaid i'r llys neu dribiwnlys ei ystyried os bydd y llys neu dribiwnlys yn ystyried bod y cod yn berthnasol.
- 51.** *Mae Isadran (5)* yn datgymhwyso'r gofyn yn isadran (4)(b) i lys neu dribiwnlys ystyried cod ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 14(4). Fodd bynnag, mae Deddf Tai (yr Alban) 2006 yn darparu i lysoedd a thribiwnlysoedd yn yr Alban ystyried codau o'r fath.
- 52.** *Mae Isadran (6)* yn darparu ar gyfer p?er gwneud gorchymyn i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol amrywio'r ystod o faterion y gall codau ymarfer ymdrin â nhw. Yn unol ag adran 39(4), bydd unrhyw orchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

### **Adran 16: Ymchwiliadau**

- 53.** *Mae Adran 16* yn rhoi p?er i'r Comisiwn gynnal ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â'i ddyletswyddau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, hawliau dynol a grwpiau. Gallai'r rhain fod yn thematig (er enghraifft i achosion canlyniadau anghyfartal), sectoraidd (yn edrych ar anghyfartaledd mewn, er enghraifft, defnyddio gwasanaethau sgrinio iechyd neu ar gyflogi pobl anabl mewn sectorau penodol, e.e. y sector adwerthu) neu ymwneud ag un neu fwy o bartïon a enwir.

- 54.** *Mae Isadran (2)* yn darparu, os bydd y Comisiwn yn dechrau amau bod unigolyn sy'n destun ymchwiliad wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon (h.y. torri'r cyfreithiau cydraddoldeb, fel y nodir yn adrannau 33 a 34), na ddylai barhau i ystyried y weithred honno fel rhan o'r ymchwiliad. Fodd bynnag, fe all y Comisiwn ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn ystod ymchwiliad fel sail ar gyfer cychwyn archwiliad. Mae dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, nad yw'r agweddau hynny o ymchwiliad sy'n ymwneud â'r unigolyn sy'n cael ei archwilio neu sy'n gofyn am ei gyfraniad yn cael eu dilyn tra bydd yr archwiliad yn mynd yn ei flaen.
- 55.** *Mae Isadran (3)* yn darparu na all adroddiad ymchwiliad gasglu, yn benodol neu trwy awgrym, bod unigolyn penodol neu y gellir ei adnabod wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon. Ni chaiff yr adroddiad chwaith gyfeirio at weithgareddau unigolyn mewn modd a all niweidio'r unigolyn oni bai bod hynny'n angenrheidiol i'r adroddiad roi darlun digonol o ganlyniad yr ymchwiliad.
- 56.** *Mae Isadran (4)* yn darparu na ddylai cyfyngiadau ar i'r Comisiwn ystyried gweithredoedd anghyfreithlon dan y deddfau cydraddoldeb gael effaith ar ystyriaeth y Comisiwn o faterion hawliau dynol yn ystod ymchwiliad na chael effaith ar hynny.
- 57.** *Mae Isadran (5)* yn darparu, bod rhaid i'r Comisiwn, mewn amgylchiadau pan fydd y canfyddiadau ym marn y Comisiwn yn anffafriol, ganiatáu 28 niwrnod o leiaf i unigolyn penodol neu y gellir ei adnabod i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig ar y drafft o adroddiad sy'n cofnodi canfyddiadau sy'n ymwneud â'r unigolyn dan sylw; ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried unrhyw gyflwyniadau o'r fath.
- 58.** Mae Atodlen 2 yn nodi'r darpariaethau yn ymwneud â chylch gorchwyl, cyflwyniadau, tystiolaeth, adroddiadau ac argymhellion ac effeithiau adroddiadau yng nghyswllt ymchwiliadau, archwiliadau ac asesuadau. Gellir gweld sylwebaeth ar Atodlen 2 isod.

### **Adran 17: Grantiau**

- 59.** *Mae adran 17* yn rhoi p?er i'r Comisiwn i roi grantiau i eraill, wrth gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau dan adrannau 8 i 10. Ar hyn o bryd mae hwn yn b?er sydd ar gael i'r Comisiwn dan adran 44 o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn unig.
- 60.** *Mae Isadran (2)* yn caniatáu i'r Comisiwn roi amodau, gan gynnwys rhai'n ymwneud ag ad-daliad, i'r cymorth ariannol y mae'n ei ddarparu.
- 61.** *Mae Isadran (3)* yn darparu, pan fydd y Comisiwn yn darparu cymorth ariannol wrth arfer ei bwerau i gydweithredu ag eraill neu eu cynorthwyo dan Ran 1 o'r Ddeddf, mai dim ond yn unol â darpariaethau adran 17 y gall wneud hynny.

# Atodiad 2

## Enghreifftiau o gynllun cydraddoldeb unigol

Gweler y ddolen isod i Strategaeth Gydraddoldeb Unigol LSC i Loegr 2006-2008  
<http://readingroom.lsc.gov.uk/lsc/National/nat-singleequalityscheme-30apr07.pdf>

Gweler hefyd y ddolen i'r Uned Her Cydraddoldeb isod. Yma fe welwch enghreifftiau rhagorol o bolisiau i staff a myfyrwyr yn ogystal ag enghreifftiau o strategaeth cydraddoldeb a chydraddoldeb hil unigol ac offer ar gyfer asesiadau effaith  
<http://www.ecu.ac.uk/about/background.htm>

# Atodiad 3

## Cysylltiadau defnyddiol - adnoddau a deunyddiau pellach

Sefydliad	Beth maent yn ei wneud	Dolen
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN)	Cydraddoldeb hiliol a chyngor i unigolion du a lleiafrif ethnig, asiantaethau statudol, y sector gwirfoddol a'r cyhoedd yn y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Mon).	<a href="http://www.nwren.org.uk/">http://www.nwren.org.uk/</a>
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)	Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd y cyhoedd, yn neilltuol, yn bennaf ond nid yn llwyr yng Nghymru. Datblygu galluedd a sgiliau aelodau cymunedau lleiafrif ethnig mewn modd fel eu bod yn medru dynodi'n well a helpu i ddiwallu eu hanghenion a chymryd rhan lawnach mewn cymdeithas. Codi ymwybyddiaeth o bob agwedd o wahaniaethu mewn cymdeithas ar sail statws hil neu leiafrif ethnig drwy gyhoeddiadau, adfocatiaeth gyhoeddus a dulliau eraill o gyfathrebu.	<a href="http://www.awema.org.uk/">http://www.awema.org.uk/</a>
Rhwydwaith Menywod Lleiafrif Ethnig Cymru (MEWN)	Mae Rhwydwaith Menywod Lleiafrif Ethnig Cymru (MEWN Cymru) yn gorff ymbarel sy'n cynrychoili menywod lleiafrif ethnig (gweladwy ac anweladwy) ledled Cymru, beth bynnag eu hoedran, daliadau crefyddol, ethnigrwydd neu ddewisiadau bywyd.	<a href="http://www.mewn-cymru.org.uk/">http://www.mewn-cymru.org.uk/</a>
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru (SEWREC)	Mae SEWREC yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i unigolion, cyngor polisi i gyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol a chyngor a chefnogaeth i sefydliadau cymunedol yn gweithio yn y maes cydraddoldeb.	<a href="http://www.sewrec.org.uk/">http://www.sewrec.org.uk/</a>
Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru )		<a href="http://www.eoc.org.uk/Default.aspx?page=14960">http://www.eoc.org.uk/Default.aspx?page=14960</a>
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR)	Diben CEHR fydd gostwng anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, cryfhau perthynas dda rhwng pobl a diogelu hawliau dynol.	<a href="http://www.cehr.org.uk/">http://www.cehr.org.uk/</a>
Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Pwrpas y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yw sicrhau fod gan y Cynulliad gytundebau effeithiol i hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal i bawb wrth weithredu ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes. Mae Rheol Sefydlog 14 y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi manylion llawn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb cryf mewn gweld dialog gyda grwpiau'n cynrychioli diddordebau lleiafrifol a difreintiedig ar bob lefel yn y Cynulliad. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd, Stonewall Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg wahoddiadau sefydlog i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel cynghorwyr.	<a href="http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-second/bus-committees-second-eoc-home/bus-committees-second-eoc-committee.htm">http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-second/bus-committees-second-eoc-home/bus-committees-second-eoc-committee.htm</a>

Sefydliad	Beth maent yn ei wneud	Dolen
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG Cymru	Mae'r Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithio i adeiladu ymrwymiad a galluedd sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau y caiff staff a chleifion eu trin yn deg ac yn unol â'u hanghenion. I gyflawni hyn, mae'n gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion a sefydliadau i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol wrth gynllunio, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau iechyd.	<a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=256">http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=256</a>
Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Uned Cefnogi Cydraddoldeb		<a href="http://new.wales.gov.uk/?lang=en">http://new.wales.gov.uk/?lang=en</a>
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Mae'r gynghrair yn anelu i weithredu fel fforwm ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol i drafod materion polisi a, lle'n berthnasol, cytuno a chyflwyno safbwynt polisi cyffredin. .	<a href="http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_network.cfm?networkid=31&amp;display_sitedeptid=9&amp;lang=en">http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_network.cfm?networkid=31&amp;display_sitedeptid=9&amp;lang=en</a>
Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) Cymru	Mae'r Comisiwn yn gweithio am gymdeithas gyfiawn ac integredig lle gwerthfawrogi amrywiaeth. Defnyddir perswâd a phwerau cyfreithiol i roi cyfle cyfartal i bawb i fyw bywyd yn rhydd o ofn, gwahaniaethu, rhagfarn a hiliaeth.	<a href="http://www.cre.gov.uk/wales">http://www.cre.gov.uk/wales</a>
Fforwm yn erbyn Islamoffobia a Hiliaeth (FAIR))	Sefydlwyd y Fforwm yn erbyn Islamoffobia a Hiliaeth, FAIR, yn 2001 fel sefydliad elusennol annibynnol. Eu nod yw gweithio i sefydlu Prydain ddiogel, gyfiawn a goddedfgar heb unrhyw le i Islamoffobia a hiliaeth.	<a href="http://www.fairuk.org/intro.htm">http://www.fairuk.org/intro.htm</a>
Race Action Net	Helpu sefydliadau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, harasiaeth hiliol a throseddau crefyddol.	<a href="http://www.raceactionnet.co.uk/login.php?">http://www.raceactionnet.co.uk/login.php?</a>
Sefydliad Cysylltiadau Hiliol (IRR))	Cafodd yr IRR ei sefydlu fel elusen addysgol annibynnol yn 1958 i gynnal ymchwil, cyhoeddi a chasglu adnoddau ar gysylltiadau hiliol ym mhob rhan o'r byd. Mae eu gwefan yn cynnwys adran ar ymchwil addysgol.	<a href="http://www.irr.org.uk/education/">http://www.irr.org.uk/education/</a>
Lifelong Learning UK (LLUK) Cymru)	Lifelong Learning UK yw'r Cyngor Sgiliau Sector sy'n gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol pawb sy'n gweithio mewn dysgu a datblygu cymunedol, addysg bellach, addysg uwch; llyfrgelloedd, archifau a gwaanaethau gwybodaeth; a dysgu seiliedig ar waith.	<a href="http://www.lluk.org/nationsregions/wales_homepage.html">http://www.lluk.org/nationsregions/wales_homepage.html</a>
Estyn	Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawhydi yng Nghymru. Ei nod yw codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a chyngor i gefnogi'r weledigaeth a chyfeiriad strategol a nodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.	<a href="http://www.estyn.gov.uk/home.asp">http://www.estyn.gov.uk/home.asp</a>

Sefydliad	Beth maent yn ei wneud	Dolen
Cymunedau'n Gyntaf	Mae rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bodoli i roi cyfleoedd i bobl leol i chwarae rôl weithgar wrth lunio dyfodol eu cymuned. Mae Cymunedau'n Gyntaf yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd a elwir yn rhai difreintiedig, a'r asiantaethau sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r cymunedau hynny, i archwilio realaeth tloedi a dysgu a chydweithio i fynd i'r afael â hynny. Mae'r weledigaeth wedi ei seilio ar egwyddorion allweddol yn cynnwys hyrwyddo diwylliant lle caiff amrywiaeth ei werthfawrogi a chyfle cyfartal yn realaeth.	<a href="http://www.communitiesfirst.info/">http://www.communitiesfirst.info/</a>
Sefydliad Joseph Rowntree (JRF)	Mae JRF yn un o'r elusennau ymchwil a datblygu polisi cymdeithasol mwyaf ym Mhrydain, gan wario bron £10 miliwn ar raglen ymchwil a datblygu sy'n anelu i ddeall yn well beth yw achosion anawsterau cymdeithasol ac ymchwilio ffyrdd o'u goresgyn. Mae gwefan JRF yn rhoi dolenni i ymchwil i fewnfudo a chynhwysiant.	<a href="http://www.jrf.org.uk/research-and-olicy/immigration-and-inclusion/">http://www.jrf.org.uk/research-and-olicy/immigration-and-inclusion/</a>
Canolfan Ymchwil a Gwybodaeth Addysg Uwch (CHERI)	Mae CHERI yn darparu ymchwil, gwybodaeth a dadansoddiad i wneuthurwyr polisi ar lefelau sefydliadol, cenedlaethol a rhyngwladol i fod yn sail i bolisi addysg uwch. Mae hefyd yn cyfrannu at faes rhyngwladol ymchwil polisi addysg uwch ac yn lledaenu gwybodaeth am ddatblygiadau addysg uwch i'r gymuned academaidd ehangach. Mae CHERI yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng addysg uwch a chymdeithas.	<a href="http://www.open.ac.uk/cheri/index.htm">http://www.open.ac.uk/cheri/index.htm</a>
Cyngor Ffoaduriaid Cymru	Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn cynnig cyngor, cefnogaeth, gwaith achos ac eiriolaeth ar gyfer rhai'n chwilio am loches a ffoaduriaid. Mae gwasanaethau un stop yn rhoi help gyda cheisiadau i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Cefnogi Lloches (NASS), cyngor ar lety, cymorth teithio ar gyfer cyfweliadau lloches, budd-daliadau, tai, iechyd, mewnfudo ac addysg. Cefnogaeth datblygu ar gyfer grwpiau cymunedol i ffoaduriaid. Gwasanaeth cyfieithu. Swyddfeydd yng Nghasnewydd, Abertawe a Wrecsam.	<a href="http://www.multikulti.org.uk/agencies/somali/wales/15557/">http://www.multikulti.org.uk/agencies/somali/wales/15557/</a>

